224
~~4224 a. 65.~~

Y

SACRAMENT

A'R

Aberth CRISTIANOGOL.

Mewn dull o

Draethawd, Myfyrdod, a Gweddi,

A R

NATUR, RHANNAU, a BENDITHION,

Y

CYMMUN SANCTAIDD.

O waith *DANIEL BREVINT*, D.D.
Gynt yn Ddeon *Lincoln*.

A gyfieithwyd allan o'r bedwaredd Argraphiad
yn Saesonäeg
Gan *W. Ll.* Gweinidog *Llandygai*.

Ac a Argraphwyd yn LLUNDAIN, gan
JOAN OLFIR, yn *Bartholomew-Clôs*,
yn y Flwyddyn 1760.

12
47
JUL

Y

RHAG-YMADRODD,

NEU'R

Llythyr at y Darllennydd.

Y Darllennydd Criſtianogol,

BU'r Traethawd gwiw-rhyſeddol hwn, a gyflwynir ymma yn Gymraeg i'm Cyd-Wladwyr, yn hîr yn ddieithr i'r Bŷd, ac mor brin, na cheid mono ond yn Llyfr-Gelloedd y Dyſgedig a'r Cywraint yn unig, er bod ei rhagorol Ddaioni yn dangos yn eglur ei fod yn gymmwys-addas i bob Dyn yn gyffredinol; ac y geill fod, gyd a Bendith Dduw yn ei ganlyn, o anfeidrol leſhâad i'r Eglwys Griſtianogol; pa fodd bynnag, dyna fwriad a gobaith y Cyfieithydd gyſtadl a'r Awdur.

*Y Glod fawr, a gawſai gan rai * o'r Athrawon a'r Awdwyr mwyaf dealltwrus a dyſgedig yn ein Heglwys, ſydd yn dangos yr angenrhaid oi fod yn Yſpys i bob dŷn ſy'n chwennych deall yn gyflawn Natur y Cymmun ſanctaidd, ac mor bwysfawr yw*

* Dr *Hickes* a Dr *Waterland*.

er Jechydwriaeth pawb; pan y mae ûn, gan sôn am Dr Brevint yr Awdur, yn dywedyd, "ei fod yn gyfarwydd a dyfgedig "iawn yn Athrawiaeth Sacrament y Cym- "mun; ni ddeallodd ûn Dyn mono yn "well: ac efe a eglurodd yr Athraw- "iaethau bucheddol o hono mewn modd "mor eglur, mor ddwys, a bywiol na "cheir odid ddim ar y Teftyn, a ellir tybied "ei fod yn rhagori arno." Ac wrth hyn onid greſyn oedd ei fod cybŷd yn guddiedig rhag y Gwerin?

Yr Awdur duwiol ai amcanodd yn bennaf er Athrawiaeth ac Adeiladaeth Criſtianogion yn neilltuol yn yr Yſtafell: ond gan fod y Gweddiau rhagorol a oſodwyd gan yr Awdur, ar y cyntaf, yn niwedd pob Rhan, trwy Brawf defoſionol, wedi eu barnu i fod yn Gydymmaith gweddus i'r Allor, hwy a Symmudwyd allan o'u llê, ac ai Caſglwyd ynghŷd yn niwedd y Llyfr, megis Caſgl grynno o weddiau neilltuol, cyfleus i'r Cymmunwyr iw harferu yn yr Odfëudd arferol o Ddefoſiwn neilltuol ar Brŷd Gwaſanaeth y Cymmun yn yr Eglwys. Ac, er hyn ei gyd, rhag i'r Cymmunwr defoſi-

onol

onol golli'r Lleſhâad o honynt yn ei Yſtafell, yn nechreu'r Llyfr, ac ar ol Cynnwyſiad pob Rhan o hono, ſe ddangoſir i chwi y Tû Dalen ym mha ûn y mae i chwi gael pob Gweddi, a pha Weddi, yn ol y Drefn y darfu'r Awdur ei goſod ar y Cyntaf, a berthyn i bob Rhan *o'r Traethawd: ac, felly y gwneir y Llyfr bychan hwn o Leſhâad mwy cyffredinol, gan ei fod wedi gyfanſoddi yn gymmwys, nid yn unig i'r Dŷn dwys-fyfyrriol ſydd o ddifrif yn chwennych gael hyfforddiad yn y Dirgelwch hwn o Dduwioldeb, eithr hefyd i'r Cymmunwr defoſionol ſy'n ceiſio, o ddifrif hefyd, addoli Duw yn ei Ordinhâd ei hun, a diogelu iddo ei hun y bendithion gwerthfawr o Aberth ei Jachawdwr yn y Sacrament bendigedig hwn.*

A chan fod y Sacrament o Gorph a Gwaed Criſt o bwys mor anfeidrol tu ac at Jechydwriaeth Dyn, a chymmaint o Anwybodaeth a chael-greſydd, o An yſtyriaeth ac Eſgeuluſdra o hono yn ein plith, ſel y mae mwya cywilydd i ni, dymunwn yn fawr (a dygn-ddeiſyfiad fyng Nghalon yw) bod i bob Cymmunwr, er mwyn gochel y beiau uchod,

Tu dalen

Rhan V. *Am y Cymmun bendigedig, megis y mae'n* Wyſtl *o'r Dedwyddwch a'r Gogoniant i ddyfod,* — — 52
Arglwydd Jesu! *&c.* — — 125
Tydi, Offeiriad tragywyddol, *&c.* 136
Oh dragywyddol fendigedig Yſpryd, *&c.* — — — — — — 137
Rhan VI. *Ynghylch y Cymmun ſanctaidd, megis y mae'n arwyddoccau Aberth. Ac yn gyntaf, am yr Aberth-Coffâad,* — — — — — 66
Oh Arglwydd yr hwn ni weli ynofi, *&c.* — — — — — 135
Rhan VII. *Ynghylch yr Aberth o honom ein hunain,* — — — 75
Wele fi yn dyfod, *&c.* — — 138
Oh Dad y Trugareddau, *&c.* — 140
Rhan VIII. *Ynghylch yr offrwm o'n meddiannau a'n Heluſeni, neu'r Aberth o Gyfiawnder,* — — — — 98
Yr wy'n meiddio dyfod, *&c.* — 126

Y SACRAMENT A'R Aberth CRISTIANOGOL.

RHAN I.

Yn dangos mor bwysfawr yw iawn-ddeall natur y Sacrament hŷn.

Y Sacrament a ordeiniodd Crist y noson o flaen ei ddioddefaint, yr hwn y mae St *Paul* yn ei alw *Swpper yr Arglwydd*, sydd, yn ddiddadl, yn ûn o ddirgelion mwyaf Duwioldeb, ac yn arddercheccaf ûn o'r holl Dduwiolfwyddau a berthynant i'r Grefydd Gristianogol. F'eill y bwrdd sanctaidd, neu'r allor, sydd yn gosod ger ein bron y wledd gyssegredig, gystadl a'r hên Babell, gymmeryd iddo ei hun yr enw o *Ymgyfarfod:* gan mae yno y

bydd raid i'r bobl ymddangos i addoli
Duw, ac yno hefyd yn ſiccr y mae Duw
yn breſennol i gyfarfod, ac i fendithio ei
bobl. Yn y lle hwnnw, a thra y parhäo'r
holl waith o'r *ymgyfarfod* hwn a Duw, y
gwahoddir, mewn modd enwedigol, y
Cymmunwyr Criſtianogol i offrymmu i
Dduw eu heneidiau, eu cyrph, eu medd-
iannau, eu haddunedau, eu moliant, a
pha beth bynnag arall a allont hwy ei
roddi; a Duw, o'r tu arall, ſydd, tan
ùn, yn rhoi i ninnau gorph a gwaed ei
anwyl Fab, ynghŷd a'r holl fendithion
a ganlynant yn ddiau y ddawn gyſſegredig
hon. Canys rhaid cyfaddef hyn, fod y
Cymmun ſanctaidd, nid yn unig yn *Sa-
crament*, y bydd raid i'r addolwr ddyfod
atto i ddim perwyl arall ond i *dderbyn*;
nac yn *Aberth* yn unig, lle ni byddai
ganddo ddim arall iw wneuthur ond
rhoddi; eithr hefyd y mae, megis yr oedd
uchel-wyl mawr yr hên Baſc, yn lle pa
un yr ordeinwyd y cymmun, yn ddir-
gelwch mawr, yn ſefyll mewn *Sacrament*
ac *Aberth*, hynny yw, o'r gwaſanaeth
crefyddol ſydd ddyledus i Dduw oddi-
wrth ei bobl; ac o'r jechydwriaeth cyf-
lawn, a welodd Duw yn dda ei addaw
iw bobl.

2. WRTH

2. WRTH hyn yr ymddengys, faint y mae yn perthyn i bob Criſtion ochel amgymmeryd mewn pwngc, ar ba ûn mae ei *ddedwyddwch* ef ai ddyledſwydd yn ſefyll; ac yn rhwymo hyd yn oed y wlwm ſydd, mewn modd, yn cyſſylltu yn ai DDUW. Dyma'r peth a wnaeth 'r diafol, yr hwn erioed a gaſhaodd yn yſtadl yr hyn ſydd gyſſegredig i DDUW, 'r hyn oll ſydd leſol i jechydwriaeth dyn, myrraeth o'r dechreuad a'r Sacrament wn; ac, fyth gwedi hynny, a barodd wy blinder i'r Eglwys ynghylch corph ESU GRIST, nac a ddarfu i'r angel ei dioddef ynghylch corph *Moſes*, Jude 9. Canys corph CRIST, fel y doſpartha'r en dadau ef, ſydd o ddau fath, ſef, un *nianol*, yr hwn ſydd yn y nêf, ac ûn *acramentaidd*, yr hwn a fendithir ac a oddir wrth y bwrdd ſanctaidd: fe ddarfu'r hên Hereticiaid, a ddarfu yſpryd Anghriſt eu goſod i fynu ai ffyrnîgo yn erbyn yr Eglwys, dreilio eu holl nerth a'u gwenwyn, hyd yn oed yn amſer, ac yngwyneb, yr Apoſtolion, er mwyn diddymmu'r cyntaf, yr hwn yw dynol anian CRIST, ai wneuthur cyn wacced a chyſcod: a DUW a wyr, faint gwell triniad y mae'r ail, yr hwn yw'r corph ſacramentaidd yn ei gael y dydd heddyw,

gan ddwy blaid wrthwynebol iw gilyd
y rhai a'u gwnânt naill ai yn Eilun, ne
yn wâg ddefod. O'r holl elynion gwrth
wynebus hyn, nid allodd y rhai cynta
y rhai a ruthrasant ei gnawd ef, on
gwâg-anturio yn yr annuwioldeb yma
gan fod ei wîr gorph gogoneddus ef y
uchel-uchel allan o'u cyrhaedd: ond y
ail fath ydynt o'r achos hyn yn fwy en
byd, am y gall y cymmun bendigedig
yr hwn yw'r ail fath o gorph CRIST
Syrthio i ddwylaw'r fawl ai haddolan
megis Eilun, neu ai halogant yn ddibri
megis gwâg ddefod. Gan hynny,
mae'n ddyledus iawn ar bwy bynnag
Sydd ganddynt ddim duwioldeb tu ag a
DDUW, neu ddim gofal am eu heneidiau
drefnu eu Defosiwn gyd a'r fath ofal
pwyll, a synwyr, ac i'r Sacrament hwn
fod yn rhydd oddiwrth goel-grefydd ac
Eilun-addoliad o'r naill tû, ac oddiwrth
yr amharch a rodder iddo gan bobl ddi-
bris halogedig o'r tû arall.

RHAN

RHAN II.

ynghylch y Sacrament, megis y mae yn goffadwriaeth o ddioddefaint a marwolaeth CRIST.

Y Cymmun bendigedig a ordeinwyd yn bennaf gan ſab Duw i fod yn ſacrament yn yr Eglwys; ond pan dderbynnier ef gan bobl Griſtianogol, os derbynniant yn iawn, rhaid bod yn ei ganlyn orchwylion eraill yn ychwaneg, y rhai'ſyw ai gwnâ hefyd yn Aberth. Megis y mae yn Sacrament, y mae'r dirgelwch mawr hwn yn dangos tri wyneb, yn golygu yn union at dri o amſerau, a rhan ûn, yn cynnyg i bob derbynniwr eilwng dri math o fendithion tra rhagorol. Y golwg *cyntaf* ſydd yn portreiadu gwir affeithrwydd dioddefaint CRIST yr hwn a aeth heibio, o ba ûn y mae'n goffadwriaeth; yr ail ſydd yn dangos blaenffrwyth y dioddefaint yma mewn gwir *Radau preſennol*, y rhai y mae efe yn eu troſglwyddo ac yn eu cyfrannu i ni; a'r trydydd ſydd yn ſiccrhau dynion o'r holl radau eraill a'r gogoneddau i ddyfod, o ba rai y mae yn wyſtl di-ſiomedig.

2. FEL y mae'r Sacrament hwn yn edrych yn ôl; y mae yn goffadwriaeth

awdurol a ſafadwy, wedi adêl gan ein Jachawdwr yn ei Eglwys, o'r hyn a wel- odd efe yn dda i ddioddef troſti. Canys er bod ei ddioddefiadau ef mor ſanctaidd rhyfeddol ac ofnadwy ac i wneuthur i'r neſoedd alaru yn driſt, i'r ddaiar ſiglo, ac i holl ddynion grynnu; etto gan y geili pethau mawrion, er maint a fo eu mawredd, a'u dychryn tra y parhânt, fod mor chwannog i gael eu hanghofio a'r pethau lleiaf, pan ddarfyddant: ac felly nid peth tebygol iawn oedd y gallai dioddefaint Crist Jesu, yr hwn ni welwyd ar y groes ond tros yſpaid ychydig o oriau, gael yn dda ei gadw mewn cofadwriaeth dynion trwy'r holl oeſoedd; am hynny, y gwelodd ein Jachawdwr yn dda, ar ei ſwpper diweddaf, ordeinio'r Sacrament hwn, megis yn goffadwriaeth ſanctaidd, portreiad, a delw o'r hyn yr oedd efe yn barod i ddioddef tros yr amſer byrr hwnnw, er mwyn achub ei anwyl Eglwys tros fyth, fel pan ddêl y cenhedlaethau Criſtianogol, nas gwelſant erioed groeſhoeliad eu Hiachawdwr, yn ail i'r *Iſraeliaid* iefaingc nas gwelſant lâdd y Paſg cyntaf, i ofyn ac i holi ynghylch arwyddoccâd y pethau hynny, y *bara* hwn, a'r *gwîn* hwn, torriad y naill, a thywalltiad y llall, a derbynniad y ddau,

y

gallo'r dirgelwch roddi dangoſiad pre-ennol ac oeſtadol, i'r ffyddloniaid a'u gwelant, o ferthyrdod ac Aberth yr Ja-hawdwr croeſhoeliedig hwn, yn rhoi ei gnawd, yn tywallt ei waed, ie, ai enaid-efyd yn iawn am eu pechodau hwynt.

3. GAN hynny, megis yngwleddoedd Paſg, y gallodd yr *Iddewon* diweddar ddywedyd, *Hwn yw'r oen, y rhain yw'r dail*, ac *hwn yw'r bara cyſtudd*, a ddarfu 'n tadau eu bwyta yn yr *Aipht*, oblegid ddarfod iw gwleddoedd diweddaf ddang-os allan y cyntaf mor affeithiol, a bod digon o achos i'r bobl a fuont gyſrannog o rheini weithredu a ſiarad, megis pe buaſent breſennol wrth hwn: felly wrth ein Cymmun ſanctaidd ninnau, yr hwn a ddaeth yn lle'r Paſg, ac ſydd yn ddi-ammeu yn Sacrament mor fendigedig a nerthol i oſod ger ein bron CRIST ein paſg, yr hwn a aberthwyd troſom, 1 *Cor.* v. 7. medd St *Awſtin*, *ni ddarfu'n Jachawdwr mor petruſo dywedyd, hwn yw fy nghorph, pan roddes iw ddiſciblion yr arwydd oi gorph.* Oblegid, yn anad dim, heblaw'r *goffadwriaeth*, fod y Sacrament hwn, wedi ei iawn finiſtrio, ai dderbyn yn ffyddlawn, yn gwneuthur y peth y mae'n ei bortreiadu mor wîr breſennol i'n mwyniant, ac mor nerthol i'n jech-

ydwriaeth, a phed fae'r peth ei hun newydd ei wneuthur, neu yn ei wneuthur, *gan fwyta'r bara hwn, ac yfed y cwppan hwn, yr ydych yn dangos marwolaeth yr Arglwydd hyd oni ddelo*, 1 Cor. xi. 26.

4. Canys yn ſiccr, (rhag camgymmeryd meddwl Crist, neu wneuthur cam i'r dirgelwch) pa bryd bynnag, gyd a'r brîf Eglwys, y galwom ef yn *goffadwriaeth*, neu yn *arwydd*, dylid cymmeryd mawr ofal rhag cymmyſgu o honom yr arwyddion parchus yma a oſododd Duw i fynu *yn* ei Eglwys, ac *er* ei Eglwys, a'r gwâg luniau ac arwyddion hynny, a allai rhyw hên draddodiad, neu ryw fwriad neilltuol trwy ddamwain eu goſod yn ein ffordd. Pan wêl dynion o ſynwyr cyffredin *Arwyddion Bonedd*, neu luniau tywyſogion, y rhai a ddarfu i'r awdurdod gyhoedd eu goſod i fynu mewn lle cyhoedd parchedig, hwy a dalant amgenach parch iddynt nac i'r lluniau a ſo rhyw luniwr i borthi ei feddwl ei hun, wedi eu goſod mewn yſtafell neilltuol. Pettae'r golofn halen, a oſododd Duw i fynu o bwrpas yn y fan lle y darfu i wraig *Lot* edrych drach ei chefn tu a *Sodoma*, yn ſefyll etto yn yr ûn fann ac y bû; yn ddiammeu fe wnâ'r golwg o honi gynhyrfu'r doeth ymdeithydd lawer mwy

na

a phe gwelai ryw ôlion oi thraed hi ped faent etto yn weledig) pan drôdd yw ffordd arall. Ac, os coeliwn yr ſtori, y groes honno, yr hon y mae'r air i *Gwſtennyn* fawr, yr ymmerawdr yntaf o griſtion, ei gweled unwaith yn r awyr (yr hon yn ddiammeu a ddarfu law Duw, neu angel, wneuthur i ymdangos i ryw berwyl) nid allodd amgen a pheri mwy parch iddi na rhyw lûn cyffredin o'r groes, yr hon a arferodd Criſtianogion ar achoſion cyffredinol. A'r peth nas gall neb ei wadu yw hyn, od pob math o arwyddion yn myned yn fwy neu yn llai eu parch, yn ol y bo prîs y pethau, y maent yn eu harwyddoccau, yn fwy, neu yn llai. Baſai yn anhawdd i *Abraham*, neu ryw Batriarch deſoſionol arall, beidio a theimlo ynddo ei hun ryw gynhwrf o barch neu ofn duwiol, pan ddigwyddodd iddynt fyned heibio i *Mamre* neu *Moriah*, neu ryw leoedd hynod eraill, p'le yr ymddangoſaſai Duw iddynt. A phwy a eill ammeu, na ddarfu'r golwg yn unig o *Bethlehem*, mynydd yr *Olewydd*, *Calvari*, &c. a ddarfu i GRIST eu hanrhydeddu ai breſennoldeb, pan anwyd ef, pan ddioddefodd, a phan aeth i fynu i'r nef, gynhyrfu calonnau'r prîſ Griſtianogion

a mawr wreſogrwydd zêl, heblaw'r ffydd a'r wybodaeth arferol a gawſant wrth ddarllen am danynt? ond pan fo'r arwyddion hyn, heblaw'r defnydd cyffredin o honynt, yn dwyn gyd a hwynt y nôd ogoneddus o'u Hordinhâd oddi-uchod, megis wedi ei hargraphu ar eu hwynebau, a chyda'r ordinhâd yma, y bwriad mwya pennodol oedd gan Dduw wrthynt i ailfywhau, mewn modd, ac i amlygu i'n holl ſynhwyrau ni, ei holl ddiodefiadau ef mor llawn, a phed fuaſent etto mewn hanfod, megis y mae ganddynt fyth yr ûn rinwedd, rhaid i'r dŷn pwyllog a duwiol, bob tro ac y gwêl yr ordinhadau hyn, edrych arnynt gyd a'r tair radd hyn o ddefoſiwn ſy'n canlyn.

5. Y cyntaf yw, pan fo yn yſtyried y digwyddiadau mawr ofnadwy hynny, y mae'r Sacrament hwn yn eu goſod ger ei fron ef. Yr ydwyf yn gweled ar y allor yma ryw beth yn debyg iawn i Aberth a dioddefaint ſy Jachawdwr; canys fel hyn y torrwyd bara'r bywyd, fel hyn y Lladdwyd Oen Duw, fel hyn y tywalltwyd ei werthfawroccaf waed ef. A phan edrychwyf ar y gweinidog, yr hwn, drwy orchymmyn pendant oddiwrth Dduw ei feiſtr, ſydd yn rhannu'r bara hwn a'r gwîn hwn, y mae yn ſy

meddwl

meddwl i, mae fel hyn, yn wîr; y darfu Ddduw ei hun unwaith roi ei fab i farw, ac y mae efe etto fyth yn rhoi'r rhinwedd oi farwolaeth ef, i fendithio, ac i achub pob enaid a ddêl atto ef yn ddiragrith.

6. Yr ail radd, gweithred o Addoliad pharch ydyw, pan fo yn edrych ar y law ddaionus honno a gyſſegrodd, er mwyniant yr Eglwys, y goffadwriaeth o'r pethau mawrion hyn. Nis gallaf, heb ryw faint o ddefoſiwn, edrych ar ddim a ddûg i'm côf, mewn rhyw fodd, ddi-oddefaint fy Jachawdwr: a phe canfyddwn ond rhyw Gwmmwl yn debyg iddynt, er-na bo ond ar ddamwain, ni eſceuluſwn yn ddiyſtyr mor ddamwain a barodd y gyffelybiaeth honno. Ond gan ddarfod i ddaionus law fy Nuw, o wîr bwrpas, ddychymygu a threfnu 'r peth fel hyn, i oſod ger fy mron y peth yr wyf yn ei weled; a chan mae trwy ei orchymyn pennodol ef y dygir yr arwyddion hyn i mewn yma i'r Eglwys a'r Gynnulleidfa hon, ac i minneu ymhlith eraill, rhaid i mi feddwl beth a wnaeth *Iſrael* pan ddarfu'r Cwmmwl lenwi'r Tabernacl; ni eſceuluſaf addoli fy Nuw cyn gynted ac y gwelaf y Sacramentau, a'r Cymmylau efengylaidd hyn yn ymddangos yn y cyſſegr. Yma nid wyf yn addoli na'r

Sacrament,

Sacrament, na'r tabernacl, ond mi a ddaliaf fulw ar y modd y darfu *Moſes*, *Dafydd*, ac holl *Iſrael* fy nyſgu i dderbyn y defnyddiau gwael ar ol i ordinhâd Duw unwaith eu derchafu hwynt i ſtât o ddirgelion mawr. Ni addolwyd na'r Arch, na Chymmylau yn y byd, erioed yn *Iſrael*, er darfod i rai dynion di-reſwm, ym mhlith y Cenhedloedd di-grêd, ar ryw drô, dybied felly: ond ſicer yw hyn, ddarfod cyfrif yr arch yn beth amgenach na Chriſt gyffredin, a'r cwmmwl yn amgenach na tharth, cyn gynted ac y ſancteiddiodd Duw hwynt i fod yn arwyddion oi breſennoldeb ef. Gan hynny, megis na ddarfu plant *Iſrael* erioed weled y Deml, neu'r cwmmwl, nas arferant, yn ddiatreg, ar y golwg hwnnw fyrthio ar eu hwynebau, nis edrychaf' inneu fyth ar y Sacramentau hyn, y rhai ydynt well a ſiccrach arwyddion o ogoneddus drugareddau Duw, ond cyn gynted ac y gwelaf eu harferu yn yr Eglwys i'r perwyl ſanctaidd y darfu CRIST eu cyſſegru hwynt iddo, nid eſceuluſaf gofio fy Jachawdwr a gyſſegrodd y ſacramentau hyn, ac addoli hefyd fy Jachawdwr, o'r hwn hefyd y mae'r ſacramentau hyn yn arwyddion. Ac na atto Duw na bo i mi, pan allwyf, eu derbyn yn y cyfryw fodd ac y darfu

i'n

n Jachawdwr dderbyn ei fedydd ei hun, yd a defoſiwn a gweddi. *Luc* iii. 21.

7. Y DRYDEDD râdd, yr hon yw Coron chyflawniad y ddwy arall, ydyw'r fath eithred gyflym egniol o ffydd, a allo d yn gyfattebol i'r diben mawr a ddar-n'n Jachawdwr ei fwriadu; pan ordein-dd efe'r Sacrament hwn. Bwriad ennaf ein Jachawdwr CRIST oedd, nid oſod yma *lwm ddelw* oi ddioddefaint, edi ei ddioddef unwaith er mwyn ei *ofio* yn unig, eithr, uwchlaw hyn, i hwannegu at y goffadwriaeth hon y fath îr breſennoldeb rinweddol o gymmod a erth parhaus a allo bortreiadu *o flaen in llygaid Criſt ei hun wedi groeſhelio*, Gal. iii. 1. a'n gwahodd ni iw Aberth ef, id megis wedi darfod a dibennu ers lynyddoedd lawer, ond at râs a thruga-edd cymmodlawn, etto fyth yn parhau, tto fyth yn newydd, ac etto fyth yr n-ûn ac ydoedd pan offrymmwyd gyntaf roſom.

8. YR holl Aberthau hynny tan y gyf-raith, y rhai y terfynwyd eu defnydd a'u grym, rhai i flwyddyn, rhai i fîs, a rhai i ddiwrnod, nid oeddynt ddim llai eu grym y munud ddiwaethaf nac oeddynt y munud cyntaf o'u priodol barhâd; a'r ſawl a fuont fyw neu farw o fewn y deuddegfed

deuddegfed mîs o'r flwyddyn ar ol *gwyl y cymmod*, hwy a gawſant gymaint Lleſhâd oddiwrth yr aberth blynyddawl hwnnw, a'r ſawl oeddynt yn y fan, a'r diwrnod, pryd y darfuaſai i'r arch-offeiriad ei offrymmu. Oblegid y cyffelyb *reſwm* eithr gwell *un* o feſur anfeidrol, gan fod aberth JESU GRIST wedi ordeinio gan DDUW'r Tad yn gymmod i barhau trwy'r holl oeſoedd hyd ddiwedd y byd, ai fod tan ûn yn dragywyddol, trwy fraint ei *urdd* ei hun, yr hwn yw *Offeiriadaeth anghyfnewidiol*, Heb. vii. 24. a thrwy werthfawrhydi yr hwn ai hoffrymmodd, ſef, bendigedig Fab Duw, a thrwy nerth yr yſpryd trwy'r hwn yr offrymmwyd, yr hwn yw'r yſpryd tragywyddol, *Heb.* ix. 14. gan fod Tragywyddoldeb o bob math ſel hyn yn cydgyfarfod i wneuthur i fynu'r aberth ar y groes, y mae'n rhaid iddo, ymhob modd, barhau yn dragywydd, *Heb.* xiii. 8.

9. GAN fod yr aberth hwn ynteu yn gyfryw un, y mae'r Cymmun ſanctaidd, wedi ordeinio gan GRIST iw oſod allan i ni megis y cyfryw, hynny yw, mor gwbl affeithiol yr awron wrth ei fwrdd ſanctaidd ac ydoedd y prŷd hynny ar y groes ei hun: ac, heblaw'r goffadwriaeth a'r addoliad, hyn a fydd raid bod, trwy'r

ûn

n cymmeſur, gwaith y derbynnwyr teil-
ng; yn gynta derchafu eu ffydd, ac
ſtyn eu heneidiau hyd yn oed at y myn-
dd, gyda'r Forwyn fendigedig, yr hon
ſafodd yn neſaf ûn at yr aberth; neu,
'r hyn lleiaf gyd a'r diſcyblion, y rhai
edrychaſant arno ryw faint oddi-draw:
c yn a edrych i fynu at yr *Oen offrymmedig*
t Jeſu, y Cyfryngwr tragywyddol o Gyf-
mmod tragywyddol, ac at waed y Taenelliad
ſad etto yn lleſaru, ac yn daer-erfyn gwell
ethau (ſef maddeuant a bendith) *nac y*
larfu'r eiddo Abel, Heb. xii. 24. Yma
haid i'n ffydd ni fod yn wir *ſylwedd* o'r
ethau hynnu a aethant heibio, y rhai yr
ydym ni yn eu credu, gyſtadl ac ydyw
o'r pethau eraill hynny etto i ddyfod, y
hai yr ydym yn ei obeithio am danynt,
Heb. xi. 1.

10. GAN hynny wrth ddyneſhau at y dirgelwch mawr, a thrwy gymmorth y ffydd rymmus hon, dylai'r Cymmûnwr teilwng, wedi ymoſtwng yn îſel wrth fwrdd yr Arglwydd, megis wrth droed ei groes ef, gyd a chyſtudd calon ddifrifol, gyffeſſu ac alaru am ei holl bechodau, y rhai oeddynt yr hoelion a'r gwaywffyn a wanaſant ein Jachawdwr. Nyni'n hunain yn bennaf, nid *Pilat* na'r *Iddewon* (canys nid tros y cyfryw rai yn

unig

unig y buaſai efe farw) nyni a groeſhoel-iaſom y *cyfiawn* hwnnw. *Ha wyr, frodyr! beth a wnawn ni?* Act. ii. 37. Pa fraw a ſynnedigaeth a ſyrth arno wrth yſtyried pwys y wialen honno o gyfiawnder Duw, yr hwn, gwedi ei ddigio ond gan *ddynion*, nid ellid moi fodloni nai heddychu ond gan ddioddefaint a marwolaeth Mab Duw, a Duw ei hun. Mor ofnadwy yw'r lle hwn! ddyfned a ſanctteiddied yw'r dirgelwch hwn! yna y Cymmunwr teilwng a ſyrth i lawr i addoli a dim llai ei fraw ai ſynnedigaeth *oblegid*, nai ddiolchgarwch *am*, anrhaethol drugareddau Duw'r Tad yr hwn felly a roes ei unig Fab; ac am drugareddau Duw'r Mab yr hwn hefyd fel hyn ai rhôdd ei hunan trofom.

RHAN III.

Yngbylch y Sacrament bendigedig fel y mae'n ſefyll yn arwydd o radau preſennol.

1. 'MAE ail olwg y Cymmun bendigedig yn edrych tu ag at y rhadau preſennol fy'n canlyn yr iawn arfer o hono, yn gyntaf megis cyffelybiaeth

trwy

wy ba un y mae Duw yn eu portreiadu,
n ail megis *Arf moeſawl*, trwy ba un y
ae efe'n gweled yn dda eu troſglwyddo
Eglwys. Yn gyntaf, meddaf, y mae'
nodi ac yn arwyddoccau y rhadau
reſennol hyn. Canys, gan ei fod oi'
atur ei hun yn Sacrament, hynny yw,
arwydd gweledig o ras anweledig, rhaid
do yn bennaf dim ſefyll i arwyddoccau,
i'n harwain ni at, fwy bendithion.

2. ARFER Duw yn gyffredinol, pan
naill ai yn gaddaw neu yn rhoi i'
dynion ryw fendith ragorol, ydyw
ccrhau ei *air* a'i *ddawn* a rhyw arwydd
n iw canlyn. Am hyn nid rhaid i mi'
rybwyll am un dyſtiolaeth amgen na
wnnw o'r Enfys, y Berth yn lloſci,
fwrn *Abraham*, Cnû *Gideon*, y Cwm-
wl, yr Arch, *&c.* y rhai, am yr am-
roedd o honynt, oeddynt Sacramentau
bethau mawrion. Ni ddarfu Duw yn
yffredinol anfon ûn oi brophwydi heb
o arwyddion ſacramentaidd iw ganlyn,
rhai a allaſant amlygu, mewn rhyw
odd, y gennadwri oedd ganddynt iw
hoi. Hyn a dyſtiolaetha 'r *Mantellau*
lewog, y gwiſcoedd rhwygedig, yr Jeu-
edd haiarn, y Cŷrn, weithieu rhyw fath
fuchedd neu *ymddygiad*, trwy ba rai y
allai dynion ganfod ym mlaen llaw y
gorch-

gorchymmynion a'r daroganau triſt yr oeddynt iw clywed yn fuan gwedi Dyma'r ffordd a ganlynodd ein Jachawdwr, pan oſododd ei ddwylaw ar blant, pan anadlodd ar ei ddiſcyblion, pan barodd iddynt enneinio'r cleifion, a phan ſelltigodd y ffigys-bren. Y mae'n naturiol i bob dyn wneuthur rhyw beth tebyg i hyn, pan font yn cadarnhau eu hymadroddion a rhyw arwyddion a ſymmudiadau o'u cyrph, er na feddyliant am ddim dirgelwch wrthynt; fel nad alloch glywed nebrhyw ddyn yn ddygn-ddifrifol mewn rhyw neges, pa un bynnag ai yn deiſyf, neu yn achwyn, yn ymoſtwng, neu yn eſcuſodi, na welwch ef hefyd tan un, naill ai yn plygu glîn, neu yn plethu dwylaw, neu'n dinoethi ei ben; y gweithredoedd hyn ydynt, mewn modd, ſacramentau moeſawl a naturiol i ſicrhau'r ymadroddion.

3. Y GWÎR yw, dyna dueddfryd y rhan fwyaf o ddynion, er maint, ac er cadarned yw eu crediniaeth o'r gwirionedd a glywont, hwy ai credant, ac a fodlonant eu hunain lawer gwell pan welant rhyw arwyddion o hono: ac er nad ydyw'r gwîr *Iſraeliad* yn ammeu dim o breſennoldeb eu Duw, na'r diſcybl ffyddlon o'r addewid o roddwydd iddo y

derbynniai

erbynniai efe yr Yſpryd glân, gwedi i *Moſes* a CHRIST unwaith roi eu gair am ddau bêth hyn, etto eu ffydd a fydd n lawer cadarnach, pan wêl yr *Iſraeliad* r *Arch* a'r *Cwmmwl*, y rhai oeddynt y acrament o Breſennoldeb DUW; a phan derbyn y diſcybl yr *Anadliad*, yr hwn w 'r Sacrament o 'r Yſpryd glân. Yr wron, y mae dirgelwch y groes, a'r echydwriaeth ſydd yn ei chanlyn, o natur nor uchel a phwys-fawr, ac y gallai yn da rwymo Mab Duw iw goſod hwynt w Eglwys yn y modd gymmwyſaf i weihredu yn ddwys ar galonnau dynion. Gan hynny, megis y darfu i DDUW ei un, er mwyn bodloni *Moſes* yn gyfawnach na ddifethid moi bobl ef, ac na ynant cymaint a lleihau tan bwys eu caedi a'u caethiwed yn yr *Aipht*, ddangos ddo berth heb ei difa nai niweidio ynganol tân mawr: ac fel y gallont goelio n well eu bod, er mewn anialwch, etto an nodded Duw, efe a wnaeth i blant *Iſrael* fyned dan y Cwmmwl, o hyd y ffordd; el, pa bryd bynnag y digwydda iddynt iglo dim yn eu crediniaeth, y gallo *Moſes* 'r bobl ei nerthu, *Moſes* trwy goffa 'r berth, a 'r bobl trwy ddal ſulw ar y Cwmmwl: i'r un pwrpas y darfu CRIST rdeinio rhyw arwyddion gweledig yn ei

eiEglwys i wneuthur ei ffydd yn gyflawn, ac i ſiccrhau'r gwirionedd hwn i bob un ſy'n dyfod atto ef, y glanheir ef oddiwrth ei bechodau cyn ſiccred ai bod yn ſiccr ei fod yn gweled rhyw *ddwfr*, yr hwn a arferir yn gyffredinol i olchi: ac hefyd y cynhelir ac y porthir ef a digonedd o bob bendithion angenrheidiol, cyn ſiccred a chyn wiried, ai bod yn ſiccr ac yn wir iddo ei fod yn cymmeryd, yn derbyn, ac yn archwaethu'r bara a'r gwîn hwn, y rhai ydynt y moddion cyffredin o gynhaliaeth ein bywyd a'n nerth.

4. HEBLAW hyn, gan fod y Sacramentau wedi eu hamcanu, nid yn unig i'n perſwaedio ni yn fwy nerthol o wirionedd a hanfod pethau, eithr hefyd i'n gwneuthur ni yn fwy cydnabyddus, yn fwy cynnefin, ac yn fwy teimladwy o'u cyfiwr a'u natur; rhaid bod gan y ſacramentau hyn, yn eu natur eu hun, ryw gynheddfau hynod a'u gwnânt yn gymmwys i'r ſwydd ſacramentaidd hon. Y cyfryw gynheddfau ſydd gan y dwfr, yr hwn a ddewiſwyd mor haeddedigol iw arferu yn y bedydd ſanctaidd, oblegid y rhinwedd briodol ſydd ganddo i olchi ac i lanhau yr hyn ſydd fudr ac aflan, i adfywhau ac i ſirioli yr hyn a fo ſych, ac i

ffrwyth-

ffrwythloni'r anffrwythlon. Oblegid hyn y mae St *Awſtin* yn dywedyd yn eglur, oddigerth bod gan y ſacramentau ſanctaidd y fath gyttundeb a phethau ſanctaidd, y rhai y goſodwyd hwynt iw portreiadu, ni allaſant mor bod yn ſacramentau.

5. FELLY'R cymmun bendigedig a wneîr o gyfryw ddefnyddiau a allant yn ddiatreg amlygu i olwg a theimlad pob dyn y gwîr ſylfaen o'u ſwydd ſacramentaidd. Y ſwydd hon ſydd ddyblyg: y cyntaf i bortreiadu dioddefaint CRIST; a'r ail, i bortreiadu'r fendith a'r lleſhâad yr ydym yn ei dderbyn oddiwrth y dioddefaint hwnnw. Y cyntaf, meddaf, i bortreiadu'r dioddefaint hwnnw. Nis gallaſai'r bara na'r gwîn hwn mo'm cynnal, na'm llonni, oddigerth iddynt, yn eu llûn a'u ſylwedd, golli eu cyflwr a'u ſtât cyntaf; hynny yw, pettaſai'r naill heb ſyrthio erioed tan fîn y *crymman*, a phwys y ffŷſt, a dioddef y maen melin a'r tân; a'r llall tan y Bâch, y Traed, a Gwin-wrŷf y llafurwyr: ac nid yw Mab Duw yn fy achub i, ond trwy ddibriſio o hono ei hun mewn modd, a rhoi ymaith, tros dro, ei ogoniant cyntaf yn y nêf; a thrwy golli'r ail fywyd a gymmeraſai efe ym *Methlehem*: nid yw'r Jachawdwr bendigedig hwn yn

Jachawdwr

Jachawdwr trwy nerth yr holl wrthiau rhyfeddol a wnaeth efe trwy holl wlâd *Judæa*, na thrwy ddim a allasai efe ei ddioddef, cyhŷd ac y cadwai efe ei hun yn fyw pan hoelwyd ef wrth ei groes: megis nad yw'r cynhafiad goreu ddim etto yn fara, cyhŷd ac y safo'r ŷd yn y maes, na'r ŷd goreu etto yn fara cyhyd ac y cadwer ef ar y llawr-dyrnu, gan nad yw'r ŷd a'r cynhafiad ddim parodrwydd tu ac at ymborth dŷn. Yr JESU yn byw yn *Galilæa*, yr JESU yn athrawiaethu yn y deml, yr JESU yn gorchymmyn i'r tymheſtloedd a'r tonnau i oſtegu pan rodiodd ar hyd wyneb y dyfroedd, pettasai heb fyned dim pellach na hyn, nis gallasai mor bod yn fara'r bywyd; rhaid oedd iddo fod yn JESU yn dioddef, yn JESU croeſhoeliedig, yn JESU yn marw: y felin yn malu, a'r tan yn Hoſci a wnaethant o'r ŷd hwn i mi'r bara hwn; a dim llai na chroes, archollion, a marwolaeth, (och, fy ARGLWYDD! och, fy Nuw!) a allasant o'th fab anwylaf di wneuthur fy Jachawdwr.

6. Y BARA ſacramentaidd hwn, meddaf, yn ail, a ordeinir i bortreiadu'r ffrwyth a'r Lleſhâad yr ydym yn ei dderbyn wrth y bwrdd ſanctaidd gyſtadl ac ar bob achos arall oddiwrth ddioddefiadau CRIST, ſef, cyn-

ynhaliaeth a chynnydd bywyd. Megis, eb fara a gwîn, neu ryw beth cyfattebol ddynt, y mae'r cyrph pybŷraf allan yn wannychu ac yn darfod; felly, heb inwedd corph a gwaed CRIST, y mae'n haid i'r eneidiau ſancteiddiaf gûrio, allu, a marw. Corph yr Arglwydd, negis yr offrymmwyd ef i DDUW yn berth, ydyw'r gwirionedd a bortreiadir rwy'r Paſg; ac, megis wedi ei bortrei-du yn y Cymmun ſanctaidd, efe yw'r wirionedd a'r cyflawnder, o ba ûn yr edd y Manna yn gyffelybiaeth. Y naill, el pettae, yw'r hâd a'r dechreuad, o ba n ein genir; a'r llall, megis y bara, rwy ba ûn yr ŷm yn byw. Hynny yw, negis nad y bara a'r gwîn yw'r achos, ithr cynhaliaeth y bywyd naturiol a dar-ddodd oddiwrth achos arall: felly y nae'n Harglwydd JESU, trwy'r angen-heidiol a'r oeſtadol gyflawniad o nerth a grâs, wedi bortreiadu trwy'r bara a'r gwin yn cynnal, yn cynhyddu, ac yn goſod mlaen y *bywyd Yſprydol*, a'r hanfod ne-wydd abwrcaſodd efe i ni trwy ei groes.

7. CANYS JESU, yr ail *Adda*, tra 'r edd yn crogi ar y groes, wedi ymollwng an y trwm-gwſg hwnnw a wnaethai DUW ſyrthio arno, a roddodd yr hanfod a'r ywyd newydd hwn iw Eglwys allan o'r

yſtlys

yſtlys hwnnw a egorwyd yn ei ddioddef-
aint ef; a'r gwaed a'r dwfr, a ffrydiodd
allan oi friwiau ef, ydynt y gwîr achoſion
dechreuol o fywyd, o herwydd pa un y
gellir galw ei ddyweddi ef yr Eglwys yn
Efa, hynny yw, yn un a chanddi wîr
thragywyddol fywyd ynddi. Cyn idd
gael y dechreuad newydd yma oddiwrth
ddioddefaint ei Hiachawdwr, cwſg e
phriod-fab, yr oedd hi oi hen dechreuad
yn wîr ferch angeu, ac yn fam i'r cyfryw
blant, nad allodd bod iddynt hawl i ddim
gwell Etifeddiaeth na *melltith* a *digofaint*,
Eph. ii. 2. Yn ol rheol natur nid yw
ein bywyd ni ond ſymmudiad trîſt o
enedigaeth i farwolaeth, ac wrth reol
cyfiawnder Duw yn ſymmudiad mwy
trîſt, yn ail i ſymmudiad drwgweithred-
wyr tan farn marwolaeth, o garchar i'r
lle-dihenydd. Ond tra'r oeddym beunydd
yn myned ymlaen at y goſpedigaeth fwya
ofnadwy honno, Mab Duw a edrychodd
arnom, a doſturiodd wrthym, ac a gym-
merodd arno ei hun ein condemniad, a
than hwnnw a fa farw troſom. Fel hyn,
trwy farwolaeth a bodlondeb yr aberth
hwn, cyfiawnder a roes lê i'm gollyng-
dod. Duw'r Tâd a faddeuodd i mi fy
mhechod, a Duw'r Mab a ennillodd i mi
fy mywyd. Y grâs hwn yw'r pwrcas

cyntaf

cyntaf o waed CRIST, y llewyrchiad cyntaf o drugaredd Duw, a'r Anadl cyntaf o fywyd yſprydol yn ein ffroenau.

8. OND, och! mor fuan y buaſai 'r bywyd cyntaf hwn yn diflannu, pettaſai un arall heb ei ganlyn ai gynnal yn union! ac mor fuan y buaſai ſymmudiad y cyntaf yn myned yn ofer trwy 'n gwaith yn pechu drachefn! a chan nad wyfi ddim cynt yn cael fy ngeni mewn pechod, nad wyf yn marw ynddo, anhawſed gwaith, heb gymmorth ychwaneg yn y cyflwr llygredig hwn, a fuaſai cadw *Lazarus* farw rhag llygru? gan hynny, y mae Corph a gwaed CRIST, wedi aberthu unwaith ar y Groes (i gynnorthwyo'r cyntaf hwn) yn ennill ail fywyd, yr hwn ſy'n cadw pwy bynnag y mae'n ei achub rhag y farwolaeth drom hon mewn pechod; y mae 'n eu cynnu hwynt allan o'r pwll brwnt, lle y gorweddaſant, fel Anifeiliaid, heb yſtyr na theimlad o'u perigl neu eu Cywilydd; ac y mae'n bywhau'r prennau pwdr hynny i ddwyn gwell ffrwyth. Y mae'r bywyd cyntaf, gan ei fod yngwrthwyneb i *Gondemniad* a choſpedigaeth dragywyddol, yn perthyn yn briodol i'r gwaed a fodlonodd Cyfiawnder Duw, ac felly a dynnodd ymaith Goſpedigaeth: a'r ail fywyd, yr hwn ſydd yngwrthwyneb i'r Cwymp

Swrth i bechod a'r gorweddiad di-deimlad ynddo, a berthyn yn briodol i'r Dwfr, yr hwn, ar ol Cymmod a Maddeuant, ſydd yn golchi ac yn ſancteiddio'r pechadur. Y ddau fywyd yma ydynt y ffrydiau cyntaf a ddylifaſant oddiwrth Jesu Grist, pan wanwyd ei gorph ef; a'r ddau ydynt an-wahanol, fel yr oedd y Gwaed a'r dwfr, y rhai a gyd-ffrydiaſant allan o'i Yſtlys ef. Na fydded i neb, a gaffo ei hun yn lân oddiwrth fudreddi a brychau ei bechod, ofni Goſpedigaeth am danynt, *Myfi a gefais iawn iddo*, medd *Job*, pen. xxxiii. 24. canys ni ddaeth y *Dwfr* heb y Gwaed iw ganlyn. Ond bydded i bob dyn, a fo ai fryd i fod yn ddiogel oddiwrth y goſpedigaeth, a dynnir ymaith trwy waed, geiſio pellach diogelwch yn ei waith yn puro ei hun oddiwrth yr holl aflendid o bechod, yr hwn y mae'r dwfr iw olchi ymaith, canys ni ddaeth y *gwaed* heb *ddwfr*. Ni *ddaeth Criſt trwy waed yn unig ond trwy ddwfr a gwaed*, 1 Joan v. 6.

9. Heblaw, ac uwchben, y ddau fywyd yma, o ba rai y mae ûn yn ſefyll mewn *maddeuant*, a ſymmud ymaith y goſpedigaeth; a'r ail, mewn Sancteiddiad, ac yn ein bywhau ni oddiwrth weithredoedd meirwon, fel rhagllaw na

haeddem

haeddem mono megis o'r blaen. Y mae etto yn aros, heblaw hyn, y *trydydd fywyd*, yr hwn ſy'n ſefyll mewn *prynnedigaeth* cyflawn oddiwrth Farwolaeth a thrueni arall. Y bywyd hwn, o herwydd y ſiccr hawl a'r iawn, ſydd, ynghŷd a'r ddau arall, wedi bwrcaſu trwy'r un Aberth; ond am y wîr fwyniant a'r meddiant, y mae ynghadw i ni yn y Nêf, ac yno yn guddiedig *gyd a Chriſt yn Nuw*, Col. iii. 3. Hyd oni ddatcuddier ef, yr ydym yn ymddangos fel pedfaem feirwon, gan fod y ddau Dlŵs yma (ſef, y ddau fywyd uchod) yn gorwedd tan y Lenn dywyll o farwoldeb ddynol, ac megis wedi'rwymo i fynu ynddo, hyd oni ddêl (a CHRIST wedi wneuthur i ni yn wîr *brynnedigaeth* gyſtadl ac yn wîr *Gyfiawder* a gwîr *Sancteiddiad)* y trydydd bywyd i dorri'r Cwmmwl.

10. YR awron y mae'r Jachawdwr bendigedig, gan ei fod trwy'r Aberth o hono ei hun droſom yn Awdur ac yn Rhoddwr o'r tri Bywyd yma, yn dangos ei hun trwy'r Sacrament hwn i fod hefyd yn geidwad o honynt; ac y mae efe i'r perwyl yma yn goſod i fynu fwrdd wrth ei Allor, lle y mae efe'n ymrwymo ei hun yn y modd Sancteiddiaf i borthi ac i faethu'n Heneidiau a digonedd oeſtadol

oi Drugareddau hyd at ddydd yr Jechydwriaeth dragywyddol, cyn wiried ac y mae efe yn rhoddi a ninnau yn derbyn y defnyddiau hyn o fara a Gwîn, y rhai ydynt y moddion arferol o gynnal Cyrph marwol hyd ddiwedd y bywyd byrr hwn. *Y mae fy Nhâd yn gweithio hyd yn hyn, ac yr ydwyf innau yn gweithio*, Joan v. 17. Duw'r Tad yn wir a orphwyſodd oddiwrth waith y Creadigaeth; a Duw'r Mab yn yr un diwrnod a orphwyſodd oddiwrth ei waith o ddioddefaint: ond ni orphywys yr un o'r ddau hyd ddydd *Ymwared* oddiwrth y gwaith o gadwraeth yr hyn a ddarfu i'r Creadigaeth ei wneuthur, gyſtadl ac o'r hyn a ddarfu i'r Dioddefaint ei achub. Yn y Creadigaeth cyntaf y mae Dŷn, a Gwraig wedi gwneuthur o gnawd, ac fel pettae o archollion ei gwr, ac yno y ceir pren wedi' blannu i faentumio eu bywyd a'u nerth hwynt i'll dau. Yn yr ymwared o'r *Aipbt* y mae pobl wedi eu hachub trwy Aberth y Paſg; a rhag i gynnifer o Eneidiau, wedi eu hachub o'r *Aipbt*, ddeffygio a darfod am danynt yn y diffaethwch, yno y gwelir Angel yn eu harwain o hyd y ffordd ai *Oleuni*, ac yn eu cadw yn oeredd tan gyſgod ei Gwmmwl, ac yn eu porthi trwy eu holl Daith a math rhyfeddol o

fwyd.

ſwyd. Yr JESU, yn nechreuad a chynnydd Jechydwriaeth, yw'r gwirionedd a rag-ddangoſir trwy'r ddau gyffelybiaeth yma. Pan fu efe farw ar y groes, yno y cyflawnodd efe yr hyn a gyſgodwyd allan trwy Gwſg ac archoll *Adda*, a thrwy'r wyn Paſg: a phan y mae, o'r nef, yn porthi, a thywalltiad oeſtadol o fendith, yr Eneidiau hynny, y rhai a welodd efe yn dda eu prynnu trwy dywalltiad ei waed ei hun. Efe yw'r Gwirionedd o bob un o'r ddau, y Pren a'r Angel, a ordeinwyd, y naill i faentumio Dŷn, a'r llall i gadw *Iſrael*.

11. 'MAE CRIST yn perthyn i'r pedair gyffelybiaeth yma, megis y Corph yr hwn ſydd yn eu cyflawni; ac y mae'r Cymmun ſanctaidd, o'r tû arall, yn bwrw attynt hwythau, yn y cyfryw fodd ac y gall y naill Ddelw ymatteb i'r llall, a'r cwbl i ddatcan yr un gwrthrych. Ar dorriad y naill a thywalltiad y llall, o'r Defndyddiau Cyſſegredig hyn, y gwelwch yr hyn a ddioddefodd CRIST; megis ar archoll *Adda* a marwolaeth y Paſg, y gallaſai *Abel*, *Enoc*, ac *Iſrael*, o rann, weled yr hyn yr oedd efe i ddioddef: ac ar natur y Bara hwn yn peſgi y gwelwch yr hyn a welodd eraill ym mrhen y Bywyd; ac yn yr Angel yn glawio i lawr y

Manna, y gwelir yr hyn yr oedd efe iw roddi. Ond hyn yw mantais y Cymmun Sanctaidd uwchben yr holl hên Gyffelybiaethau: *Addo* ai Yſtlys egored, a'r holl Aberthau, a'u Gwaed, ni rag-fynegaſant ddim ond Dioddefaint CRIST yn unig; ni ddarfu Pren y Bywyd ai holl ffrwyth, na'r Angel ai holl Luniaeth, ond rhag-fynegi ei râs ymgeleddus ef: lle y mae'r Sacrament ei hun yn unig yn portreiadu ei ddioddefaint ef droſom, ai Gadwraeth o honom, ac heblaw y rhain, Dirgelwch mawr arall, trwy eu bod yn ymgynnal y naill wrth y llall. Yr hyn yr ydym ni yn ei gymmeryd ac yn ei fwyta a wnein o ſylwedd wedi ei dorri, ai falu, ai roddi mewn tân; hynny ſy'n dangos ei ddioddefaint ef, ſef, ſy Jachawdwr; ac yn y modd hynny yr arferwyd ef, fel y gallo drefnu i mi ymborth iachus; hynny ſy'n dangos y lleſhâad y mae efe yn ei roddi, ac yr wyf finneu yn ei dderbyn oddiwrth y dioddefaint ofnadwy hwn. Y mae'r Angylion yn mwynhau'r fath anfarwoldeb, ac yn gwiſgo'r fath Goronau, na choſtiaſant ddim i DDUW, ond y gwaith a gymmerodd iw rhoddi iddynt, y mae'r eiddom ni yn fwy gwerthfawr na hynny: nid yw'n Hetifeddiaeth ni ddim llai nec *Aceldama*, ſef, Meddiant wedi

vedi brynnu yn ddrûd iawn a gwaed Crist. Yn y Sacrament hwn y porreiadir, yn y naill fan, Angeu; yn y llall, fywyd; i mi 'mae'r bywyd, i'm iachawdwr yr oedd yr Angeu: ac, och! Iesu fendigedig! fy mywyd hwn, oddiwrth dy farwolaeth di y mae yn dyfod; i'r Jechydwriaeth, yr wyfi yn ei obeithio am dano, a bwrcefir a'r holl boen a'r Ing a ddarfu i ti eu dioddef.

12. YMA y mae *Melchiſedec* ac *Aaron* yn gwaſanaethu yn ufudd i JESU GRIST yr ei fwrdd, fel y darfu *Moſes* ac *Elias* ar y Mynydd: y ddau Arch-offeiriad mawr yma ydynt yn ſefyll i ragddangos yr hyn yr oedd CRIST ei hun i gyflawni. Canys yna y mae *Aaron* yr Offeiriad a gwaed, ac yma *Melchiſedec* a bara. Yna *Aaron* yn torri, yn tywallt, ac yn difetha; yma *Melchiſedec* yn porthi, ac yn bendithio; ie, y ddau ydynt un yng NGHRIST JESU. Yn gyntaf y mae CRIST yn ymddangos i aberthu (ar y Groes) megis y darfu *Aaron* wrth ei Allor ef, a Chig ac a gwaed; ac, megis yng nghyflwr a chyffelybiaeth *Melchiſedec* ai gnawd ei hun, ac ai waed ei hun. Y pryd hynny yr arferodd *Aaron* fyned i mewn unwaith bob blwyddyn i'r Cyſſegr; CRIST, unwaith am y cwbl, a eſgynnodd i'r Nêf, fel y

gallai oddiyno ein bendithio ni, *Act.* iii. 26. A'r fendith hon yw'r nerth, yr ymborth, a'r cyffur, y rhai a ddygodd *Melchiſedec* mewn Cyffelybiaeth; fel, trwy gymmorth y pethau dâ hyn, y gallai *Abraham* ai holl ddilynwyr, hynny yw, yr holl Griſtianogion cywir, yn llawen fyned rhagddynt yn eu ffordd, heb yn waethaf iw gwendid eu hunain, ac holl beryglon eu bywyd. Fel hyn y mae yma fendith ddyblyg, am yr hwn yr ydwyf yn aros; yr hyn a ddangoſod *Aaron* trwy ei waed, a'r hyn a ddangoſodd *Melchiſedec* trwy ei Fara.

RHAN IV.

Ynghylch y Cymmun, megis y mae, nid yn unig yn Bortreiad, eithr hefyd yn ûn o foddion Grâs.

1. HYD yn hyn yr yſtyriaſom y Cymmun ſanctaidd, yn gyntaf, fel y mae'n goffadwriaeth ſafadwy o'r dioddefaint hwnnw, ymha un y darfu Crist Jesu Offrymmu ei hun i Dduw megis *Aberth:* ac, yn ail, megis arwydd o'r grâs nerthol ymgeleddus hwnnw, (gwîr ffrwyth o'r Aberth hwnnw) trwy'r hwn

wn arwydd y mae efe beunydd yn of-
ymmu ei hun trosom tan yr ystyr o
yd; canys ei *gorph ef ſydd fwyd yn*
ir, ai waed ef ſydd ddiod yn wir, Joan
. 55. Ac yr wyf yn cydnabod yn ddi-
mwad, 'mae ar y ddwy ystyr yma y
ae'r defnydd cyffredinol a wneir o'r
ymmun bendigedig yn rhedeg; ac fod
ddwy gyffelybiaeth bennaf hyn, rhwng
Bara a Chorph CRIST, y rhai sy'n
wneuthur y Bara Cyssegredig, ac yn
un modd y gwîn Cyssegredig, yn gyf-
ddas i gael yr Enw o Sacrament, yn eu
wneuthur hefyd yn gyfaddas ddigonol
gael yr Anrhydedd, y mae'n ei gael oi
enwi yn *Gorph yn Arglwydd*. Beth byn-
ag, y mae'n ſiccra dim fod dyſgedig
Dadau yr Eglwys, pan alwant ef felly,
a hynny yn ol yr hyn a ddyſgodd CRIST
i hun iddynt ei wneuthur) yn gwneuthur
yn ddâ ei ymadrodd ef, a'r eiddynt
wythau, ar achos y gyffelybiaeth a'r
gyd-faſnach yma (yr hon ſydd fwya cyn-
aefin rhwng cyffelybiaethau a'r pethau a
gyffelybir) o gyfnewid eu henwau eu
unain.

2. FELLY i roddi i chwi eſampl yn y
gweledigaethau a'r Breuddwydion pro-
phwydawl, y rhai, gan mwyaf, nid oedd-
ynt ddim amgen na Sacramentau, allan

o law, o bethau a ddatcuddiwyd y pryd hynny gan DDUW, y rheini yn fwyaf gwaſtadol a ddywedir i fod y rhain. Y ſaith dywyſen o ŷd ydynt ſaith mhlynedd yn ol deongliad *Joſeph*, Gen. xli. 26. Y ſaith Seren ydynt ſaith Angel yn Natcuddiad, St *Joan* i. 20. Yr Hauwr yw Mab y Dyn, yr Efrau ydynt y rhai drygionus, y Cynhaiaf yw diwedd y Byd, yn nammegion JESU GRIST, *Matt.* xiii. 37, 38, 39. Os digwydda i ni, ar ddamwain, weled lluniau wedi eu tynnu o'r Babell, neu hardd-wiſgoedd *Aaron*, y mae'n arferol i ni ddywedyd, gan bwyntio at rai o'r lluniau hynny, hwn yw'r Gynteddfa oddiallan, hwn yw'r Cyſſegr, dyma'r Allor brês, ac yna y gwelwch y Ddalen o aur Coeth, nad oedd gyfreithlon i neb moi gwiſgo, oddigerth i Arch-Offeiriad *Iſrael*: felly wrth rodio Palâſau ac yſtafelloedd gwŷr mawrion, ni a ddywedwn, heb feddwl ſiarad yn anghyfaddas, ni a welſom y deuddeg Apoſtol, y deuddeg Patrieirch, Teml *Solomon*, Tref *Landain*, ac Eglwys St *Paul*, &c. hynny yw, lluniau y rhain oll. Yr awron, ſicr yw, na amcanwyd na gweledigaethau, na lluniau, erioed fwy i'r diben hwn o bortreiadu, nac yr amcanwyd y gwîr Sacramentau; gan hynny, y peth mwyaf an-

rheſymmol

eſymmol yn y bŷd a fyddai tybied,
d allai fod gan y lluniau cyſſegredig
n y Braint hwnnw a roddir i'r holl rai
aill (er mewn modd ddamweiniol a
yffredin) ſef, cael o honynt Enw'r peth
maent yn ei ddangos. Ie gan fod hyn
perthyn i'r Oen Pâſg, i'r Enwaediad,
Bedydd, canys y naill a elwir yn Bâſg,
llall yn Gyfammod, a'r trydydd yn
laddedigaeth CRIST, pa'm y mae yn
aid i'r Cymmun ſanctaidd fod hebddo?
eblaw hyn y mae'n fwy nac a aller ei
ddwl, ai amgyffred, nad eill CRIST,
hwn oedd a bara'r Pâſg etto yn ei
dwylaw, yr hwn a alwyd yn ſacra Cy-
udd gan yr *Iddewon*, yr hwn a fwytaodd
Tadau yn yr *Aipht* am ei fod yn gof-
dwriaeth o hono, nad eill CRIST, medd-
f, gael ei ddeall yn yr un modd; pan
w efe ei hun, y funud neſaf gwedi
ynny yn ei alw ef, ei Gorph.

3. ER nad yw'r geirlau hyn, *hwn yw*
Nghorph, yn ol y llythyren o honynt
n cyrhaeddyd dim pellach, fel y darfu
lawer o hên Ddyſcawdwyr yr Eglwys
ynegi yn bendant; ac megis y mae yn
haid i'r holl hên *Lyſtrau Gweddiau Cyf-*
fredin ei ddeall, pa bryd bynnag y gal-
want y Sacrament yn *Ddelw* neu *Gyffelyb-*
iaeth; canys gwîr a phriodol ddeſnydd

Llûniau

Llûniau ydyw dangos a phortreiadu pe-
thau i ni. Os digwydda fod ganddy-
y rhain ynddynt eu hunain, neu eu trol-
glwyddo hwynt i eraill, ar achos arall
mae, megis y maent yn *Leſtri* neu offe-
&c. yr hon ſwydd ſydd oddiallan i'r Sa-
cramentau; er hyn ei gŷd, meddaf,
mae pwrpas y Cymmun bendigedig,
mae Angen a duwiol ddeiſyfiad y Cym-
munwyr, a nerthol brawf mannau era-
o'r Yſgrythyr, yn gofyn llawer ychwane-
yn Sacrament y Cymmun na choffadwr-
iaeth neu Bortreiad.

4. Yn gyntaf, *Priodol ddiben a phur-
pas y Cymmun*, yr hwn yw ein gwneuthu-
ni yn gyfrannogion o GRIST, pan dder-
bynniom ac yr archwaethom y dirgelio-
ſanctaidd gyd a ffydd ac edifeirwch
mewn modd a gradd arall amgenach n-
phan fo'm a'r cyffelyb duedd-fryd y-
gwrando 'r Efengyl ſanctaidd. Yn ail
Angen a duwiol ddeiſyfiad y Cymmunwyr, y
rhai nid ydynt yn chwilied am Bortreiad
neu goffadwriaeth yn unig o GRÎST wedi
groeſhoelio, mwy nac a ddarfu i *Mair*
a'r gwragedd defoſionol eraill, chwilied
am amdoau neu foledau o gwmpas ei fedd
ef. Eiſieu ſydd arnaf, a cheiſio yr yd-
wyf fy Jachawdwr, a gwilied yr wyf am
bob odfa i ddyfod iw Sacrament ef i'r-m

pwrpas

pwrpas ac y darfu St *Petr* a St *Joan* redeg mor bryſſur at ei fedd ef, am fy mod yn gobeithio ei gael ef yno. Yn drydydd, ac yn ddiweddaf, *Cyflawn feddwl ac arwyddocâd mannau eraill o'r Tſgrythyr yn profi hyn*, ac yn gadel fod gan y Cymmun ſanctaidd lawer mwy Rhinwedd ynddo na phortreiadu yn unig. *Phiol y fendith yr hon a fendigwn, onid Cymmun gwaed Criſt ydyw? a'r Bara yr ydym yn ei dorri, onid Cymmun Corph Criſt ydyw?* 1 Cor. x. 16. Y gair hwn yr ydym yn ei ddeonglyd yn *Gymmun*, os cymmerir ef, fel y gwneir yn aml, yn Gyfranniad, trwy'r Sacrament ſanctaidd hwn ynte y cyfrennir i ni Gorph a gwaed CRIST: neu ymha yſtyr bynnag y cymmerir, etto y mae efe fyth yn ddirgelwch, ymha ûn, ryw ffordd neu gilydd, y caiff Criſtianogion cywir, nid Coffadwriaeth neu Bortreiad yn unig, eithr hefyd Gymmundeb a'r Corph a'r Gwaed hwnnw a bortreiadir ac a goffheir.

5. Y GWÎR rinwedd affeithiol, ſydd gan y Cymmun i roddi grâs a Bendith i'r teilwng Dderbynniwr Criſtianogol, a eglur ſynegir wrth y grym affeithiol ſydd ganddo yn y gwrthwyneb i ddwyn melldith a Diniſtr ar y derbynniwr halog anheilwng. *Pwy bynnag*, medd St *Paul*,

ſydd

ſydd yn bwyta'r bara hwn yn anheilwng, ſydd yn bwyta Damnedigaeth iddo ei hun. Yr awron, os tybia ûn y geill fod yn wir ddiniſtriol, pan gam-arferer ef; ond nid yn wirfendigedig ac iachuſol yn yr iawn arfer o hono; tybied fod y Bara hwn, yr ydym yn ei fwyta yn Gymmun *affeithiol* i beri Marwolaeth, a dim ond Sacramentaidd yn unig i ddangos, ac nid i ynnill, Jechydwriaeth, ni fyddai hyn yn ficcr ond tybied gymaint mor anheilwng o hono ac y byddai bwyta yn anheilwng o hono. Y mae St *Paul* yn goſod allan nôd y Cymmunwr anheilwng trwy ei fod heb *iawn farnu* Corph yr Arglwydd; ac y mae efe wrth hynny yn ei farnu ef yn euog o Gorph a gwaed Crist, hynny yw, pwy bynnag ſydd yn cynnyg amharchu'r Sacrament hwn, ſy'n taflu ei hun i'r un pechod a rheini, y rhai a amharchaſant Crist ei hun, ac fod yr Adyn di-gydwybod hwnnw yn myned llaw-yn-llaw gyd a *Suddas*, gyd a *Philat*, gyd a'r *Iddewon* a'r *Rhufeinwyr*, y rhai ai lladdaſant ef. Beth ynte a ellir ei dybied am yr Eneidiau da hynny, y rhai a ddyneſhânt at y Sacrament hwn gyd a ffydd, goſtyngeiddrwydd, a dyledus ofn, ond y dychwelant adref wedi eu cyſtawnhau gymaint, ac mor gyflawn o râs ar ol eu

derbynniad

erbynniad teilwng defosionol o hono, ac
r â'r lleill yn llwythog o ddamnedig-
eth ar ol eu Derbynniad anheilwng? ac
bydd Duw mor drugarog yn cyfrif y
eilwng a'r daionus ym mhlith y cyfiawn
negis *Mair*, *Joseph* a *Nicodemus*, ac ydyw
fe gyfiawn i gau i fynu Eneidiau'r an-
eilwng gyd a'r Pechaduriaid ai croes-
oeliasant ef ar bren crôg. Ac na etto
Duw, na bo i Gorph CRIST, yr hwn a
ddaeth i achub nid i ddiniſtrio, dywallt
r wasgar cymaint oi *Arogl* o *fywyd*, i
fywyd ac Jechydwriaeth Eneidiau defosi-
nol, ac ydyw efe oi *Arogl* o *farwolaeth*,
farwolaeth yr annuwiol, 2 *Cor.* ii. 16.
" Os gwnâ'r felldith amlhau i'r annuw-
" iol a'r drygionus, pa faint mwy rhag-
" orol y gwna'r fendith amlhau i'r cyf-
" iawn a'r duwiol?"

6. Y MODD, trwy ba ûn y rhoddir ac y cyfrennir hyn, ydyw'r Dirgelwch mawr anchwiliadwy hwnnw, a ddarfu'r Tadau ſanctaidd erioed ryfeddu oi blegid, a'r hwn, gan hynny, nid rhaid i ni mo'i egluro ac nid ydym chwaith yn cymmeryd arnom. Y Bugeiliaid fy'n tybied eu hunain yn ddedwydd o herwydd y *newydd* a ddygasai'r Angel iddynt, *Heddyw y ganwyd i chwi Geidwad*, Luc ii. 11. er na wyddant ddim oddiwrth y modd oi Ene-

digaeth

digaeth rhyfeddol ef: ac ni ddylai'r *Iſraeliaid* cywir dderbyn y Manna a dim llai diolch (megis nad ydynt yn ei dderbyn yn ddim llai ffrwythlon ac affeithiol) er na wyddant ddim, nac o ba ſylwedd, na thrwy ba foddion, y dichon i'r Nefoedd, yr awyr, neu'r Cymmylau, bob boreu, dywallt y bwyd dieithr rhyfeddol hwn o amgylch eu gwerſyll: ni ddylwn ddim rhyfeddu, os yw ffyrdd yr Arglwydd yn ddieithrol i mi yn ei wrthiau rhyfeddol, gan eu bod felly, yn aml iawn hefyd, yn ei weithredoedd cyffredinaf. Ac os na fedrodd *Dafydd*, er ei fod yn Brophwyd, feddwl ar y rinwedd naturiol honno ſydd yn gwneuthur yr Eſcyrn a'r Gwythennau bob dydd allan o'r Hâd hwnnw, yr hwn i'r golwg, nid yw ddim tebyg i'r rhannau hyn o Gorph Dŷn, heb ddolefain allan, *mor ofnadwy a rhyfeddol i'm gwnaethpwyd!* Pſalm. cxxxix. 14. beth ydwyfi i gymmeryd arnaf ddeall yn eglur y doethineb cuddiedig ac anchwiliadwy hwnnw, trwy ba ûn y gwelodd Duw yn dda wneuthur allan o ddwfr, neu win, neu fara (defnyddiau egwan a ſalw yn ddynt eu hunain) yn foddion nerthol i faethu Eneidiau Dynion, ac i beri iddynt Jechydwriaeth?

7. Gwir

7. GWÎR yw, yn ddiammeu, y geill ara, Gwîn, a Dwfr, heb fawr drafferth eu cylch, gael eu derchafu cyn uched i fod yn Sacrament i *arwyddoccau*, gan d y gwaith o *arwyddoccau* yn ſefyll yn nig ar yr ordinhâd a'r Gorchymmyn; to rhaid i'r Ordinhâd hwn, y cyſryw a eill wneuthur Sacrament, darddu ddiwrth ddechreuad *Dwyſol* ac Holl-luog; Dwyfol, meddaf, i roddi nôd yſſegredig; ac Holl-alluog hefyd, iw yſiawnhau ai faentumio. I roddi i hwi Eſampl o hyn: ar ol y Diluw nid edd yn-gallu nac awdurdod Dyn, nac ngel, wneuthur o'r Enfys ddirgelwch arwyddoccau Cadwraeth y Bŷd rhag oddi eilwaith; a phed fuaſai Dynion neu ngylion yn cymmeryd y fath rwyſg, id oedd yn-gallu yr ûn o honynt ei irio; hynny yw, ei wneuthur yn dyſti-laeth ſafadwy di-ſiomedig, na ddar-yddid am y Bŷd fyth ond hynny trwy *Ddwfr*. Felly yn yr Eglwys, nid oedd gan yr Apoſtolion na'r Eſgobion ddim nwy iawn ac awdurdod i roddi i'r Dwfr n y Bedydd, neu i'r Bara a'r Gwîn yn Cymmun Sanctaidd, y Swydd Sacra-mentaidd, nac oedd ganddynt o allu i wneuthur yn dda'r ſwydd honno, trwy roddi hefyd y Bendithion a addewir trwy-

ddi.

ddi. Ac i'r perwyl hwn yn enwedig y mae i ni ddeall y rhan fwyaf o Ymadroddion y Dyſcawdwyr Sanctaidd yn rhyfeddu, pan ſafant ambell waith yn ſynn wrth weled, ac yſtyried, anfeidrol allu Duw, naill ai yn yr Ordinhâd, neu'r Defnydd o'r Dirgelion hyn; gan mae Duw ei hun a ddichon dderchafu Dwfr, neu waed, neu fara, neu ryw beth arall i'r Urdd o Sacrament: ond eu cod hwynt, râdd etto, yn uwch, hynny yw, i'r Urddas uchel-freiniol o fod yn wir *ſoddion* ac Arfau i ddwyn arnom y rhadau a'r Bendithion hynny, y rhai trwy eu hordinhâd briodol, y maent yn eu portreiadu; yno y mae Bŷs Duw yn wîr, ac yno y mae achos cymhwyſach i ryfeddu arno gan ddynion, nac iw ddeall ai ddirnad ganddynt.

8. Yma, gan hynny, yr wy'n dyfod at Allor Duw gyd a chrediniaeth gyflawn, fod y geiriau hyn, *Hwn yw ſy Ngborph*, yn addaw i mi ryw beth ychwaneg ac amgenach na Chyffelybiaeth; nad portreiad o Liwiau oddiallan, heb ſylwedd, yw'r Wlêdd Sanctaidd hon; ac nad yw chwaith yn Ddirgelwch mor beryglus, nad all yr arfer grefyddol o hono roddi i mi, o'r hyn lleiaf, gymaint a chynnifer o fendithion, ac a wnâ'r gam-

arfer

er halog o hono dywallt o Blâau a
lldithion ar y Cam-arferwr drwg.
d pa fodd y mae'r Dirgelion hyn o'm
gid i yn dyfod yn Arfau goruwch-
uriol o'r cyfryw fendithion, digon yw
ni ryfeddu arno. *Un peth a wnn i,*
r y dŷn dall, ar ol derbyn o hono ei
wg, *Joan* ix. 25.) *efe a ofodod glai ar*
llygaid, ac yr wyfi yn gweled: efe a
ndithiodd ac a roddodd i mi'r Bara
yn, ac y mae fy Enaid yn derbyn Cyf-
r. Yr wy'n Credu nad oes gan y Clai
im ynddo ei hun a allai wneuthur y
h ryfeddod, na welodd *Ifrael* erioed
oi gyffelyb. Ac myfi a wnn cymaint
n y Bara hwn, nad yw yn fath Dlws
rthfawr, a allo gymwys, yn ei fylwedd
hûn, neu o hono ei hun roddi i eraill,
s, Sancteiddrwydd, ac Jechydwriaeth,
hyn yw Sugn a fylwedd Corph CRIST.
lyn yn unig a wnn i yn gwbldda, mae
fer Duw yn waftadol ydyw gwneuthur
ryfeddodau mwyaf trwy brefennoldeb
r nad trwy rinwedd) y moddion falaf:
rth darawiad Gwialen efe a rannodd y
Môr-côch yn ddwy ran: wrth fain udcyrn,
fe a ddymchwelodd i'r llawr furiau
ewion a chedyrn: wrth ryw ychydig
lchiadau yn yr *Jorddonen*, efe a iacha-
dd *Naaman* o Blâ, na aller, wrth natur-
iaeth,

iaeth, moi iachau: a chyn gynted a
aethai heibio ond Cyſgod, neu i
Olew ddiferu, neu ryw ddillad gw
Cyffwrdd, rhinwedd yn y man a
allan, nid o'r gwiail, neu'r udcyrn,
cyſcod, neu'r olew, neu'r dillad,
oddiwrtho ef ei hun. *Rhinwedd*,
efe, *a aeth allan o honoſi*: ac fel hyn
iachaodd efe'r clwyfus, *&c.* Gan d
ſod iddo ef, gan hynny, ordeinio a ch
meryd iddo ef ei hun Sacramentau'r E
gyl, megis portreiad oi Gorph ai W
Cyffegredig, paham nad eill efe g
meryd yr un ffordd i roi ei Drugare
wrth yr arfer oi Ordinhadau? a pha
nad eill ei Gorph ef dywallt ffrydau
fywyd, gyſtadl pan fo'm ni yn derby
Sacramentau, a phan oedd eraill yn c
fwrdd ai Wiſgoedd ef, y rhai yn ſo
oedd ganddynt lai Braint?

9. Tan y gyfraith, *Debeulaw'r Arglwy*
a dderchafwyd, a Debeulaw'r Arglwydd
wnaeth y Grymmuſder hynny (*Pſ.* cviii. 16
pan egorodd efe Lwybr têg i *Iſrael* trwy
môr-côch, a phan ffrydiodd afonydd all
o graig *Horeb* iw llonni hwynt. I
awron, tan yr Efengyl, Crîst ei h
ai Gorph ai Waed wedi eu hoffrym
unwaith i Dduw ar y Groes, ac fy
gwedi yn ſefyll oi flaen yn y Nef meg

Ond

wedi lâdd (*Datc.* v. 6.) ydyw'r hwn
l yn oeſtadol yn llenwi ei Eglwys a'r
n a'r pêr Aroglau oi Aberth; pan,
l derbyn o honynt y Sacrament ſanc-
d, ſo ei Gymmunwyr ffyddlawn ef
dychwelyd adref yn gyſoethoccach,
y daethant, o flaenffrwyth Jechyd-
aeth. Canys ni ddichon dwfr y Bed-
l, na'r Bara a'r Gwîn Cyſſegredig,
euthur dim mwy tu ag atto, nâc a
dd gwialen *Moſes*, neu olew'r Apo-
lion, yr hyn nid oedd ddim ond eu
mmudiad neu eu preſennoldeb. Ond
o, gan fod Ordinhâd a gweithrediad
IST mor gyfagos yn canlyn y Sym-
diadau ſyml, a'r preſennoldeb o'r
hau gwael iſel hyn, ac iddo weled yn
gyfrif iddynt hwy y fendith, y mae
ei hun yn ei weithredu, 1 *Petr* iii. 21.
! fy Nuw! pa bryd bynnag y bo i ti
i i mi fyned ac ymolchi yn yr *Jor-*
nen, neu gael fy medyddio a golchi
naith fy mhechod, ni amheuaf ddim
wy o gael o honof fy nglanhau, naill
oddiwrth fy ngwahanglwyf neu 'mhe-
odau, na phe bawn wedi fy nhrochi
dy waed ti: a pha bryd bynnag y
veli yn dda ddywedyd wrthyf, dôs,
mmer, a bwyta o'r Bara hwn a fen-
thiais i; a'r hwn a ddarfu i mi yn awr

ei

ei roddi i ti, ni amheuaf fwy o g
mhorthi a gwîr Fara'r Bywyd n
bawn yn bwyta dy gnawd ti.

10. Yn y modd hyn y mae'r C
munwyr ffyddlawn mor affeithiol
bwyta o Gorph Jesu Grist trwy d
byn ei nerth ai rinwedd, ac y m
Seintiau yn bwyta o Bren y bywyd (D
xxii. 2.) oblegid iddynt fwyta ffrwy
Pren hwnnw; neu mor affeithiol
darfu *Iſrael* yfed o'r Graig (1 *Cor.* x.
am iddynt yfed o'r ffrwd a ddyli
allan o hono. Unwaith y gallodd
Jachawdwr ddywedyd ddarfod i ryw
gyffwrdd ac ef, er na chyffyrddodd
ai wiſgoedd, oblegid ddarfod i wraig d
ei ffydd, ai llaw, mor agos, ac i ga
hiachau gan y Cynneſrwydd a'r rhinw
nefol a ddeilliodd y prŷd hynny o
wrtho ef, mor agos a phed fuaſai w
cyffwrdd ai gnawd ef. Y Gwîr yw h
yr ŷm mewn gwirionedd yn cyffwr
yn cael, neu yn mwynhau y peth ei h
pan fo'm o fewn cyrhaedd i gael y r
wedd o hono. Felly y gwiſgwyd
Eglwys a'r Haul (*Datc.* iii. 1.) am
ganddi oi hamgylch oll y diſcleirdeb
hono: a thrwy'r Bedydd ſanctaidd
ddywedir ein bod ni yn gwiſgo am dan
Grîst (*Galat.* iii. 27.) am ein bod
pr

d hynny, yn derbyn y Gŷnau oi Gyf-
nder ef, a'r hyn a gyſgodwyd trwy'r
g honno a wnaeth Duw o grwyn (yr
n ſy'n arwyddoccau marwolaeth yr
berthau) i guddio noethni *Adda*.

II. YR Aberth hwn gwedi offrymmu
ghyflawnder yr Amſeroedd, ac yng-
nol bŷd Cyfanneddol, yr hwn yn bri-
ol yw Teml fawr CRIST, ac oddiyno
ddygpwyd i fynu i'r Nêf, yr hwn yn
odol yw ei Gyflegr ef, oddiyno y
n gwaſgaru Jechydwriaeth o'n ham-
lch, fel y darfu'r Aberth-lloſg waſgaru
Fŵg, yr Allor-aur ei phêr-aroglau,
Canhwyll-bren-aur ei oleuni. Ac
lly y mae gan Gorph a gwaed CRIST,
nhob man, yn enwedig yn y Cymmun
nctaidd, wîr Breſennoldeb. Pan of-
ymmodd efe ei hun ar y ddaiar, der-
afodd y tarth oi *Fawn* ef i fynu, ac a
wyllodd yr Haul ei hun. A thrwy
wygo'r Llenn fawr, efe a ddangoſodd
eglur ddarfod iddo egoryd ffordd i'r
ef. Yr awron gan ei fod wedi myned
Nef, oddiyno y mae efe yn danfon ar
ddaiar y rhadau ſy'n tarddu yn oeſtadol
ddiwrth ei Aberth tragywyddol, ac
ddiwrth yr eiriolaeth waſtadol ſydd yn
ganlyn: ac felly ofer yw dywedyd,
wy a eſgyn i'r nêf? gan fod y Corph
Cyflegredig

Cyſſegredig hwn o eiddo'r JESU, heb
eſgyn na deſgyn, yn llenwi ai gymm
ai fendith y Cyrrau eithaf o'r Deml h
ſef, y Bŷd.

12. Y MAE CRIST oddiuchod
gweled yn dda dywailt, weithiau m
weithiau llai, o'r bendithion hyn i'r C
teddfau iſod hyn o'r Bobl, naill ai
ol yr amryw raddau o'u ffydd, neu yn
yr amryw ffyrdd ac amſeroedd a ord
iodd efe iddynt i breſentio eu hunain
nes atto ef. Nid yw'r holl addolwyr
dyfod atto ef a'r un ffydd ai gilydd;
nid oes gan bob ffordd ac amſeroedd
yn brofedig ac yn bwyntiedig ganddo
chwaith mo'r ûn neu gyſtadl fraint;
y mae ei ordeinhadau ef yn ei Eglw
gyſtadl ai Sêr yn y Nêf, yn rhagori
eu gilydd mewn gogoniant. Ympry
Gweddi, gwrando'r gair, pob Gwaſa
aeth cyhoedd a dirgel, a'r holl gyffely
dduwiol-ſwyddau, ydynt oll yn leſtri
iawn i dynnu dwfr allan o'r ffynnon h
o Jechydwriaeth: ond etto nid ydynt o
yn gyd-râdd. Rhaid i'r Cymmun be
digaid ragori cymaint mewn Bendithio
pan iawn arferir, ac ydyw efe yn rhago
mewn perigl o felldith, pan gam-arfer
ef. *Ymbôb man*, medd Duw, *lle y rhodd
wyf goffadwriaeth o'm Henw, y deuaf atta
a*

i'th fendithiaf, (Exod. xx. 24.) Ond
n y mannau, a'r Ordinhadau hynny, a
darfu iddo ef eu gosod i fynu, mewn
nodd enwedigol, i roddi Coffadwriaeth
i Ddioddefaint, ac i adnewyddu'r aberth
'i Gorph, efe yn ſiccr a ddaw gyd a'r
ath lawndra o fendithion ac fy'n canlyn
Corph cyſſegredig hwn, yr hwn yw'r
Breſwylfa briodol o fendithion; y Bara,
r ydym ni yn ei dorri, yw'r Cymmun-
eb oi Gorph ef, yn yr ûn modd ac yr
edd bwyta'r bara croyw (allan o *Gaer-
ſalem*) yn Gymmun i'r Paſg, yr hwn oedd
gyffelybiaeth o GRIST wedi groeſhoel-
o. *Criſt ein Paſg ni* (medd yr Apoſtol)
r *hwn a aberthwyd troſom*; *gan hynny*,
adwn yr wyl, *&c.* 1 Cor. v. 7.

13. EIN heinioes ni yn gyffredinol yw
amſer yr Wyl hon: a'r Cymmun ben-
digedig yw Bara a Gwîn y Wlêdd. Gan
hynny, megis yr oedd y rheini o *Iſrael*,
y rhai, am ryw rwyſtr cyfreithlawn, nas
gallaſant fwyta'r Oen yn *Ghaerſalem*, ac
nis meiddiaſant, o herwydd y Gyfraith,
ei lâdd ai fwyta gartref, yn cael er hynny
ei gŷd y lleſhâad o'r Paſg, a'r pethau
cyſſegredig eraill o'r Deml, trwy rinwedd
y gwleddoedd, neilltuol, y rhai oeddynt
gyfreithlon iddynt eu cadw gyd a Bara
croyw a dail ſurion yn y Wlâd. Y

mae'n gwaith ni yn bwyta'r Cymmun bendigedig yn ddiolchgar yr awron yn cadw lle'r ſwydd hon, ac yn ynniil i'r Cymmunwyr teilwng, hyd y mae'n perthyn iw hiechydwriaeth hwynt, y rhinwedd o Aberth CRIST, mewn modd meddelaeth ac iachuſol, a phed fuaſent yn breſennol wrth ei Allor ef ar awr ei Ddioddefaint. *Yr Arglwydd a'th fendithio allan oi Eiſteddle ſanctaidd.* Canys y pryd hynny Trugaredd yr Arglwydd ydoedd tu ag at ei bobl gyntaf (megis yn ſiccr nid yw ei Drugaredd ef ddim llai tu ag at ei ail Bobl) i waſgaru yn rhinweddol gymmod a nerth ei Bethau ſanctaidd allan oi Lŷs ef iw eu Gwerſyll hwynt, ac iw bendithio hwynt a'r holl radau, ac i roddi iddynt yr holl Jawn a alleſid ei roddi iddynt; bai pa rai nid ydyw, os nas gallaſant na bwyta'r Paſg yn agos i'r Deml, neu weini yn ufudd i GRIST wrth ei Groes.

14. DYMMA fel y mae'r Dirgelwch mawr a Sanctaidd hwn yn eſtyn ac yn cyfrannu Marwolaeth yr Arglwydd, yn gyſtadl megis yn offrymmu ei hun i DDUW, ac megis yn rhoi ei hun i ddynion. Yn gyntaf, megis yr offrymmodd efe ei hun i DDUW, y mae yn fy nerbyn i mewn i'r Corph dirgel hwnnw, a gyfrifir

ſir megis yn farw gyd a CHRIST, ac iw ymdeithas hwy, ai Braint, ai Cymundeb, tros pa rai y gwelodd efe yn da farw: y mae'n fy ngoſod i ym hhlith y meini gwerthfawr yn Ephod *Aaron*, Ecſod. xxviii. yn dynn wrth dwyfron, ac hyd yn oed ar yſgwydd-i'r Arch-offeiriad tragywyddol hwnnw, a y mae efe'n offrymmu ei hun, ac yn irioli tros ei *Iſrael* yſprydol; a thrwy'r noddion hyn, y mae'n troſglwyddo i ni'r Cymmundeb oi ddioddefaint ef, *Phil.* iii. 10. Allan o ba ûn y deillia yn ccr-ddiau gymmundeb arall yn ei hoſl adau ef ai Ogoniant. Yn ail, megis y mae'n offrymmu ei hun i ddynion; Sarament ſanctaidd y Cymmun, ar ol yr Aberth am bechod, ydyw'r wîr Wyl a'r Aberth o offrymmau Hêdd, a'r *Bwrdd* oſodwyd o bwrpas i dderbyn y Trugreddau hynny a ddanfonir i lawr oddiwrth yr *Allor*. *Cymmerwch a bwytewch, hwn yw fy nghorph, yr hwn a dorrwydd troſoch, ac hwn yw fy ngwaed yr hwn a dywalltwyd troſoch.*

15. YMA, gan hynny, yr wyf yn aros yn ufudd wrth fwrdd yr Arglwydd, yr hwn ſy'n dangos i mi'r peth a ddarfu'r Apoſtol mawr hwnnw, a gawſai'r Nef megis yn yſgol iddo, ei chwennych yn

ſwyaf ei weled ai ddyſgu, ac yn cynny
i mi'r ddawn werthfawroccaf a ddicho
ûn Sanct ei dderbyn ar y ddaiar, ſef, y
Arglwydd Jeſu wedi Groeſhoelio.

RHAN V.

Am y Cymmun bendigedig, megis y mae'n Wyſtl o'r Dedwyddwch a'r Gogoniant i ddyfod.

1. 'MAE'r Cymmun bendigedig yn egoryd i ni'r fath Dryſor o fendithion ar y ddeu-tu ſy'n golygu tu ag at yr Amſer a ddarfu, neu'r preſennol (ſel yr yſtyriais o) ac y gall yn ddâ iawn ddal ar waith holl Lygeid y Cerubiaid i edrych ar y Dirgelion, ac hefyd holl ddwylaw'r *Iſraeliaid* lluoſog i gaſglu i fynu'r holl Manna, y mae efe yn ei gynnwys: y mae ganddo etto ûn tû neu olwg arall yn ychwaneg, yr hwn ſy'n rhagori ar y ddau gyntaf, cymaint ac y mae'r Bendithion i ddyfod yn rhagori ar y rhai preſennol, a chymaint ac y mae'r gogoniant yr ydym ni yn ei obeithio am dano yn rhagori ar y râdd fechan o râs ſydd gennym. Y mae'r cymmun bendigedig

endigedig, yr hwn ſy'n offeryn pennol wedi ordeinio gan GRIST i gyflwyno newydd (oblegid ein arfer ni o hono) ddioddefaint ef, ac i droſglwyddo i innau y rhadau preſennol ſy'n tarddu llan o'r Dioddefaint hwn, (y mae'r Cymhun bendigedig meddaf) gyd a hyn yn ccrhau i ni hefyd yr *holl ddedwyddwch i dyfod*, o ba ûn y mae'r Rhadau a dderynnir yn *Ernes* gobeithiol, ac y mae'r acrament hwn, tan y drydedd Yſtyraeth yma o hono, yn *Wyſtl* ſiccr.

2. YR awron, er bod yr hyn a roddir mmlaen-llaw megis *Ernes*, a'r hyn yr mrwymir iddo megis trwy *Wyſtl*, yn dyfod i'r un peth, oblegid y grym a'r hwymedigaeth o honynt, etto y mae hagoriaeth mawr rhyngddynt lawer gwaith, yn gyſtadl yn y defnydd a wneler o honynt, ac yn y prîs ſydd ynddynt eu hunain. O herwydd paham y mae'n digwydd y gellir gadel *Ernes* yn y cyfrif megis rhan o'r taledigaeth a addewir, lle y mae *gwyſtlon* yn cael eu galw a'u cymmeryd yn ol, fel y Cawſai *sêl* a *ffonn Judah* unwaith, (*Gen.* xxxviii.) Fel hyn, y Zêl, y Cariad, a'r graddau eraill o ſanctеiddrwydd y mae Duw yn eu rhoddi wrth arfer y Sacramentau ſanctеiddlan, a barhânt o hŷd yn eiddom ni yn y Nef-

oedd, ac yno a wnânt rañ o'n dedwyddwch, pan y tynner ymaith y Sacrament au eu hunain, ac ni ymddangoſant fwy yn y Nêf nac a ddarfu i'r golofn-gwmmwl yngwlâd *Canaan*, neu fwy nac y mae Cyſgodion y Gyfraith yr awron tan amſer yr Efengyl. Ni bydd, yn ſicr, arnom ddim eiſieu y lluniau Cyſſegredig hyn o GRÎST, pan welem ef wyneb yn wyneb, ac o'r *grwyſtlon* hyn i'n ſiccrhau ni o'r gogoniant hwnnw a ddatcuddier, pan fyddem mewn gwîr feddiant o hono. Ond hyd y Dydd hwnnw, y mae'r deſnydd hwn, yn drydydd, yn perthyn i'r Cymmun ſanctaidd, ſef, i fod yn *Wyſtl* ac yn ſiccrwydd oddiwrth yr Arglwydd, y corona efe ni yn ei amſer da ei hun a dedwyddwch tragywyddol.

3. FE ddarfu'n Jachawdwr fynegi cymaint a hynny, pan ddywedodd wrth ei Ddiſcyblion, (a'r gwppan ſanctaidd yn ei law) nad yfai efe *ddim o'r ffrwyth hwnnw, hyd onid yfai efe ef yn newydd yn Nheyrnas ei Dâd*, Luc xxii. 18. Mewn gwîr fwriad Duw, y mae ei Eglwys ef a'r nêf yn cyd-fyned gyd au gilydd; gan fod y naill yn ffordd tydd yn arwain i'r llall, fel y llê ſanctaidd i'r llê ſancteiddiolaf yn y Deml: ac y mae'r *llê ſanctaidd* a'r *lle ſancteiddiolaf* yn dyfod i'r un

un peth *yma* yr hwn y mae CRIST yn ei alw yn *Deyrnas* DDUW. Na fydded i rheini a wahoddwyd i fwyta ac i yfed wrth fwrdd *Abraham*, ymdrafferthu ynghylch y fan lle y portha ein Jachawdwr bendigedig hwynt. Canys er nad yw ond y fan iſod hon o'r Deyrnas, lle y bu'r Patriarch hwn yn ffyddlawn, etto y mae'n ſiccrwydd digonol y gwnâ efe, mewn amſer, iddynt hefyd eiſtedd yn y Llŷs arall hwnnw, lle y mae'r gŵr ſanctaidd hwn yr awron yn *ddedwydd*: a phwy bynnag a dderbyn'wyd i *Giniaw*'r Oen a laddwyd, (*Matt.* xxii. 4.) oni bydd y bai arnynt eu hunain, ni ddylent mor ammeu y cânt eu derbyn i Swpper-priodas yr ûn Oen, yr hwn a fu farw unwaith, ond ſydd yr awron yn byw yn dragywydd, *Luc* xiv. 16. *Datc.* xix. 9.

4. Y MAE'R ddwy wledd yma yn cydganlyn ac yn gyd-blethedig a'u gilydd mewn modd ryfeddol; at hynny y darfu ein Jachawdwr yn fwynaidd iawn fwrw amnaid, pan ofynnodd iw ddiſcyblion, y rhai a ymchwedleuaſant ynghylch eiſtedd ar ei ddeheulaw yn ei Ogoniant, par ûn a allant fyned iddo trwy'r un *Bedydd*, a'r un *Cwppan* ac ef ei hun: (*Marc* x. 37, 38.) A chymaint a hyn y mae Sanct *Paul* yn ei feddwl, pan ddy-

wedodd, ein bod ni, trwy'r Cymmun
ſanctaidd, yn dangos marwolaeth yr Ar-
glwydd, *hyd oni ddelo*, (1 *Cor.* xi. 26)
gan fwrw a pharhau'r dirgelwch maw
hwn hyd at ail ddyfodiad CRIST, nid yn
unig megis at y diwedd, lle y bydd rai
iddo ddibennu; eithr, yn bennaf, megis
at y pwrpas y mae efe yn golygu attq
ac at y dedwyddwch hwnnw wrth ei ddy-
fodiad ef, lle y mae'n rhaid iddo gael
gyflawniad. Ac yn wîr, gan nad yw'
Jachawdwr, prin ûn amſer, yn ſôn a
ei farwolaeth ond megis blaenor a pha-
rattoad iw adgyfodiad, ac yn aml yn cy-
ſylltu mewn ûn ymadrodd, ac yn datgan,
megis ac ûn Anadl, ei Groeſhoeliad a
Ogoniant, (*Marc* x. 34.) y mae'n adda
iawn, oni wahanwn y ddau beth hyn, a
ddarfu CRIST yn gyffredinol eu cyd-gyſ-
ſylltu, i'r Sacrament, a ddarfu iddo ef
ei ordeinio o bwrpas i bortreiadu'r naill
yr hwn a gyflawnwyd eiſoes, fwrw golwg
o'r hyn lleiaf at y llall, yr hwn yr ydym
ni yn ei ddiſgwyl.

5. JE, rhaid iddo dueddu ac arwain
hefyd y ffordd honno ar achos arall mwy
angenrheidiol a nerthol. Ein Jachawdwr
a roes i ni dri math ar fywyd drwy ei
ddioddefaint, ac y mae'n addaw ein
maethu ni a'n maentumio ymhob ûn o
honynt,

honynt trwy'r Arwyddion hyn o fara a Gwîn, y rhai a wnaeth efe yn Sacrament ddo. Y mae'r Sacrament hwn yn rhoddi ymmorth a chynnydd i ddau, fel y dywedpwyd o'r blaen; ond y mae ûn arall mwy yn drydydd, yr hwn ni ddaethom ni atto etto: hwn yw'r bywyd tragywyddol hwnnw, i ba ûn y mae'r bŷd preſennol yn lê rhy wael, a ninnau'n huſain etto yn Leſtri rhy wael. Hyd oni chaffom, trwy râs, a'n hegnion o ddduwioldeb, fwy perffeithrwydd; ac hyd oni chynhyddom i'r maintioli hwnnw, a allai ein gwneuthur yn gymmwys o nerth i gynnal y pwys hwnnw o dragywyddol Ogoniant; nid ydym nac o oedran i fwynhau 'n hetifeddiaeth, nac o allu chwaith i drîn y fath ſtât fawr, ac i wiſgo'r hardd-wiſgoedd anrhydeddus hynny, ſydd yn ei ganlyn; ac am hynny, y mae'n guddiedig oddiwrthym gyd a CHRIST yn Nuw, ac fel pettae yng nghadw gyd ag ef. *Mi a wn i bwy y credais, ac y mae yn ddiammeu gennyf ei ſod yn abl i gadw yr hyn a roddais atto erbyn y dydd hynny,* (2 Tim. i. 12.) hynny yw, trwy ffydd yr ydym yn ymddiried y Dryſor fawr hon yn nwylaw DUW iw chadw; ac y mae DUW, trwy'r Sacrament hwn, yn ein ſicrhau, ac yn ymrwymo ei hun, y

ceidw efe ef yn ddiogel i ni, ac y rhŷdd i ni yn ei ôl, pan fo'm yn addas iddo.

6. Y TRYDYDD defnydd hwn yw Coron a chyflawniad y ddau arall: ac er bod gan y Sacrament hwn dri wyneb yn edrych tair amryw ffordd, ſef, at yr hyn a ddarfu, yr hyn ſydd breſennol, a'r hyn ſydd i ddyfod; etto diwedd pennaf pob ûn o'r rhain ydyw'r ûn a'r unrhyw Ogoniant. Y deunydd cyntaf o'r Sacrament hwn ydyw goſod allan o newydd y dioddefiadau mawr a ſanctaidd hynny, a ddarfu pwrcaſu i ni'r hawl i ddedwyddwch tragywyddol: yr ail ydyw portreiadu'r cynheddfau dedwyddol o honynt, ac i roddi i ni'r cymmorth o'r holl radau angenrheidiol (gwîr ffrwythau o'r Dioddefiadau hyn) i'n cymhwyſo ni iddo; a'r trydydd ydyw, ein ſiccrhau ni pan ein gwneler yn gymmwys-addas, trwy'r rhadau hyn, y gwnâ DDUW ai GRIST yn ffyddlon roi i fynu i ni'r pwrcas ei hun, hynny yw, Dedwyddwch tragywyddol: a'r tair rhan yma, wedi eu rhoi ynghŷd, ſy'n gwneuthur i fynu wîr a phriodol feddwl ac yſtyr y geiriau hyn, *cymmerwch a bwytewch, hwn yw fy Nghorph.* Canys ni ddywedir ddim mae Corph yr Arglwydd yw'r bara Cyſſegredig, yn unig am ei

fod

fod yn portreiadu Corph yr Arglwydd, eithr hefyd o herwydd y Defnydd preſennol a wnelem o hono ar y ddaiar, am ei fod cyſtadl ai roddi i ni; ac am ein dedwyddwch yn y Nêf a brynnwyd a gwerth y Corph hwn, y mae'r Cymmun bendigedig yn offeryn ſancteiddiaf i ſiccrhau eu'n hawl iddo.

7. FEL hyn nid yw'r defnyddiau cyſſegredig ddim mwy yn Gorph a gwaed CRIST yn yr yſtyr hwnnw, nac y gelwir y Lluniau, a oſodir o gwmpas parwyddydd yſtafelloedd yn gyffredinol, yn Frenhinoedd a gwledydd, yn unig am eu bod yn eu portreiadu hwynt; eithr hefyd megis y gelwir y Scrifennadau a roddir gan Frenhinoedd, neu Weithredoedd a thyſtiolaethau eraill a adawer yn ein Tai gan ein Henafiaid, yn Diroedd, yn Faenol, neu Randir, am eu bod yn rhoi i ni, yn y fodd ſiccraf, hawl a meddiant o'r Meddiannau y maent yn eu crybwyll. Tybiwch yn eich meddwl, eich bod yn gweled hên *Jacob* yn rhannu ym mhlith ei Blant bob rhandir o'i Etifeddiaeth, a than ûn yn rhoi i fynu yr hawl berthynaſol i bob rhan; Tydi, *Joſeph*, Cymmer hwn, hwn yw'r Maes a brynnodd fy Nhaid *Abraham* gan *Hephron*: a thitheu, *Manaſſeh*, tyred yn nês, hwn yw'r tîr a

ennillais

ennillais i oddiar yr *Amoriad*. Y mae'n ſiccraf dim hyn, nad yw rhoi i fynu'r fath 'Scrifennadau (er nad ŷnt ynddynt eu hunain ond papir neu femrwn) mewn gwirionedd ddim llai na rhoi i fynu'r Tiroedd eu hunain: a da y geill 'Scrifennadau a thiroedd fyned ynghŷd tan yr un enw, gan mae'r un peth y mae Tadau a chymmwynaſwyr eraill yn ei amcanu, ac yn ei wneuthur, wrth roddi gweithredoedd neu Diroedd, 'Scrifennadau neu freintiau. Os digwydda weithiau, ym myſg dynion, i gyfiawnder a meddiant beidio myned yr ûn ffordd; fod ein Hawl goreu yn cael ei wrthod, ac nad allwn ni mor mwynhau'r tiroedd a'r Meddiannau hynny, o ba rai y gadawſai ein Brenhinoedd neu'n Tadau y tyſtiolaethau egluraf i ni, hyn a ddigwydd trwy Dwrſtaneiddrwydd, ûn ai o wendid, neu Anghyfiawnder, neu Anwybodaeth, y rhai ni cheffir ddim yng NGHRÎST JESU. Gan fod ein Jachawdwr bendigedig yma ynte yn chwennychu oſlaen ei farwolaeth, fel pettae, trwy weithred o lythyr-Cymmun, roddi iw wîr Ddiſgyblion y cyfryw feſur oi râs yn y bywyd hwn, a allai, o ran, eu gwneuthur yn Sanctaidd, ac, ar ol y bywyd hwn, y fath gyfiawnder o'i holl fendithion, a allai eu gwneuthur yn

ddedwydd

ddedwydd yn dragywydd; y mae yn hoi yn eu dwylaw, megis trwy weithred o feddiant, y Sacrament bendigedig oi Gorph ai waed (gwîr wreiddyn pob Bendithion) yn yr ûn modd oblegid ei amcan ai fwriad, eithr mewn ſiccrach ffordd oblegid y ffrwyth a'r diben o hono; megis y mae arfer Brenhinoedd o roddi Uchelfraint ac Urddas trwy roi ffonn neu gleddyf; ac megis y mae Tadau yn rhoddi cymmaint ac a welant yn dda oi Tiroedd iw plant trwy roddi iddynt ychydig o 'Scrifennadau.

8. Y GWÎR reſwm o hyn oll ydyw hyn, am nad ydyw'r rhoddwr yn abl i oſod yn nhwylaw'r derbynniwr Dai neu Diroedd, oblegid mae Dâ anſymmudol ydynt; ac am hynny, yn lle'r tiroedd, rhaid cymmeryd rhyw ddefodau, ffurfiau neu Arwyddion, y rhai a allant yn weledig fyned o law i law, ac i ddangos, i bob diben a phwrpas, yn gyſtadl y bwriad a'r amcan ſydd gan y naill i roddi, a'r gallu ſydd gan y llall i dderbyn ac i fwynhau yr hyn a roddir iddo. Yr awron nid yw CRÎST ai Dreſtadaeth, ei Ddedwyddwch ai Ogoniant, ei Dragywyddoldeb ai Nefoedd, bethau a aller eu ſymmud mwy na'r Mynyddoedd a'r Dyffrynnoedd daiarol; ac am hynny nid ydynt iw rhoddi

rhoddi mewn nebrhyw wîr fodd arall amgen na'r modd y rhoddir dâ anſymmudol. Gan hynny, megis y rhoddwyd unwaith i *Dafydd* Deyrnas *Iſrael* trwy ychydig ddefnynnau o'r Olew Cyſſegredig a darfu *Samuel* eu tywallt ar ei Ben ef (1 *Sam.* xvi. 13.) felly y mae Corph a gwaed CRÎST yn ei *lawn Werth*, y Nêt ai holl gyflawnder yn ei *Hawl-Sicr*, wedi 'roddi i wîr Griſtianogion, trwy 'r tammeidiau bach yr ŷm ni yn eu derbyn yn y Cymmun bendigedig; gan fod gan Weinidog CRÎST, am y diben hwn o hono, gymaint awdurdod oddiwrth ei feiſtr am yr hyn y mae'n ei wneuthur, ac oedd gan ûn Prophwyd, neu Angel, erioed am yr hyn a wnaethant hwythau.

9. WRTH hyn yr ymddengys pa fai a phechod yw bod heb *iawn farnu Corph yr Arglwydd.* Gwneuthur yn waeth nâ y gwnaeth *Eſau* halog ydyw, yr hwn am goeg-beth a werthodd ei Enedigaeth-fraint; nid yw, ond rhoi'r ûn bris ar Enneiniad Prophwyd ac ar yr hyn a gymmyſga gwerthwr pêr-aroglau; cymmeryd Corph yr Arglwydd megis tammaid dirmygus o fara: ar fyrr eiriau, nid yw amgen na gwneuthur, fel Anifail diſynwyr, yr hwn ſy'n bwyta ond y rhan ddaiarol o'r Sacrament hwn, ac heb fod ynddo ddim o'r Criſtion, neu greadur

rheſymmol,

heſymmol, yr hwn a dderchafa ei enaid
t y Corph hwnnw, yr hwn y mae efe,
rwy Ordinhâd CRIST, yn ei bortreiadu, ac
t brîs y Corph hwnnw, yr hwn y mae efe
n ei addaw. Canys gan nad ydyw'r
anfod briodol o Arwyddion Cyſſegredig,
neu Sacramentau, yn ſefyll yn yr hyn y
maent yn eu natur, ond yn yr hyn y
maent yn ei Arwyddoccau trwy ordin-
hâd Ddwyfol: wrth hyn, yn ddiau, y
digwydd, pan gam-arferer, neu yr am-
harcher y Sacramentau hyn, fod yn rhaid
'r cam neu'r ammharch ddeſgyn nid ar-
nynt hwy, yn eu hanfod anianol eu
hunain, megis y maent yn ddwfr, yn
fara, ac yn wîn, y rhai, ar yr achos hyn,
nid ydynt bethau rhagorol yn y byd,
eithr ar y dirgelion Sanctaidd, Corph a
gwâed CRÎST ei hun, yr hwn yw'r brîf-
owrpas o'u hanfod ffurfiol hwynt, hynny
yw, yr arwyddoccâd o honynt. Ac am
hynny, mae'r Apoſtol yn ſiarad yn bûr
gyfrdo, uniawn, a chymmwys, pan yw'n
dywedyd, fod pwy bynnag ſy'n bwyta
o'r bara hwn yn anheilwng heb *iawn-*
farnu neu heb ſancteiddio, eithr yn ar-
feru Corph yr Arglwydd JESU GRIST
megis peth halog a chyffredin.

10. YN y drygioni annuwiol hwn o
fod heb iawn-farnu, y mae'n anhawdd
dywedyd par ûn fwyaf ai'r pechod neu'r
gerydd:

gerydd: canys ffiaidd yw'r pechod, gan mae CRÎST ei hun, nid y Bara, ſy'n dd oddef y cam, a'r ammarch: nid yw'r Bara ond fel peth marw arall, ac nid yw yn dioddef gan y dirieid-ddyn yſgeler ſy'n amharchu'r Sacrament, mwy nac ddioddefa'r dwfr neu'r ddaiar, neu ryw ûn arall o'r defnyddiau cyffredin ſy'n gwneuthur Corph dyn, ar law'r lleiddiad ſy'n dieneidio'r Dyn; neu y mae'r prês neu'r maen, yn ei ddioddef gan y gwrth-ryfelwyr dibris, a dynnant i lawr Ddelwau eu tywyſogion; neu a wna'r Memrwn, y papir, a'r inc ddioddef gan y Mab anufudd ac annaturiol hwnnw, a rwyga, neu a fathra tan ei Draed y Scrifennadau, a llythyr-Cymmun ei Dâd. Nid oes ond y rhagoriaeth yma, bod, yn y tair Eſampl ddiweddaf, y Camwri yn ddeilliaw ond oddiwrth y ddaiar, y prês, y Maen, y papir, a'r cyfryw bethau cyffredin eraill, i'r Dyn, i'r Brenin, neu'r Tad ei hun, y rhai a ddyleſid eu hyſtyried, a'r rhai yn unig ſy'n dioddef y Cam; lle y mae'r pechod, wrth amherchu'r Sacramentau, yn neidio yn uwch o lawer, hyd yn oed Wyneb CRIST JESU, yn lle Corph a gwaed pwy ûn y maent yn ſefyll. Fel, megis nad yw'r Cymmun Sanctaidd yn yr Eglwys yn ſefyll am

m fara a Gwîn, y mae'r Cymmunwyr ſyddlawn yn ymddangos yno i dderbyn CRIST, a'r Anffyddloniaid iw amherchu ſ.

11. Os drygionus ac anraſol yw ei Waith ef, y mae'r gerydd ſydd yn ei ganlyn yn fwy erchyll ac ofnadwy. Anfortyn drom a thriſt ydyw, pan ddigwydda i gŵn neu Lygod rwygo yn ddrylliau mân, megis papir an-elw, y Scrifennadau, a'r Siccrhâd i ryw Etifeddiaeth dda; a phwy na thoſturia tros yr adyn hwnnw, yr hwn, yn ei wylltineb gwallgofus, a daflodd i'r dyfn-fôr yr Egoriadau a roddwyd iddo, iw oſod ef mewn cyfiawn feddiant o dryſſorau anferth yn y Tai y bo'r Egoriadau hynny yn perthyn iddynt iw hegoryd? och Ddihiriaid deillion! ni fedrwch iawnadnabod, ym myſg y papurau hynny, hên 'Scrifennadau eich Tiroedd; neu, ym myſg yr holl weithredoedd hyn, yr Egoriadau a allant ddiogelu i chwi, a'ch goſod mewn meddiant o'r golud anfeidrol, pa bryd bynnag y bo'ch yn bwyta o'r Bara hwn, neu'n yfed o'r Cwppan hwn, fel hyn yn anheilwng; chwi, Ddynion annedwydd, nid ydych yn iawnfarnu gwyſtlon eich Jechydwriaeth! ie, chwi Enwiriaid echryſlon, fel yr ydych!

nid

nid ydych nac yn iawn-farnu, ac ni an-
rhydeddwch chwaith, Gorph a gwaed
eich Jachawdwr, yr hwn a fynnai ddwyn
i chwi Jechydwriaeth ar unwaith; chwi,
Ddynion annuwiol ac annedwydd! yr
ydych yn diyſtyru ac yn taflu ymaith
oddiwrthych eich Jechydwriaeth a'ch
Jachawdwr hefyd.

RHAN VI.

Ynghylch y Cymmun ſanctaidd, megis y mae'n arwyddoccau Aberth. Ac, yn gyntaf, am yr Aberth Coffâad.

1. GWirionedd Siccr yw, na bu erioed
wîr grefydd ar y ddaiar heb ryw
fath o Aberthau iw chanlyn; ac anwiredd
mawr yw dywedyd fod y Criſtianogion
yr awron hebddynt. Darfu'r *Iddewon*
a'r *Paganiaid*, y rhai yn gyntaf a roeſant
yr ogan hon ar Eglwys CRIST, wneuthur
hynny ar y fath reſwm ac a weddai
iddynt, am na welſant nac Allorau wedi
goſod i fynu, nac Anifeiliaid wedi lladd
au lloſgi yn eu plith. Felly y darfu i'r
Paganiaid achwyn ar yr *Iddewon*, nad
oeddynt yn addoli dim ond Cymmylau,
am nad oedd ganddynt ddim Duwiau o
faen,

aen, neu Arian, yn eu Synagogau; ac
el hyn y gall dynion gwirion-ffôl dybied
r awron, nad oes yn y byd ddim An-
ylion, am nad ydynt yn ymddangos
hor aml ac y darfu iddynt yn yr hên
Amſeroedd, yn rhith a Llûn dynion.
gwîr yw hyn, megis nad Angel oedd
r hyn a ymrithiodd ar lûn Corph, neu
is gallodd yr hyn oedd faen, neu Arian,
hor bod yn DDUW; ac nis gallodd lladd-
a'r Anifeiliaid truain erioed fod yn wîr
Aberth. *Nid wyt yn ymhoffi mewn Of-*
rymmau, Aberth Duw yw Yſpryd dryll-
edig. Darfu llawer ym mhlith yr *Iddewon*,
n llawer llai eu deall na'r Prophwydi,
yffeſſu cymaint a hyn; ac nid allodd
heſwm yn y byd, yn Sicer, adael iddynt
ybied, y gallaſai cîg a gwaed, y rhai,
n eu holl 'Scrythyrau, na chyfrifwyd i
od ond pethau mwya egwan a gwael,
od yn rhan oreu o'r Aberthau.

2. O'R holl Aberthau cnawdol, y rhai
mae'r *Iddewon* yn eu cyfrif yn chwe
Rhyw yn unig, heblaw llawer o Offrym-
nau eraill yn ychwaneg, ni bû gan ûn
rioed ddim rhinwedd iachuſol ynddo ei
un tu ag at lanhau pechodau, ond fel
r oeddynt yn bwrw at Aberth JESU
GRIST, neu yn hyderu arno: ac am ein
gwaſanaeth a'n dyledſwydd tu ag at

DDUW

DDUW y rhai yr oeddynt hefyd i bo
treiadu, ni chwblhawyd yr ail ddibe
hwn gan yr ûn mor gyflawn ac y mae'n
rhaid iddo fod tan yr Efengyl. Y mae'
Cymmun bendigedig ei hun, pan fo y
gyfan, ac heb ei ddarn-roddi, yn dy
bennu yn grynno yn y ddau beth pwy
fawr hyn, ſef, cyflawn Jawn am bechodau,
a dyledſwydd gymmeradwy gan DDUW,
at ba rai ni ddarfu'r un o'r holl hê
Aberthau erioed dueddu, ond yn unig
megis rhwymedigaethau neu gyſgodio
egwan. Am y cyntaf, yr hwn yw'
iawn am bechodau, y mae'n ſiccraf dim
fod Aberth JESU GRIST yn unig yn ddi
gonol iddo; a phettai'r cwbl oll, yn
ddynion ac Angylion, wedi cyſſylltu
iddo, ni byddant hwy oll ddim i chwa
negu at ei gyflawnder ef, ond i dderbyn
oddiwrtho. Y mae'n ſiccraf dim hefyd,
gan fod yr Aberth mawr hwn o rinwedd
anfeidrol i ddwyn ar unwaith yr holl
ffrwythau bendigedig, a ellir eu diſgwil
oddiwrtho; anraſlondeb mawr a fyddai
tybied, y byddai raid ei wneuthur eil
waith, fel y mae'n gofyn mewn rhyw
achoſion gweiniaid amherffaith er mwyn
cyflawni, o feſur ychydig, ac ar amryw
amſerau, eu llawn ddibennion. Hyn,
ondodid, oedd y diffyg ffydd hwnnw y
mae'r

mae'r yſgrythyr yn achwyn arno yn *Moſes*, Num. xx. 12. (yr hwn y mae'n nhawdd ei gael mewn dim arall) iddo haraw eilwaith, ac heb orchymmyn, y graig ddirgel honno, yr hon y b'aſai yn ddigon ei tharaw unwaith; canys nid allodd yr ail ddyrnod ond deilliaw oddiwrth ryw ammheuaeth neu wann ffydd, nad oedd y cyntaf, yr hwn yn unig a orchymmynwyd, yn ddigonol. Ond fe fyddai yn lawer mwy pechod yn erbyn gwaed CRIST, ammeu ei anfeidrol werth, ac hefyd yn erbyn y meſur aneirif ac anfeidrol o'r gwerth hwn, ddywedyd fod dim diffyg ynddo, a allai'r ail wneuthuriad o hono ei gyflawni yn berffaith. Gan hynny, megis yr oedd yr Aberth cymmodol, a offrymmodd CRIST ar y groes, a grym anfeidrol ynddo i wneuthur ar unwaith beth bynnag a allodd y rhî aneirif o Aberthau eraill ei wneuthur, naill ai ynghŷd oll ar unwaith, neu bob ûn o honynt ar ei ben, trwy'r holl oeſoedd, rhaid i'r Offrymmiad o hono fod yn ûn yn unig; ac fe fyddai'r ail wneuthuriad o hono nid yn unig yn fwy na digonol, oblegid ei wîr ddiben ai affeithrwydd, eithr hefyd yn gam goleu i GRIST, feddwl ac ymgais o neb y fath beth.

3. ER

3. ER hyn ei gyd, y mae'r Aberth yma, yr hwn, trwy *wîr Offrymmiad*, nid oedd iw Offrymmu ddim mwy nac unwaith, iw Offrymmu bob dydd trwy goffa diolchgar a defoſionol. Dyma'r peth y mae'r Apoſtol yn ei alw, *dangos Marwolaeth yr Arglwydd*; ei ddangos, meddaf, yn gyſtadl ger bron DUW ei Dad, a cher bron yr holl fyd; a'r peth a ddarfu St *Awſtin* ei Egluro pan ddywedodd, ddarfod offrymmu Corph Cyſſegredig yr JESU mewn tair ffordd, 1. Trwy'r *Aberthau cyſgodol* tan y gyfraith cyn ei ddyfod i'r bŷd. 2. Mewn *gwir weithred* ar y groes. 3. Trwy'r *Sacrament o goffâad* ar ol ei Eſgynniad i'r nef. Y mae'r cwbl yn dyfod i'r peth hyn, 1. Na ddichon yr Aberth, megis y mae ei hun, ac ynddo ei hun, fyth moi ail Offrymmu; etto trwy ei gadw ai goffa yn ddefoſionol, f'ellir ei ail offrymmu ef bob dydd. 2. Llê y mae'r Cymmun bendigedig ar ei ben ei hun yn Sacrament, ym mha ûn y mae Duw yn cynnyg i bob Dyn y bendithion a ddarfu'r Offrwm oi Fab eu hynnill iddynt; y mae hefyd, trwy ein coffa ni o hono, yn fath ar Aberth hefyd, trwy ba ûn, er mwyn ynnill ar ei ddwylaw ef yr unrhyw fendithion, yr ydym yn cyflwyno, ac yn

dangos

angos o flaen ei lygaid ef, yr un Offrwm
nctaidd a gwerthfawr a offrymmwyd
nwaith. Fel hyn y darfu'r hên *Iſrael-*
id yn waſtadol bortreiadu, yn eu gwedd-
u cyhoedd at DDUW, y cyfammod
wnnw a wnaeth efe unwaith a'u hên
adau *Abraham*, *Iſaac*, a *Jacob*. Fel
yn y darfu'r *Iddewon* yn eu Caethiwed
n Mabilon droi eu hwynebau, naill ai
u a'u gwlâd, neu'r Deml, lle'r oedd y
ruga eddfa a'r Arch, y rhai oeddynt
goffadwriaeth oi addewidion ef, a'r
ymedigaeth Sacramentaidd oi fendith-
n ef. Ac fel hyn y mae Criſtianogion,
n eu gweddiau, bob dydd yn daer ar
DUW'r Tâd, ac yn dangos iddo rygl-
ddus Grôg a Dioddefaint eu Jachawdwr,
egis yr unig ſail ſiccr, ar ba ûn y gall
uw roddi, a nhwythau dderbyn y
ndithion y maent yn gweddio am
nynt. Yr awron ni bu erioed gan yr
raeliaid na theml, nac Arch, na thruga-
ddfa; ac nid oes gan Griſtianogion ûn
dinhâd, na Defoſiwn, na Dirgelwch,
allai fod yn futh offerym Bendigedig
affeithiol i gyrhaeddyd yr Aberth
agwyddol hwn, ac iw oſod mewn
odd mor arbennig ger bron DUW
ruchaf, ac ydyw'r Cymmun ſanctaidd
yn. I *Ddynion* y mae'n *fwrdd* cyſ-

ſegredig,

ſegredig, lle y mae Gweinidog Du
wedi ordeinio i ddangos, oddiwrth Duw
ei feiſtr, Ddioddefaint ei anwyl fab,
megis etto yn newydd, ac etto yn nerthol
iw hiechydwriaeth dragywyddol; ac
Dduw y mae yn *Allor*, ar ba ûn y mae
dynion, mewn dirgelwch, yn cyflwyno
iddo ef yr unrhyw Aberth, megis etto
yn gwaedu, ac etto yn crefu am gym-
mod a thrugaredd. A chan mae'r Arch-
offeiriad ei hun, gwîr Enneiniog yr Ar-
glwydd, yw'r hwn a ddarfu, yn y modd
mwya pendant, oſod i fynu'r Bwrdd
yma, a'r Allor yma i'r ddau ddiben
hwn, ſef, er coffadwriaeth oi Gorph a
waed ef i ddynion, ac er portreiad
choffadwriaeth o'r ddau i Dduw; di-
ammeu yw, fod yn rhaid i'r naill fod yn
fwya lleſol i'r pechadur edifeiriol, a'r
llall fod yn fwya cymmeradwy gan y
Tâd daionus a graſuſol hwnnw, yr hwn
bob amſer a fodlonir yn ei Fab, a'r hwn
o hono ei hun, ſy'n hoffi edifeiriol a dir-
fuant ddychweliad ei Blant, *Luc* xv. 22.

4. WRTH hyn y geill ûn weled y
mawr fûdd a'r lleſhâad o gymmuno yn
fynychach; ac mor ddyledus yw arnom
pa bryd bynnag yr elom iw dderbyn
agoryd ei'n holl anghenion, a thywallt
ein holl ofid, ein gweddiau, a'n moliant

ger
Dyw
r r
br
ac
neb
wyl
ghe
nwn
noc
uric
yfla
wed
'r
ſion
nwn
y ma
on,
etha
gyfa
yn ei
uſoe
n o
Yr c
mſe
u g
nwn

ger bron Duw ar achos mor ddedwyddol. Dyna fel y gwnaeth y prif Griſtianogion, rhai a ymgyfarfyddant mor anfynych bregethu, neu weddio, heb Gymmun, c y gwnaethai'r hên *Iſraeliaid* i addoli eb Aberth. Yn enwedig ar uchelyliau, neu ryw achoſion Mawr o anghenraid, hwy a arferant y Cymmorth wn o offrwm Sacramentaidd, megis y moddion mwya nerthol a ffynnadwy oedd gan yr Eglwys i nerthu eu gweddiau a'u nerfynion i agoryd pyrth y Nêf, ac mewn modd i gymmell Duw ai GRIST i doſturio wrthynt. Pobl *Iſrael*, er mwyn cyflawni yn well eu Dyledfwyddau o weddi a Defoſiwn, a aethant i'r Babell 'r Deml, am fod y rhain (heblaw achoſion eraill) yn gyffelybiaethau o'r Corph nwnnw oedd i gael ei Aberthu: am hynny mae CRIST yn galw ei Gorph, *y Deml on*, Joan ii. 19. a'r prif Griſtianogion a aethant i fynu iw Heglwyſydd, yno i gyfarfod y dirgelion hyn, y rhai ydynt yn ei bortreiadu ef megis wedi Aberthu uſoes, ac etto mewn rhyw fodd megis yn offrymmu, ac yn rhoi, ei hun i fynu. Yr oedd yr *Iſraeliaid*, wrth addoli, bob amſer, yn troi eu golygon, eu calonnau, eu gobaith, tu ag at yr Allor, a'r Aberth nwnnw, oddiwrth ba rai yr oedd yr

Archoffeiriad i ddwyn y gwaed i mewn i'r Cyſſegr; a'r Criſtianogion yn edrych tu ag at y groes a'u hiachawdwr croeſholiedig arni, ydynt, trwy ei Ddioddefiadau ef, yn diſgwil yn obeithiol am ffordd i'r nêf, gan gymmeryd hyfdra i obeithio fel hyn, oddiwrth y coffa, y maent yn ei gymmeryd iddynt eu hunain, ac yn ei ddangos i Dduw, o'r dioddefiadau hyn. Yn ddiweddaf, gan fod Jesu ein Hoffeiriad tragywyddol wedi myned oddiar y groes, lle y diodd fodd efe o'r tu allan i'r porth, i fynu i'r gwîr Gyſſegr, yr hwn yw'r Nef, y mae efe yno uchod yn waſtadol yn preſentio ei Gorph mewn *gwirionedd*; ac megis y darfu *Aaron* preſentio deuddeg Llwyth *Iſrael*, mewn coffadwriaeth hefyd, *Exod.* xxviii. 29. Ac o'r tû arall yr ydym ninnau, yma iſod yn yr Eglwys, yn cyflwyno i Dduw ei Gorph ai waed mewn coffadwriaeth, fel, tan y Cyſgod yma oi groes ef, a'r ddelw oi Aberth, y gallom preſentio ein hunain ger ei fron ef mewn gwirionedd.

RHAN

RHAN VII.

Ynghylch yr Aberth o honom ein hunain.

1. NAILL ai gormod camgymmeriad neu anyſtyriaeth Criſtianogion ſy'n gwneuthur iddynt weithiau i *gredu*, ac yn amlach i *fyw*, fel pettae tan yr Efengyl ddim Aberth arall ond hwnnw o GRIST ar y groes. Gwîr yw, nad oes, ac nid all fod chwaith, yr un arall yn ddigonol ac yn briodol i'r pwrpas hwn o fodloni cyſiawnder DUW, a gwneuthur iawn am ein pechodau ni; *ſethrais y Winwryf fy hunan, ac o'r Bobl nid oedd yr ûn gyd a mi; edrychais hefyd ac nid oedd gynnorthwywr*, Eſau. lxiii. 3, 5. Yn yr achos hwn, er i'r holl Eglwys yn ei Chorpholaeth offrymmu ei hun yn boeth-offrwm i DDUW, etto nid allai wneuthur dim tu ag at ddioddef, neu ddihuddo'r llid i ddyfod am bechod, mwy nac a allodd yr holl Eneidiau diniwaid hynny a ſafaſant wrth groes yr JESU, pan roddodd i fynu'r Yſpryd, wneuthur tu ag at dywyllu'r Haul, neu gynhyrfu'r holl ddaiar. Ond y peth nad yw cymaint a lleſol, llawer llai yn ang-

enrheidiol i'r Aberth tragywyddol hwn, yr hwn yn unig a ddichon brynnu dynol ryw, ſydd etto yn gwbl angenrheidiol a buddiol er mwyn cael o honom ran yn y Brynnedigaeth; fel os na ddichon yr Aberth o honom ein hunain, yr hwn a ddylem ni ei offrymmu i DDUW, *yn ſtill* iechydwriaeth, y mae'n gwbl angenrheidiol iw *dderbyn*.

2. MEGIS na ddarfu'r hên gyfraith erioed ddwyn *Aaron* i mewn i Offeiriadu ger bron yr Arglwydd, heb holl bobl *Iſrael*, wedi eu portreiadu yn y deuddeg meini gwerthfawr ar ei Ephod, a'r ddau eraill ar ei yſgwyddau ef, *Exod.* xxviii. 12, 30. Y mae'r Efengyl, gan mwyaf, yn ſôn am JESU GRIST ai Eglwys, nid yn unig megis dwy blaid, na wnânt ddim, y naill heb y llall, eithr hefyd megis ûn yn unig; megis yn enwedig (yn 1 *Cor.* xii. 12.) Y mae CRIST yn gweithredu, yn gwaſanaethu, ac yn dioddef tros ei Gorph yn y modd y gwedda i'r Pen; ac y mae'r Eglwys yn dilyn, ac yn canlyn, holl weithredoedd, a dioddefiadau y Pen nefol a Sanctaidd hwn, yn y cyfryw ſodd ac yw boſſibl i'r Aelodau gweiniad o hono.

3. Y MAE'R rhan fwyaf, os nad yw'r cwbl, o Ddifeinyddiaeth Sanct *Paul*, gyſtadl

gyſtadl mewn pwngc o ffydd ac o fuchedd Criſtianogol, yn rhedeg yn gyſſon ar yr unffyrfiad hwn o weithredoedd a Diodd-efiadau; a Difeinyddiaeth Sanct *Joan* hefyd ar yr un Cymmundeb yma. Y gwirionedd ydyw hyn, na bu i'n Jachawdwr na Genedigaeth na marwolaeth, nac adgyfodiad yma ar y ddaiar, ond y cyfryw ac a ddylem ni unffurfio'n hunain iddo: megis nad oes ganddo nac Eſgyniad, na theyrngadair, na bywyd tragywyddol, na gogoniant, ond y cyfryw ac a allem ninnau hefyd eu cael yn y nef gyd ag ef.

4. YR Unffurfiad neu'r gyffelybiaeth hon i GRIST (fel yr arfera'r *Hebrëaid* ſiarad) ydyw ſail neu Golofn, hynny yw, y brîf-reol fawr o'r holl grefydd Griſtianogol yn perthyn yn neſa peth i'n dyledſwydd ynghylch ei *ddioddefiadau* ef, ac wedi hyn i'n dedwyddwch oblegid ei *dderchafiad* ef: ac y mae'r Cymmun, yr hwn yw'r ſail fawr arall y mae Sanct *Joan* yn ei ddal arno o hŷd, yn tueddu at ei dderchafiad ef, a than ûn yn arwyddoccau ei ddioddefiadau; ac y mae'r ddau, yr unffurfiad a'r Cymmun, yn rhoi i ni lawn eglurhâd o'r geiriau a ddarfu ein iachawdwr eu gorchymmyn

mor aml iw Ddiſcyblion, ar iddynt ei *ganlyn* ef; gan arwyddoccau wrth hynny, y llafur a'r llwyddiant o'r *Daith* bwyſfawr hon; canys, yn ddiammeu, ni ai canlynwn ef i'r Nefoedd, os dilynwn ei ôl ef yma ar y ddaiar; ac ni a gawn gymmundeb ac ef yn ei *Ogoniant*, os cadwn *unffurfiad* ac ef yn ei *Ddioddefadau.*

5. NID yw'r Ymadroddion hyn o *ddilyn*, bod *yn debyg*, neu *bod gennym unffurfiad* a Chymmundeb, y rhai ydynt y rhannau mwya pwyſfawr yn y Ddeddf a'r *Siartr* Criſtianogol, nid ydynt, meddaf, iw deall yn unig am y Dilyniad o Ymarweddiad CRIST, megis pan yw yn peri i ni fod *yn Sanctaidd, megis y mae yntef yn Sanctaidd*, ar cyffelyb, eithr hefyd y maent yn rhwymo ei holl Ddiſgyblion ef iw ganlyn ai ddilyn ef, hyd y bo yn-ddynt, trwy'r holl rannau eraill oi fuchedd ef, ac hyd at gyflawniad ei uchel-ſwyddau ef. Canys rhaid i ni fod wedi'n hail-eni yn ei Enedigaeth ef, marw ar ei groes ef, bod yn gladdedig yn ei fêdd ef, dwyn ei gywilydd yn ei drallod; ar air, y maent, ac y mae'n rhaid i CRIST a Chriſtianogion fod, yn waſtadol ynghŷd gyd a'u gilydd; *lle'r wyfi yno y bydd fy*

ngwâs

ngwâs hefyd, Joan xii 26. Ond o'r holl ddyledſwyddau hyn, y pennaf, a'r mwyaf angenrheidiol, ydyw hwnnw o ddwyn rhan oi groes ef, a marw gyd ag ef mewn Aberth.

6. NI ddarfu Mab Duw erioed amcanu offrymmu ei hun tros ei Bobl, heb ei Bobl, mwy nac a ddarfu Archoffeiriadau'r Gyfraith amcanu offrymmu eu hunain tros *Iſrael* heb ei Ephod ef, y Goffadwriaeth o honynt. CRIST a breſentiodd ei hun i Dduw yn y Deml fawr hon, yr hon yw'r Byd, yn Ben ar holl ddynol ryw, megis y darfu'r cyntafanedig o'r *Aipht*, y rhai oeddynt hefyd Gyffelybiaeth o hono ef, pob ûn yn ei Dŷ ei hun yn Ben ar ei Deulu. Efe a ddaeth megis Aberth gwîr-ſodd at yr Allor, ai holl *Iſrael* yn ei ganlyn, y rhai megis ai dwylaw a oſodaſant eu holl bechodau ar ei ben ef. Gan hynny, megis yr oedd yn angenrheidiol i'r ſawl a geiſiaſant gymmod aros yn ufudd wrth yr Aberth; ac i'r ſawl a chwennychaſant ddiangc rhag y Diniſtrydd, neu'r plâau eraill, gadw eu hunain o fewn y tŷ hwnnw lle y lladdwyd naill ai'r Oen paſg, neu'r cyntaf-anedig, yn yr ûn modd, y mae'n rhaid i'r ſawl ſy'n ceiſio iddynt eu

hunain Jechydwriaeth dragywyddol, ymddangos o fewn y tŷ hwnnw, o gwmpas yr Allor honno, a'r Groes honno, ar ba ûn y darfu'r cyntaf-anedig hwn o bob Creadur, a'r tragywyddol Offeiriad, a'r Aberth hefyd, weled yn ddâ offrymmu ei hun.

7. Wrth ſefyll ac ymddangos fel hyn wrth yr Allor tan y gyfraith, ni ddarfu'r pechaduriaid yn wir mor marw, gan fod yr Aberth ei hun yn unig yn cael ei lâdd ai loſgi; ond am iddynt oſod eu dwylaw arno pan oedd yn marw, a ſyrthio (i weddio ac addoli) ar eu hwynebau i'r llawr, pan ſyrthiai'r Aberth yn gwaedu i farwolaeth, yr oeddynt hwy gyſtadl a'r Aberth ei hun yn cael eu cyfrif wedi hoffrymmu eu hunain; felly nid ydyw'r Criſtianogion cywîraf chwaith yn cael nai croeſhoeſio, nai llâdd, yn yr un modd ac y cawſai eu meiſtr a'u Hiachawdwr: etto, 1. am eu bod yn edrych tu ag at ei groes ef ai ddioddefaint, ac yn bwrw eu hunain arnynt, megis yr unig ffordd o gymmod am eu pechodau, ac o iechydwriaeth iw heneidiau. 2. Oblegid y triſtwch a'r gofid tôſt y maent hwy yn eu dioddef, y rhai yn ddiffuant ſydd yn meddwl am Fab Duw, fel hyn yn marw;

a'r

a'r peth ſydd fwy, fel hyn yn marw troſ-dynt hwy yn unig, yr hyn, iddynt hwy, ſydd, fel yr oedd i'r forwyn fendigedig, yn gleddyf i wânu eu calonnau, ac hefyd tan ûn i wânu ac i groeſhoelio i farwol-aeth eu pechodau. 3. Gan fod eu holl Gorph pechod, trwy'r croeſhoeliad yma, wedi lwyr orchfygu ai archolli; nid oes dim bywyd yn aros ynddynt, ond yr hyn a allant, ac a wnant hefyd ei offrymmu ai gyſſegru, i waſanaeth Duw. Gan fod yr Achubwr, fel hyn, yn offrymmu ei hun; a'r rhai a achubir wedi eu cyſſylltu felly ac ef trwy ffydd, wedi bwrw eu hunain felly i gymmundeb oi ddioddef-aint ef, a thriſtwch oi blegid, ac felly wedi ymroi a chyſſegru eu hunain iw ewyllys ef, tros eu holl fywyd rhagllaw, y maent i'll dau wedi cyfrif ger bron Duw megis yr ûn a'r unrhyw Aberth.

8. Y MAE yn ûn, yn gyntaf, oblegid yr haeddedigaeth a gyfrifir oddiwrth y naill i'r llall, yr un fath ac y cyfrifid y blaen-ffrwyth a'r *clamp-toes*; canys os ſanctaidd y naill, ſanctaidd hefyd oedd y llall, *Rhuf.* ii. 16. Ac megis yr yſgub ŷd a'r cynhayaf, y rhai a gyd-ûner ac a gyd-ſanctеiddier trwy *ûn offrwm*, *Lef.* xxiii. 10, 11. Yn yr yſtyr yma y

gwnaethpwyd CRIST JESU, yn marw ar y groes, yn flaenffrwyth y rhai a offrymmaſant eu hunain i DDUW, fel y ſancteiddier hwynt trwy ei farwolaeth ef ai Aberth; *os marw yw un, yna'r cwbl ydynt feirw*, megis y gwnaethpwyd ef yn *flaenffrwyth y rhai a hunaſant*, fel y bywhäer hwynt trwy ei adgyfodiad ef: ond yn ail, megis y gall y clamp (neu'r talp) ar ryw achos, fod naill ai wedi colli, neu heb erioed ynnill braint a ſancteiddrwydd y Blaenffrwyth, canys nid allai ychydig o yſgubau yd, y rhai a offrymmodd yr Addolwyr i'r Arglwydd DDUW, trwy fodd yn y byd, Sancteiddio'r cynhayaf hwnnw, yr hwn, gwedi hynny, a fwytaer yngwaſanaeth, neu yn Nheml, Eulun; gan hynny, y mae dau beth yn angenrheidiol i wneuthur yn dda'r Haeddedigaethau a gyfrifir i'r naill oddiwrth y llall, ac i gyſſylltu'r Criſtianogion i Aberth CRIST eu Pen.

9. Y CYNTAF ydyw, iddynt wneuthur eu goreu i groeſhoelio eu haelodau pechadurus, mor wîr a diau, ac y darfu CRIST ei hun groeſhoelio ei Gorph dibechod. Fel y gallo'r traed hynny, y rhai o'r blaen oeddynt mor gyflym i redeg i ddrwg, a'r dwylaw traws a

wnaethant

wnaethant y Cam, a'r llygaid chwantus gwammal hynny a ddeiſyfiaſant, a'r holl aelodau cnawdol hynny, y rhai beddynt arfau o ddrygioni, (fel y gallo'r dhain oll, meddaf) trwy'r groes, a'r Aberth yma, gael eu rhwymo i fynu a'u deſtrywio, gan mwyaf, o herwydd eu llygredigaeth. *Na atto Duw, i mi ymffroſtio ond yn-Grhoes ein Harglwydd Jeſu Griſt, trwy'r hwn y croeſhoelwyd y byd i mi, a minneu i'r Byd*, Galat. vi. 14. Felly y mae JESU GRIST ai holl Eglwys; ac yn yr Eglwys hon pob pechadur gwiredifeiriol, yn gyſſylltedig ynghyd, yn gwneuthur i fynu'r Aberth hwnnw yn gyflawn, o ba ûn, y mae'n debygol fod yr Aberth wrth gyſſegru *Aaron* yn Gyffelybiaeth, (*Exod.* xxix. 13, 14.) o ba ûn y lloſgwyd yr Arennau a'r holl frafder ſy'n gorch-guddio'r perfedd, yn Aberth tanllyd o arogl peraidd ar yr Allor; ond yr holl gîg, y Croen, y traed, a'r fiſwail (arfau a chyffelybiaethau o bechod) a daflwyd ymaith ac a loſgwyd mewn tân o'r ty allan i'r gwerſyll. Canys y mae JESU GRIST ai Eglwys yn cyd-gyfarfod mewn ûn offrwm, felly ac i'r Jachawdwr bendigedig roddi'r cwbl ac a ddichon fyned i fynu i'r nef i heddychu ac i ryngu bodd

bodd Duw; a ninnau, ar ein rhan ein hunain, nid ydym yn rhoddi ond yr hyn ſy'n haeddu ei ſwrw ymaith allan o olwg, ſef Llygredigaeth ac Arogl pechod. Yr ail peth angenrheidiol i'r Haeddedigaeth uchod ſy'n dyfod oddiwrth y naill i'r llall (canys nid all haeddedigaeth yn y byd, nac i fywyd nac i angeu, fod yn gyfiawn, heb ryw ſail dda iw gynnal) ac i'n cyſſylltu ni yn yr ûn Aberth o Gorph Crist, ydyw bwriad difrifol o dduwioldeb, a chyſſegriad hollawl o honom ein hunain, ac o'n holl weithredoedd i Ddduw: *myfi a groeſtoelwyd i Griſt, ſel y byddwyf byw i Dduw; yr awron, nid myfi, ond Criſt ſydd yn byw ynofi: a'r hyn ydwyf yr awron yn ei fyw yn y Cnawd, ei fyw yr ydwyf trwy ffydd Mab Duw, yr hwn a'm carodd, ac a'i rhoddes ei hun troſoſi*, Gal. ii. 20. A Gwaith yr Eglwys ſel hyn yn Cyſſegru ei hun i Ddduw, ac yn Cyſſylltu ei hun felly i Grist ac i wneuthur ond ûn offrwm gyda ef, ydyw'r dirgelwch a bortreiadir trwy yr Aberth beunyddiol, *Exod.* xxix. 38. *Num.* xxviii. 3.

10. Yr oedd yr Aberth beunyddiol yn ſefyll mewn dwy Ran. Y cyntaf a'i pennaf oedd yr Oen; yr hwn oedd gyſſelybiaeth o Oen Duw; a'r Ail oedd y bwyd-offrwm a'r ddiod-offrwm yr hwn

a

a wnaethpwyd o beilliad, a gymmyſgwyd ac olew a Gwîn: hyn ei gyd, er nad oedd ond yr hyn a chwanegwyd iw daflu ar yr Oen, nos a boreu, a gyfrifwyd er hynny yn ûn ac unrhyw Aberth. Yr *ail-Offrymmau* hynny a daflwyd felly at yr Aberth pennaf, ac a gyd loſgwyd, a arwyddoccaſant yn briodol yr offrymmau hyn, y rhai ſydd raid i Griſtianogion eu cyflwyno i DDUW, o honynt eu hunain, o'u Dâ, ac o'u Moliant. Ac oddiwrth y bwyd a'r ddiod offrwm, yr hwn a chwanegwyd at Aberthau mwy pwyſfawr, y daeth y bara a'r gwîn i gael eu harferu yn y goffadwriaeth o farwolaeth CRIST; yr hwn fara yn y Cymmun, megis y mae yn Sacrament, ſy'n arwyddoccau anianol Gorph CRIST; ond fel y mae yn Aberth y mae yn arwyddoccau dirgel Gorph CRIST; hynny yw, ei Eglwys: *Canys nyni yr hai ydym lawer*, (medd yr Apoſtol, 1 *Cor.* x. 17.) *ydym ûn Bara*: i'r pwrpas yma y darfu Sanct *Ignatius*, y Merthyr Sanctaidd, pan oedd yn barod iw offrymmu i fynu i DDUW trwy ferthyrdod, ddywedyd mae *gwenith* Duw ydoedd yr hwn oedd iw falu gan ddannedd y bwyſtfilod. Yn fuan gwedi hynny, fe ddarfu'r Eglwys angwanegu at y bara a'r gwîn olew a Thûs i wneuthur y bwyd offrwm

offrwm i fynu yn gyfan, yr hwn oedd yn ſefyll yn y pedwar peth hyn. Y gwir yw, nid ydyw'r cwbl, a allom eu hoffrymmu ar ein hachos ein hunain, ond y fath offrwm ac ydoedd bwyd a diod offrwm *Moſes*, nad aller moi breſentio i Dduw ond trwy rinwedd a haeddedigaethau Jesu Grist, y rhai ſydd yn eu cynnal; a rhain nid allant fyth eſgyn i'r nêf, ond gyd a mŵg cyſſegredig yr Aberth-lloſg mawr hwnnw, ſydd iw ddwyn i fynu yno. Canys o'r naill dû, nid ydym ni'n hunain, eu'n gweithredoedd, na dim arall a all fod yn eiddom ni, o honynt eu hunain, ond math o offrymmau gweinion di-ſylwedd, y rhai nid aller moi cyflwyno i Dduw mewn ûn modd arall, ond fel yr offrymmau eraill hyn yn angwaneg, y rhai o honynt eu hunain a ſyrthiant i'r llawr, oni chynhelir hwynt i fynu ac Aberth mwy grymmus a phwyſfawr: ac, o'r tû arall, nid ydyw'r Aberth grymmus a phwyſfawr yma yn cynnal, yn achub, ac yn Sancteiddio dim ond y dynion a'r pethau hynny, y rhai yn ol cyfraith *Moſes*, megis y teſtir y bwyd a'r ddiod offrwn iw dân hwn, a Sancteiddir ar ei Allor ef, a chyd ag ef a gyd gyſſegrir i Dduw trwyddo ef.

11. O'R achos hyn y mae'r Prophwyd, cyn gynted ac y pregethodd ddyfodiad yr Aberth tragywyddol yma, a'r cymmod a'r dedwyddwch a daenai efe drwy'r holl fyd, yn Prophwydo ar unwaith, y dygai'r Apoſtolion ai Dilynwyr (y rhai y mae efe yn eu meddwl, ac yn eu mynegi, mewn ymadroddion cyfaddas i'r gyfraith hon, tan yr hon y bu efe farw) Genhedlaethau o bob cyrrau y Ddaiar, megis *Offrwm i'r Arglwydd*, Eſau lxvi. Ac i'r un pwrpas y mae Sanct *Paul* ei hun yn sôn am ei Swydd Efengylaidd, megis *Offeiriadaeth yn Aberthu*; ac am y Cenhedloedd, y rhai a droeſai efe at GRIST, megis cynnifer o Aberthau, y rhai a ddarfu iddo ef eu preſentio i'r Arglwydd: *fel y byddwn weinidog i Jeſu Griſt at y Cenhedloedd, gan weini i Efengyl Dduw, fel y byddai offrymmiad y Cenhedloedd yn gymmeradwy, wedi Sancteiddio gan yr Yſpryd Glan*, Rhuf. xv. 16. Dyma'r achos a barodd iddo gymmeryd y ffordd honno, a ddarfu efe ei dilyn yn waſtadol, i beidio a phregethu'r ffydd yn JESU GRIST, heb wahodd yn ebrwydd y ffyddloniaid i offrymmu i DDUW, naill ai eu Cyrph, ai 'heneidiau, megis *Rhuf.* xii. neu eu gweithredoedd o Sancteiddrwydd, o fawl, o Eluſen, &c.

megis

megis ymhôb man arall: a rhain ydyn
yr offrymmau Yſprydol ſydd raid i bo
gwir Griſtion eu Cyſſylltu gyd a'u gil
ydd, iw tywallt ar y brîf Aberth o Jesu
Grist.

12. Nyni a wyddom nad oedd boſſib
erioed, ac byth ni fydd, i'r Gymanf
gyffredinol o'r holl Griſtianogion ar wy
neb y ddaiar ymgyfarfod yn yr ûn lle, a
yr ûn amſer, naill ai i ganlyn Crist e
gŷd ar unwaith, pan aeth efe i Offrym
mu ei hun troſdynt, neu i ſyrthio ar e
hwynebau ac ymoſtwng eu hunain i
llawr pan ymoſtyngodd yntef ei ben ta
bwys eu pechodau hwynt: y mae rhag
liniaeth Duw wedi gwaſgaru Dynion,
fynu ac i wared, trwy holl gyrrau
ddaiar, ac ymhôb oes, heb adael i'r fa
beth ai bod yn boſſibl i ddynion oll fel
gŷd-gyfarfod ar unwaith. Ond Abert
Crist, er nad oedd yn gynhwyſedig on
mewn ychydig oriau, ac ychydig lê,
herwydd y *dioddefaint*, etto gan ei fo
yn dragywyddol ac yn anfeidrol, ac fy
yr ûn fath, *am y Digonolrwydd a'r rhi*
wedd o bono, y mae 'n cyd-gyrhaeddy
yn berffaith gwbl at bob amſer a lê,
bryd bynnag, ac ym ha lê bynnag,
dêl yr aelodau gwaſgaredig hynny i o
frymmu eu hunain i Dduw gyd a'u Pe

A

Ac heblaw hyn, y mae'r ail ran oi ſwydd offeiriadol ef, yr hon ſy'n ſefyll mewn *cyfryngiad*, yn parhau etto fyth, ac a beru hyd ddiwedd y Byd; y fawl ni allafant gyfleidio ei groes ef a chyſſylltu gyd ag ef yn yr ûn amſer ac yr offrymmodd efe ei hun, a allant ei wneuthur bob dydd, ac ymoſtwng eu hunain, megis gwael offrymmau, llwythog o bechodau a thrueni, yn yr ûn amſer ac y mae efe etto fyth yn parhau i gyfryngu. Felly ymhob llê ac ar bob amſer, ac ar bob achos pwyſfawr, pa bryd bynnag y gwna'r ffyddloniaid breſentio eu hunain i DDUW gŷd a, a thrwy, ei Fab ef JESU GRIST, hwy a allant, etto fyth, dderbyn y ddawn o gymmeriad, a gwîr ffrwyth y per-arogl iachus hwnnw oddiwrth GRIST, yr hwn a bortreiadwyd trwy'r gyffelybiaeth homo o Sanctaiddrwydd, a ddarfu i'r offrwm arall ei dderbyn oddiwrth y brîf Aberth, pan gyſſylltwyd ac ef. Pan y mae'n ſiccraf dim, na wnâ holl haeddedigaeth a Gwaed CRIST fwyachub y dynion na neſhânt, ac na chyſſylltant eu hunain i unffurfiad a chymmunded ei farwolaeth ef, nac oedd yr Aberthau lloſg a pharhaus yn abl i gyſſegru'r bwyd hwnnw, y Gwîn hwnnw, yr Olew, a'r Thûs hwnnw, y rhai na

ddygpwyd

ddygpwyd ac na loſgwyd ar yr ûn Allo
gyd a hwynt.

13. YR awron, er bod holl ddyno
ryw wedi eu galw i'r Unffurfiad a'r Cym
mundeb yma yn nioddefaint CRIST,
yr amſer y dioddefwyd y dioddefiada
hynny, hyd na bydd dim amſer mwy
ac er bod gan ddyddiau eu'n bywyd pre
ſennol yr holl freintiau oedd unwaith ga
y ſaith uchel-wyl hyn, pan allai pob û
wregyſſu ei lwynau, bwyta ei fara croyw
a llâdd ei fuſtach ei hun, fel y daiſu
Offeiriad Aberthu yr oen Paſg (yr hwn
fuſtach a angwanegwyd at yr Oen Paſg
fel y gallai'r ddau fod yn fwy digono
i'r ſaith wŷl, heblaw'r arwyddôccâ
ddefodol a chyffelybol arall o hono megi
Aberth): y mae yn ſicer, er hyn ei gyd
fod dau ddiwrnod mwy pennodol ac ar
bennig, ymha rai y gwahoddir Criſtian
ogion, trwy achoſion mwy pwyſfawr
phriodol, i breſentio eu heneidiau, megi
ail offrwm ar Aberth eu Hiachawdwr
Y cyntaf a aeth heibio, ac hwnnw oedd
pan offrymmodd ein Jachawdwr ei hu
i farwolaeth; pan ddarfu Nêf a Daiar
y Deml a'r Beddau, oll grynnu wrth
dyrnod ai lladdodd ef: pan darfu'r eneid
jau duwiol, naill ai ſefyll yn ddiyſgog
megis y Forwyn fendigedig yn yn

groc

groes ef, neu, mewn modd, groeſhoelio
eu hunain gyd ag ef, gan guro eu dwyfr-
onnau, fel Merched *Jeruſalem*; a phryd
gallaſai pob Diſgybl, wrth weled y
ethau mawrion hyn yn dyfod ynghŷd,
od wedi eu cynhyrfu i ddywedyd, megis
Thomas, awn ninneu hefyd fel y byddem
farw gyd ag ef, Joan xi. 16. Yr amſer
rall, mwyaf addas a phriodol, y neſaf
t hwnnw oi wîr ddioddefaint ef, ydyw
imſer y Cymmun ſanctaidd; yr hwn, fel
r eglurwyd ef, ſydd *ddioddefaint Sacra-*
mentaidd; ym mha un, er nad yw'r
Corph wedi dorri, na'r gwaed wedi dy-
allt, ond megis *mewn dirgelwch Por-*
reiad; etto y mae'r ddau mor affeithiol,
c mor wîr offrymmedig er ein llês ni,
s awn iddo yn deilwng, a phan ddarfu'r
Oen ſanctaidd a nefol offrymmu ei hun
r y Cyntaf.

14. GAN hynny, pa bryd bynnag y
eſha Criſtianogion at y Dirgelwch of-
adwy hwn, ac at Oen DUW yn gor-
wedd (ac mewn modd wedi Aberthu) ar
Bwrdd cyſſegredig, yr hyn a berthyn
ddynt, yn bennaf er eu llês eu hunain,
mewn pwngc o Jechydwriaeth, gyſtadl
c mewn dyledſwyddau eraill, ydyw
Cymmeryd o honynt ofal mawr, na
hloffant yr Aberth mawr hwn, ac na

ddygant

ddygant oddiarno mo'r hyn ſydd ddy
ledus iw ganlyn, eithr ymddwyn e
hunain yn y cyfryw fodd, fel megis a
y cafodd y prîf Aberthau, a'r offrymma
eraill ai canlyhant, eu hoſgi yn yr
tân, ac eſgyn o honynt i fynu i'r Nêf y
ûn fflamm; felly y gallo Crist ai hol
aelodau gyd-ymddangos ger bron Dew
Crist mewn dirgelwch Sacramentaidd
a'r Aelodau gyd a'u Cyrph ai heneidia
yn cyd-offrymmu eu hunain, yn yr
amſer, a'r ûn llê, a thrwy'r ûn offrym
miad; fel pwy bynnag ſy'n ufudd ac y
ddyfal wrth yr Aberth hwn, gan eu bo
yn ei wneuthur er coffa am eu Hiach
awdwr unwaith wedi marw yn wîr-ddiau
a phob dydd yn marw mewn modd Sa
cramentaidd troſdynt *(gwnewch hyn
côf am danaſi)* y maent yn ei wneuthu
yn y cyfryw fodd, 1. Ac y gwedda
Ddiſgyblion ffyddlawn, y rhai a ymroan
i farw tros, a chyd a'u Meiſtr. 2. Megis
gwîr a diffuant aelodau, na fedrant mo
byw heb eu Pen. 3. Megis pechadur
iaid gwîr-edifeiriol, y rhai ni feiddian
ddiſgwil nebrhyw ran yn y gogonian
a'r Ymwared, nac eiſtedd ar nebrhyw
law (na deheu, nac aſſwy) o'u Hiach
awdwr, oni chymmerant, yn ol eu ffordd
hwy, yr ûn Bedydd, onid yſant yr u

Cwppan

Cwppan, ac onid ânt yn wir i gymmun-eb yr Aberth hwnnw, a'r Dioddefaint wnnw a ddarfu eu Meiſtr, eu Pen, a'u achawdwr fyned trwyddo, a'r rhai y nae'r Sacrament hwn yn eu rhwymo ddynt.

15. YR awron, y mae'r Cymmun yma n gofyn, yn gyntaf, *unffurfiad gweith-edoedd*, a allai fod, mewn rhyw fodd, yn yfattebol i'r hyn oll a wnaeth CRIST negis *Offeiriad*: yn ail, Unffurfiad arall *farwhâd* a *dioddefiadau*, a allai hefyd od yn gyfattebol i'r hyn a ddarfu iddo dioddef, megis *Aberth* gwir-fodd. Megis *Offeiriad* (canys, ar yr achos yma mae'r holl Griſtianogion yn ol Eſampl u Jachawdwr, yn myned yn Offeiriad-u, gan eu bod yn offrymmu eu hunain DDUW) i ddilyn ei ol-ef yn hollawl, ac gymmeryd arnynt yr holl Barattoad, r ûn drefn o fuchedd, a'r ûn dueddiad eddwl, a welwyd yn y *Melchiſedec* ben-igedig yma, pan breſentiodd efe ei hun DDUW. I'r pwrpas yma y gwnâ'r ddolwr ffyddlawn, gan breſentio'r enaid r Corph hwnnw a gymhwyſodd DUW ido ar ei ddyfodiad i'r Bŷd, eu goſod i wr wrth ei Allor ef.

16. PA beth bynnag a ddarllennwn darfod i GRIST ei wneuthur, oi Baſg

diwaethaf

diwaethaf hyd at ei ddloddefaint, rhai
ei fwrw at y rhan gyntaf o'n cyd-ffurfia
a CHRIST, hyd y gallwn ei ddilyn; megi
pan olchodd Draed ei Ddiſgyblion, pa
weddiodd tros ei Arteithwyr; pan dder
bynniodd mor addfwyn gynddeiriogr
wydd yr Adyn ehud ai tarawodd, ga
adael y cwbl ar DDUW; pan ddarfu idd
mor gariadus ofalu am iachau yn dyne
glûſt *Malcus* ryfygus; pan na ddarfu i
doſtaf ing ef erioed moi attal rhag Cy
furo'r *Edifeiriol* ar y Groes, *heddyw*
byddi gyd a mi ym Mharadwys, Luc xxii
43. na rhag athrawiaethu Eneidiau duw
iol; *chwi ferched Jeruſalem, nac wylwch*
&c. na rhag gweddio tros ei elynie
creulonaf; *Oh Dâd! maddeu iddynt, can*
ni wyddant beth y maent yn ei wneuthur
na rhag gofalu am ei geraint, *ha wraig*
wele dy Fab, &c. *Joan* xix. 26. Ga
hynny, hyn a fydd raid bod effaith y fat
dueddfryd a hyn, yn gweithredu ac y
dioddef; y gwnâ DDUW, gan edrych y
gyntaf at *Abel*, ai gael ef yn llawn o
Yſpryd hwnnw o Oſtyngeiddrwydd, Ca
riad, addfwynder, ac Amynedd, yr hw
oedd hefyd yng NGHRIST JESU, *Phi*
ii. 5. (y gwnâ DDUW, meddaf) weled y
dda edrych hefyd ar ei Aberth hwn
Gen. iv. 4.

17. HEBLAW

17. HEBLAW'r unffurfiad cyntaf yma
Dueddiadau Sanctaidd, ac fel pettae o
ardd-wiſgoedd offeiriadol, rhwng JESU
Ddiſgyblion, fel y deallir hwynt yn
yd-Offeiriadau: rhaid bod hefyd un-
furfiad o farwolaeth a dioddefaint rhyng-
dynt, fel y Cymmerir yn *Aberthau*.
Nid yw'r *unffurfiad* cyntaf, ſy'n perthyn
ſwyddau offeiriadol, un amſer mor fanwl,
ac mor gyflawn ac i harddu offeiriadau
-radd a holl gyfaddas wiſgiad *Aaron*, ei
Ddalen o aur coeth, ei *Ephod* o wniad-
waith, neu ei *Feitr*, neu ei *ddwyfronneg*;
tto nid yw, ûn amſer, mor ddiffygiol,
ad eill efe, a nhwythau, yn weddaidd
digon, er anhebycced a fo eu *gwiſgoedd*,
ffeiriadu wrth yr ûn *Allor*. Yr ail un-
furfiad, yr hwn ſy'n perthyn i'r *Aberth*,
ydd etto lawer byrrach na'r cyntaf, gan
fod rhwng pethau, nid yn unig yn an-
hyfartal mewn graddau o berffeith-
wydd, eithr a rhagoriaeth mawr rhyng-
dynt a'u gilydd yn eu natur. Canys
n wîr nid allaſai r Aberth o greadur
yw, fel yr oedd yr Oen, ragori ddim
ymaint mewn natur oddiwrth offrym-
au meirwon (y cyfryw ac oedd y peil-
ad yr olew, a'r Gwîn, y rhai, megis
il Aberthau, a angwanegwyd at y cyn-
af) cymaint, meddaf, ac y mae'r Aberth

o Jesu Grist yn rhagori ar yr hyn y
ydym ni ai Gristianogion truain mewn
natur, neu a allom ni ei offrymmu
Duw mewn Aberth. Canys o'r dda
Aberth hyn, o herwydd eu Natur pu
odol, y naill sydd nefol, holl-alluog,
chwbl-sanctaidd; a'r llall yn ddynol, eg
wan, a phechadurus: ac, o herwydd y
amryw ddibennion o honynt, y naill
wnaethpwyd i *ynnill* ac i *weithreda* Cym
mod ac Jechydwriaeth, a'r llall yn unig
i gael rhyw gymmwysdra iw *dderbyn*. Y
Aberth cyntaf a'r pennaf sydd yn rho
ei gyfiawnder i'r ail; a'r ail a deflir ar y
Cyntaf megis baich, yn unig i osod arn
ei holl berthodau. Er hyn ei gyd, megis
tan y gyfraith y darfu'r *Oen*, a'r *offrwm*
a angwanegwyd atto, ymgyffyllu mewn
un Aberth, oblegid eu bod ill dau wed
eu hoffrymmu ar yr ûn Allor, ai llosg
yn yr ûn tân: felly tan yr Efengyl, Crist
ai Bobl a gyfrifir yn ûn offrwm, pan fo'r
ddau, bob ûn yn ei ffordd briodol ei hûn,
wedi eu Cyffegru gan yr ûn groes; ac
ydynt, mewn rhyw fodd, yn gyd-ufudd
i farwolaeth. *Canys os gwnaed ni yn gyd-*
blanhigion i gyffelybiaeth ei farwolaeth ef;
felly y byddwn i gyffelybiaeth ei adgyfodiad
ef, gan wybod hyn, ddarfod croesholio ein
hên-Ddyn ni gyd ac ef, &c. Rhuf. vi. 5, 6.

18. Trwy'r

18. TRWY'R gyffelybiaeth, neu'r unffurfiad yma o ddioddefiadau, CRIST a fu arw unwaith i fodloni toſtedd y gyfraith, c felly rhaid i Griſtianogion ddileu eu echodau a marwhau eu hunain, fel rhagaw y dilynant Gyfiawnder yr Efengyl. e ddarfu CRIST, tra y parhaodd y ymheſtl drom ofnadwy honno, a wnaeth ddo wylo, a dolefain yn uchel (*Matt.* 6, 50. *Luc* xxiii. 46. *Hebr.* v. 7.) ddiddef y fath goſpedigaeth drom ac oedd bl i fodloni Cyfiawnder Duw; ac rhaid w Gorph dirgel ef, bob dydd, gymeryd arnynt y fath dadol geryddon, a llant orchfygu eu pechodau hwynt. Ar ir, yr oedd yr Jachawdwr Sanctaidd yn odlon-ewyllyſgar i gael ei groeſhoelio, m fod y dihenydd echryſlon yma yn gwbl angenrheidiol i fwrw ymaith y Dioddefaint i ddyfod; ac y mae'n rhaid w wîr aelodau ef fod yn fodlon i groeſhoelio eu hunain gyd ag ef, am fod y gwaith dyledus hwn mor gwbl angenheidiol i ddiniſtrio ynddynt, o feſur chydig, y llygredigaeth naturiol hwnnw ydd ynom, ac a ddygai arnom drachefn i ddigofaint ef.

RHAN VIII.

Ynghylch yr Offrwm o'n Meddiannau a'n Heluſeni, neu'r Aberth o Gyfiawnder.

1. GYfraith bennodol o'r eiddo Duw trwy law *Moſes*, a fynych adrodd hefyd, ac heb ei diddymmu gan GRIST ydyw hon, na ryfyga ûn addolwr ym ddangos ger ei fron ef yn wag-law Rhaid i ddwylaw'r Criſtianogion diffu ant, wrth dderbyn y Cymmyn ſanctaidd fod yn llawn o bedwar math gwahan rhedol o Aberthau, 1. Yr Aberth Sa cramentaidd a choffadwrus o GRIST. Y gwîr Aberth offrymmedig o honyn eu hunain. 3. Yr offrwm gwîr-fod o'u Meddiannau. 4. Yr Aberth-hed o'u Moliant.

2. Y CYNTAF, megis yn portreiadu Aberth a offrymmwyd ar y Groes, ydy ſail y tri eraill, yn enwedig o'r ail, hwn ni ddylid fwy ei wahanu oddiwrth nac y gwahenir y rhannau oddiwrth cyfan, neu'r Corph oddiwrth y Pen, mae'r ddau hyn wedi eu Cyſſylltu yn hŷd mor ddiwahan, ac i Sanct *Awſt* fwy nac unwaith ddeall, wrth Gorp CRIST yn y Cymmun ſanctaidd, ddirg

Gorp

Gorph CRIST, yr hwn yw ei Eglwys. Ac 'mae Sanct *Cyprian* yn dywedyd yn bendant y cynhwyſir, ac yr ûnir CRIST ai bobl ynghŷd yn y Cwppan ſanctaidd (y naill wedi arwyddoccau wrth y gwîn, a'r llall wrth y Dwfr) fel nad yw CRIST ddim heb ei Bobl, na'r Bobl heb eu Hiachawdwr.

3. NID yw'r trydydd a'r pedwerydd, y rhai ydynt Aberthau o'n Meddiannau a'n Moliant, ondi yr hyn ſydd ddyledus i ganlyn yr ail (hynny yw, yr Aberth o honom ein hunain) ac hynny mor naturiol ac y mae dail a ffrwyth yn canlyn y pren; ac mor naturiol ac i'r hyn ſydd *gennym*, a'r hyn a *allom*, fod yn angenheidiol i ganlyn yr hyn *ydym*. Y mae'n hyſpys i'r holl fyd, fel yr oedd yr Aberthau anâfus a chlôffr yn ffiaidd tan y gyfraith; ac, i yn wir, nid yw Cyrph heb Bennau, Eneidiau heb eu Cynheddfau, Dynion heb eu dyledſwyddau priodol, onyn gwell tan yr Efengyl. Nid all y ath Aberthau diffygiol anâfus mor bod n gyfaddas gyd a hwnnw o'r eiddo RIST, yr hwn oedd berffaith gwbl a hyfan. Gan hynny, megis pan offrymom unwaith ein hunain i DDUW, y mae in Heneidiau a'n Cyrph yn dyfod yn berthau canlynol i Aberth JESU GRIST:

felly, trwy'r ûn Cyfiawnder, y mae
rhaid i'n holl ddâ, a'n holl Wasanaeth
megis ail offrymmau, ganlyn yr Aberth
o honom ein hunain. Ac megis, yn y
Aberth beunyddiol, nas offrymmwy
erioed mor Oen heb ei fwyd-offrwm
na'r bwyd-offrwm hwn heb ei ber-arog
ei wîn, ai olew; felly ni ddylai trag
wyddol Fab ac Oen Duw, yr hwn
welodd yn dda offrymmu ei hun trosom
gael moi offrymmu heboſi; a pha ry
bynnag yr offrymmwyf i fy hun trwydd
ef, a chŷd ag ef, ni ddylwn mor y
ddangos, megis bwyd-offrwm ſych a d
flas, heb ſûgn, heb arogl peraidd, h
yr holl Dueddiadau ſanctaidd o baro
wydd a llawenydd i ufuddhau ac i ryn
bodd fy Nuw ymhôb gweithred d
o ba rai yr oedd yr Arogl peraidd,
gwîn, a'r olew, tan y gyfraith, yn g
felybiaethau cyſſegredig. Ar air,
bryd bynnag yr offrymmom ein hun
yr ydym, tan ûn, yn offrymmu yr h
oll ſydd ar ein helw, a'r hyn oll ſydd
ein gallu; ac felly, yn ganlynol, yr yd
yn ymrwymo am y cwbl, y cyſſeg
hwynt i Ogoniant Duw; ac y rhodd
fynu iw ddwylaw ef, y treulir i'r
ddibennion, ar y cyfryw achoſion ac a

ſerau, ac y gwelo efe yn dda i orchymmyn ai ordeinio.

4. CLYWCH, gan hynny, chwedl y gwr doeth; *gwilia ar dy droed pan fyddech yn myned i Dŷ Dduw rhag i ti roi Aberth ffyliaid*, Preg. v. 1. Aberth cyſtadl a gwaith ffŵl ydyw offrwm y Dyn heb y Dâ ſy'n ei ganlyn, fel pettae'r eſcyrn Sychion heb y gïau a'r cnawd ſydd yn eu canlyn ac yn eu cuddio. Yr ûn fath weithred o Adyn annuwiol ydyw darnio a chloffi naill ai'r Aberth ſanctaidd a wnaeth yr JESU iw Dâd, neu'r Sacrament ſanctaidd, a ordeiniodd efe iw Eglwys, neu'r offrwm ſanctaidd hwnnw a welodd efe yn dda, ar ol ei Aberth, ac wrth ei Sacrament, ei ofyn gennym. Ac, wedi i ni ei breſentio, y mae yn weithred, nid yn unig o Anraſlondeb mawr, eithr hefyd o gymmaint Cyſſegr-yſpail ac oedd hwnnw o'r eiddo *Ananias*, darn-guddio, heb gennad, ûn rhan o'r cwbl hwnnw a ddarfu i ni ei eiddûno i waſanaeth Duw.

5. NI wedda i *Iſrael* yn unig fyned allan o'r *Aipht* yn amgen na chŷd a'u holl blant, a'u haniſeiliaid, a'u golud, a'u Dâ, iw hoffrymmu i'r Arglwydd, fel y gallo gymmeryd iddo ei hun naill ai'r cwbl, neu'r cyfryw ran a welai efe yn dda i ddewis, *Exod.* x. 25, 26. Yr

oedd yr holl Genhedloedd i fyned ac i roddi eu hunain i wasanaeth Duw gyd a eu Haur, a'u Harian, eu Camelod, a'u Hasſynnod, a'u Cerbydau yn llwythog o'u holl olud; yr *Aiphtiaid* a'u holl gyfoeth, *Tyrus* a *Sidon* a'u *Marſiandiaeth*, Esay xxiii. 18. ac Pen. lx. 7, 9. Y Doethion o'r dwyrain gyd a'u Thûs, a'u Myrr, a'u Haur; ac felly pob pechadur, ar ei ddychweliad at DDUW, oedd i gyſlegru'r cwbl i JESU GRIST ac i wasanaeth ei Eglwys. O'r inunud hwnnw y darfyddo i ni, trwy nebrhyw wîr weithred o ddychweliad, o ffydd, o edifeirwch, neu adduned, roddi ein hunain i fynu i GRIST, yr hwn hefyd ai rhoes ei hunan i fynu i ninnau; y mae'r cwbl ſydd yn ei feddiant ef, megis trwy rinwedd y Cymmundeb hwn rhyngom a'n gilydd, yn myned yn eiddo ni; ſef, ei râs, ei anfarwoldeb, ai Ogoniant ef; ac felly y mae'n eu rhoi i ni, yn ol yr amſerau a'r graddau hynny, y mae efe yn eu gweled yn oreu er ein iechydwriaeth ni: yn yr ûn ffunud y mae'n canlyn, i'r hyn oll ſydd eiddom ninnau fyned yn eiddo ef, fel y gallo efe ei gymmeryd, yn ol pa feſur ac amſer bynnag, y gwelo efe oreu er ei Ogoniant ei hun. Nid oedd y ddau Aſyn, a ddanfonodd efe am danynt trwy

ei

ei Ddiſgyblion, fel y gallai farchogaeth arnynt i *Jeruſalem*; na'r Oruwch yſtafell, a orchymmynnodd efe iw pharattoi fel y gallai fwyta'r Paſg ynddi, ddim mor gwbl yn eiddo ef, ac ydyw'n heinioes ni, neu ein Dâ, *&c.* pa bryd bynnag y bo *ar yr Arglwydd eu heiſieu*, Matt. xxi. 2, 3. Luc xxii 11. Yr oedd y pethau hynny yn ei eiddo ef yn unig trwy iawn o feddiant, yr hyn ſy'n naturiol yn digwydd iddo ef, megis i Arglwydd Frenin a Duw oddiwrth bob peth y mae'n ei greu, neu yn ei achub; ond ef a biau rhain, heblaw hynny, am i ni, gyd a ni'n hunain, eu rhoi iddo. Pan alwo am y rhai cyntaf, anghyfiawnder mawr a fyddai ei naccau: eithr naccau'r diwaethaf a fyddai yn Gyffegr-yſpail amlwg. Yr hyn ydym, yr hyn ſydd ar ein helw, ac yn ein gallu, ac a fedrwn ei roddi, y cwbl hyd at y dodrefnyn ſalaf yn ein tai, a gynhwyſir, ac a Sancteiddir yn yr ûn Cyffegriad yma. *Yn y dydd hwnnw y bydd ar ffrwynau'r Meirch Sancteiddrwydd i'r Arglwydd*; *bydd pob Crochan yn Jeruſalem a Judah yn Sancteiddrwydd i'r Arglwydd*, Zech. xiv. 20, 21.

6. Y cyffegriad yma, trwy ba un y mae'r addolwr yn offrymmu ac yn rhoi ei hun i fynu gyd ai holl berthynaſau i

DDUW, os cyflawnir yn iawn ac yn ddy-
ladwy, ydyw'r peth, yn gyntaf, fy'n
gwneuthur nyni a'n heneidiau yn gym-
mwys-addas i Aberth a Grâs CRIST, ac
yn eu derchafu hwynt hyd at natur,
hynny yw, y cyflwr o ſanctteiddrwydd
ac anfarwoldeb Duw: yn ail, am y peth-
au Cyſſegredig, y mae'n fraint rhyfeddol,
yr hwn, yn y diwedd, fy'n cynhyddu ac
yn helaethu yn anfeidrol bob peth a ym-
adawer ac ef fel hyn; y mae'n bendith-
io'r mwyniant o hono, er nad ydyw ond
wedi ei breſentio, cyhyd ac y gallom ei
fwynhau, ac yn y diwedd yn ei newid
ef, pan nad allom ei fwynhau ddim hwy,
am y fath daledigaethau buddiol, y rhai
a aller eu tybied i fod, nid y cyfryw a
phan drowyd y dwfr yn Win, neu Lŵch
i aur, ond y cyfryw a phed faem i dyb-
ied Cwppaned o ddwfr wedi droi yn
afonydd bywiol o gyſſuron tragywyddol,
a Llwch *Iſrael* yn gynnifer o Sêr yn y
Nefoedd, Bythod bychain o glai yn
Balâſau Brenhinoedd, a chyſgodion gwâg
a darfodedig yn wîr feddiannau tragy-
wyddol: *Buoſt ffyddlawn ar ychydig, mi*
a'th oſodaf ar lawer, &c. *Matt.* XXV. 21.
Ond os na chyflawner yn iawn y gyfraith
o'r Cyſſegriad yma; os daw *Leſi* i
waſanaethu *Aſtaroth*, ar ol iddo gyſſegru

ei

ei hun i DDUW; ac os cymmerir offrymmau'r bobl iw treilio ar halog achoſion gwedi iddynt gyffwrdd Allor yr Arglwydd; yno y mae cynnifer a chymaint o felldithion trymion iw diſgwil, ac ſydd o'r tû arall (os iawn arferir ac y treulir hwynt) o fendithion mawrion iw diſgwil. Ac felly, ar bob Yſtyriaeth, yn gyſtadl o Ddoethineb ac o Ddyledſwydd, yn gyntaf, rhaid i ni roddi'r cwbl i DDUW; ac wedi i ni eu rhoddi, rhaid i ni ochelyd pob *Cyſſegr-yſpail* ac *halogrwydd*, nid yn unig megis y ddau bechod atcaſaf, eithr hefyd megis y ddau ddrwg echryſlonaf a mwyaf ofnadwy. Y *Cyſſegr yſpail* yn darn-guddio, ûn amſer, pan fo Duw yn ei ofyn, y peth a gyſſegrwyd, fel hyn iddo ef: *a halogrwydd* yn camdreilio ar achoſion afraid, neu waeth, y rhan honno o hono a welodd efe yn dda iw ganiadhau tu ag at ein angenrheidiau priodol a rhyw achoſion eraill cyfleus a chyfreithlon.

7. YR awron er bod CRIST ein Jachawdwr bendigedig, trwy'r Aberth tragywyddol hwnnw o hono ei hun, yn offrymmu ei hun yn rhinweddol ar bob achoſion; a ninnau o'n rhan ein hunain hefyd yn offrymmu ein hunain a chwbl oll ſydd eiddom gyd ag ef amryw ffyrdd eraill, heblaw hwnnw o'r Cymmun ſanc-

taidd; megis ar ein troedigaeth a'r weithred o ffydd ynddo ef, "CRIST (medd "Sanct *Awſtin*) a aberthir er jechydw- "riaeth pob pechadur yn y munud y "mae'n edifarhau, ac yn credu ei fod "ef wedi ei Aberthu;" ac yn ein Bedydd, "canys y mae pob ûn yn offrym- "mu'r Aberth o ddioddefaint yr Ar- "glwydd yn yr amſer y Cyſſegrir ef "trwy ffydd y dioddefaint hwn, ac y "bedyddir ef yn Griſtion," medd yr ûn awdur Sanctaidd. "A Bedydd CRIST "yw Gwaed CRIST," medd un arall, ſef, *Cryſoſtom*. Er hyn ei gyd, am fod CRIST yn offrymmu ei hun troſom yn y Cymmun ſanctaidd, mewn modd Sacramentaidd mwy parchedig a chyhoedd (hyn yw'r achos paham y mae'r goffadwriaeth o Aberth, yn cael ei gadw yn y Cymmun ſanctaidd, yn gyffredinol yn cymmeryd yr enw o'r Aberth ei hun; fel y mae Sanct *Awſtin* yn aml yn ei egluro) yr ydym ninnau ynte yn rhwymedig mewn modd mwy pendant, i adnewyddu'n holl Aberthau, holl addunedau ein Bedydd, holl flaen-ffrwyth ein troedigaeth, a'r holl addewidion enwedigol, a ddarfu i ni, ondodid, eu gwneuthur, naill ai wrth edifarhau o honom am ryw bechod, neu ar ein hym-

wared

wared oddiwrth rhyw berigl yn ein bygwth, neu ar ein gwellhâd o ryw drwm glefyd, neu wrth dderbyn o honom ryw drugaredd ryfeddol nodedig arall, pa ûn bynnag a fo, ai tu ag attom ein hunain neu'n Cyfeillion. *Deuaf i'th Dŷ a phoeth-offrymmau, talaf it' fy addunedau, y rhai a adroddodd fy ngwefuſau, ac a ddywedodd fy ngenau yn fy ngbyfyngder*, Pſalm. lxvi. 13, 14. Y pryd hynny, ac yno, wrth Allor Duw, y mae'n rhaid i ni dalu 'r holl addunedau, y rhai, oblegid rhyw rwyſtr neu gilydd, ni chawſom etto mo'r Cyfleuſtra iw cyflawni; a goſod o newydd, o Gymmun i Gymmun, fel y darfu iddynt y Bara-goſod o Sabbath i Sabbath, yr holl weithredoedd eraill, y rhai, trwy eu natur eu hunain, a'n dyledſwydd ninnau, nid ellir fyth mo'u cyflawni yn ddibennus ond gyd a diben ein Dyddiau.

8. FELLY y gwna'r *Iſrael* newydd ganlyn Eſamplau'r hen *Iſrael*, y rhai o amſer i amſer, o hyd, a adnewyddaſant, naill ai yn *Miſpeh*, neu *Gilgal*, &c. y Cyfammod hwnnw a ddarfu'r Arglwydd ei wneuthur gyd a hwynt yn *Sinai*. Gwîr yw, ni ddarfu 'r Arglwydd ddim eilwaith, y prydau hynny, darânu a 'r Tarânau hynny, a wnaethant unwaith

i 'r

i'r Mynyddoedd grynnu; megis nad ydyw, yn ein Heglwyſydd, yn ail-wneuthur y Dioddefaint hwnnw a wnaeth i nerthoedd y Nêf alaru a chrynnu: er hynny ei gyd, megis y gallodd *Joſuah*, *Aſa*, *Joſiah*, *Jehoiada*, a gwyr Sanctaidd eraill, oddiwrth eu Meiſtr ai Harglwydd, Siccrhau'r Bobl, nad oedd y Cyfammod a ddarfu iddynt ei adnewyddu (megis yn *Sichem*, Joſ. xxiv. 25. 2 *Cron.* xv. 12. ac Pen. xxiii. 16.) ddim llai ei rym, naill ai i fendithio'r ſawl ai cadwo, neu i ddiniſtrio'r ſawl ai troſeddo, nac ydoedd, pan ddarfu *Moſes* a'r Angylion ſanctaidd ei gyhoeddi ar y cyntaf yn *Sinai*: felly yr awron y geill Gweinidogion ein Harglwydd JESU GRIST, a chanddynt yn eu dwylaw Sacramentau'r Efengyl (gwîr inſel, a *llechau*'r gyfraith newydd) eu dwyn allan ai rhoi, megis tyſtiolaethau nad yw Aberth eu Meiſtr ddim llai ei rym ai nerth i achub eneidiau Dynion, pan offrymmer i ddynion, ac, mewn modd Sacramentaidd, a offrymmir o newydd i DDUW, yn y Cymmun ſanctaidd, na phan offrymmwyd gyntaf ar y Groes. A dyma'r achos paham y dylai'r holl Griſtianogion ffyddlawn ddwyn yngh'yd eu holl Offrymmau, eu haddunedau, eu calon-gyſtuddiau, ai haddewidion:

Ha!

Ha! wyr, frodyr, beth a wnawn ni? ac na *atto Duw* i mi *fyth ymffroſtio mewn dim* ond *yngrhoes* fy *Jachawdwr*; fel y gwnaeth yr *Iſraeliaid* trwy addaw o ddifrif ar y cyffelyb achoſion; *nyni a waſanaethwn yr Arglwydd ein Duw; yr Arglwydd eſe fydd Dduw, yr Arglwydd eſe fydd Dduw*, 1 Bren. xviii. 39. a'r ddwyblaid, yr *Iſraeliaid* a'r Criſtianogion, yn ſiccrhau eu cyhoedd addewid o ufudd-dod, ac ymoſtyngiad eu Cyrph, ac ymroad eu Meddyliau, ac ail Aberthau; y naill ac Aberthau Teirw a Hyrddod, a'r lleill ac Aberthau o Eluſeni a Gweithredoedd dâ.

9. WRTH hyn y gwelir yn hawdd fod ein Cymmun ſanctaidd, gan mwyaf, yn gyfattebol i'r gwleddoedd hynny a gaſglodd ynghŷd Bobl *Iſrael* yn gyntaf i ymddangos ac i ymoſtwng eu hunain gerbron yr Arglwydd ac *Aberthau am eu pechodau*, ac yno i ofod ar yr Allor y math arall o Aberthau a arferaſant eu galw yn *Offrymmau-hedd*, a'r rhai a ordeinwyd i ddatcan eu diolchgarwch i DDUW, a'u Cariad i Ddynion. Ac yn y Gymdeithas garedigol hon o Ddirgelion, a'r duwiol-ſwyddau ſy'n eu canlyn, fe eill *Moſes* etto a'r ûn awdurdod orchymmyn i'r *Iſrael* hên a newydd, pob ûn yn ei herwydd, *Cadw Gŵyl i'r Arglwydd*

dy

dy Dduw, ac offrwm gwir-fodd dy law, yr hwn a roddi, megis i'th fendithio yr Arglwydd dy Dduw: a llawenycha ger bron yr Arglwydd dy Dduw, ti, a'th fab, a'th ferch, a'th Wâs, a'th forwyn, a'r Lefiad a fyddo o fewn dy byrth, a'r dieithr, a'r ymddifaid a'r Weddw: ond nag ymddangofed neb o flaen yr Arglwydd yn Wâg law, pob ûn yn ol rhodd ei law, yn ol bendith yr Arglwydd dy Dduw, yr hon a roddes efe i: ti, Deut. xvi. 10, 11, 16, 17.

10. DARFU'r prif Griſtianogion erioed ei gymmeryd felly, ai ymarfer hefyd yn oeſtadol. Canys pa bryd bynnag yr ymgyfarfuant yn eu gweddiau a'u Defoſiwn, y rhan fwya pwyſfawr ac arferol o ba rai oedd y Cymmun ſanctaidd; hwy a wnaethant yr arfer o'u holl dda ai golud yn gyffredin yn eu plith eu hunain: ac yr oedd rhannu eu hoffrymmau yn canlyn y rhanniad o'r Cymmun mor waſtadol, ac iddi fod yn anhawdd gwybod pa'r ûn o'r ddau y mae Hiſtôri'r Apoſtolion yn ei feddwl i arwyddoccau wrth *Dorriad y Bara* a grybwyllir mor aml yn yr *Actâu*. Rhai gwŷr duwiol a dyſgedig a dybiaſant, mae'r haelioni a'r Syberwyd ymma o'u haml offrymmau, y rhai, yn y prif amſeroedd, oeddynt yr holl gyfoeth oedd ganddynt iw dreilio ar achoſion a phwr-

paſau

paſau duwiol a chrefyddol, a wnaeth i'r pwngc hwn o ffydd ſydd yng Nghredo'r Apoſtolion, yn canlyn yn neſa at hwnnw o'r *Eglwys lan Gatholic*, hynny yw, *Cymmun* neu *Gymmundeb y Saint*. Ond, beth bynnag, er mai nad hyn oedd y pwngc hwnnw o ffydd a feddylir yn y fan honno, etto yr oedd yn weithred o Dduwioldeb mor aml, mor gynnefin ac angenrheidiol yn y dyddiau hynny ac i Sanct *Luc* ei oſod ym mhlith y duwiol ſwyddau Cyſſegredig eraill hynny, y rhai ſy'n cynnwys holl ddyledſwydd a Gwaſanaeth yr Eglwys. *Ac yr oeddynt yn parhau yn Athrawiaeth ac yng'hymdeithas yr Apoſtolion, ac yn torri bara, ac mewn gweddiau*, Act. ii. 42. Fel hyn yr oedd y prîf Griſtianogion, yn union-dêg fel y darfu *Dafydd* ſanctaidd brophwydo y byddant, yn Bobl a ddeuant ac a offrymmant eu hunain gyd a'u *hoffrymmau gwir-fodd* i GRIST yn *nydd ei nerth ef*; ac o'r tywalltiad rhyfeddol hwnnw o radau a ymddangoſai, fel gwlith nefol yn rhyfeddol, drwy ddwyn o hono y fath gnŵd cynnyrchol a ſydyn o ddeiliaid a Milwyr wedi eu harfogi yn barod iw Waſanaeth ef, *Pſal.* CX.

II. I'R pwrpas yma y darfu'r Eſgobion gynt, yn eu Heglwyſydd, oſod i fynu

fynu ddau o fyrddau; ûn o honynt oedd
o'r tû fewn i'r fan honno lle'r oedd
Gweinidogion yn gweini wrth yr Allor
a'r lle'r oedd Llen o bwrpas i gau allan
y ſawl na chymmûnant rhag gweled,
dyneſhau at, y dirgelion ſanctaidd hyn
y llall oedd yn y fan, lle y gallai'r hol
Bobl ddyfod yn hŷf i offrymmu eu rhodd
ion, rhan o ba rai a ddygpwyd, gwed
hynny, gan y Diaconiaid at fwrdd
Cymmun: i'r fan yma y dygpwyd of
frymmau gwir-fodd y bobl, Bara, Gwîn
Olew, Gwlân; weithieu Lliain, Arian
a pha beth bynnag arall a allai fod y
lleſol i'r Eglwys, (hyd oni ddarfu, trw
Ganonau goſodedig yr Eglwys, terfynu
Offrymmau hynny, yn eu rhyw yn unig
at y cyfryw bethau a alleſid wneuthu
defnydd o honynt, tu ac at y Sacrament
au, a Gwaſanaeth yr Eglwys) a'r cwb
hyn a offrymmwyd i DDUW gan yr hol
Griſtianogion megis *Aberth beunyddiol*
A gwedi'r Criſtianogion offrymmu
DDUW eu Dâ; yr Offeiriad, yr hwn
derbynniodd, a weddïai yn gyhoedd
DDUW, *teilyngu o hono edrych ar eu bo*
frymmau hwynt, megis y darfu iddo un
waith edrych ar offrymmau *Abel*, *Noa*
ac *Abraham*. Allan o'r Offrymmau hy
y Cymmerwyd defnyddiau'r Cymmu
ſanctaidd

ſanctaidd, ac a'u cyflwynwyd ar y bwrdd arall, lle y bendithwyd ac y Cyſſegrwyd hwynt gan yr Eſgob, neu'r Offeiriad, ac a'u rhannwyd ganddo i'r Bobl, megis oddiwrth DDUW, iw ſiccrhau hwynt, ddarfod iddo dderbyn yn gymmeradwy hwynt hwy eu hunain, a'u hoffrymmau; ac yn lle'r Bara a'r Gwîn, a offrymmaſant hwy ar ei Allor ef, naill ai megis blaenffrwyth neu Bortreiadau o'u holl Dda, y gwelodd Duw yn dda dalu adref iddynt hwy, nid Bara a Gwîn yn unig, eithr y cyfryw fara a Gwin bendigedig, ac oeddynt y cyſſegredig Ddirgelion o Gorph a gwaed ei anwyl Fâb ef, ac yn ſiccrhâad diſiomedig o'r holl Ddoniau a'r Bendithion oedd iw canlyn, ac yn ſefyll wrthynt. Hyn yw'r rheſwm paham y mae'r hên Dadau (yn enwedig St *Irenæus)* y rhai nid oedd iddynt achos i fod mor fanwl neu ofalus i wneuthur y fath ragoriaeth gywraint yn natur dwy o'r duwiolſwyddau Cyſſegredig, y rhai yn waſtadol a aethant ynghŷd (yr achos paham, meddaf) nad ydynt yn petruſo ſiarad am y Cymmun bendigedig, yn gyffredin, megis Sacrament neu Aberth, oblegid ni ddarfu'r prîf Griſtianogion erioed dderbyn y Dirgelion Cyſſegredig hynny, ond gwedi iddynt wneuthur eu hoffrym-

hoffrymmau; ac oblegid y cymmerwyd y dirgelion hynny, a dderbynniasant, yn arferol, o herwydd eu defnydd, allan o'r Bara a'r Gwîn hwnnw a ddarfuasai iddynt hwy o'r blaen eu hoffrymmu.

12. YR awron i ddwyn y cwbl hyn yn nes adref, y mae Cyfraith hên *Israel*, ymarfer y brîf Eglwys, a chyfiawnder y peth ei hun, yn dyfiiolaeth ddigonol, na ddylem ni, yn yr oesoedd hyn, mwy na'r oesoedd gynt, ymddangos ger bron yr Arglwydd yn wag-law; nad ydyw ddim mwy addas i Addolwyr yr awron, nag ydoedd y pryd hynny, i bresentio eu hunain heb eu Dâ, megis Prennau heb eu sugn a'u ffrwyth; ac na ddylai'r Cenhedlaethau hyn, yrhai, yn ol prophwydoliaeth *Esay*, oeddynt ar eu dyfodiad cyntaf i ddwyn ac i gyssegru eu hunain, a'u haur, i'r Arglwydd (na ddylent, meddaf, fod yn llai eu haelioni yr awron, pan ymddangosent, trwy eu haberth, i adnewyddu'r Addunedau o'u cyssegriad cyntaf, (mewn Bedydd); gan ei bod cyn siccred nad yw Duw ar yr unrhyw achosion ddim llai ei Drugaredd, pan fo yn adnewyddu iddynt, trwy ei Sacrament sanctaidd hwn, y cyfammod oi Râs yn eu hachub. Gan hynny, yr hwn sy'n dyfod yn oludog, y mae yn rhwymedig i ym-

i ymddangos ger bron ei Jachawdwr, ai ddwylaw yn llawn o'r fath offrymmau gwîr-fodd, a'r allo efe eu cymmeryd oddiwrth ei helaethrwydd, megis y darfu'r Llafurwr yn *Iſrael*, allan oi gynhauaf cnydfawr, pan fendithiodd yr Arglwydd ei faes ef. Yr hwn ſydd lai ei allu, rhaid iddo offrymmu o'r hyn a allo, naill ai ei Ynnill oddiwrth ei lafur, neu ei droi heibio, drwy ei gynhildeb, fel y darfu'r Weddw dlawd, pan offrymmodd ei hatling. Ar air, dylai pob dyn, pa ûn bynnag ai tlawd ai Cyfoethog a fo, roi i lawr tu ac at Offrymmau Duw, yn ol y darfu'r ûn Duw ei fendithio neu ei arbed, 1 *Cor.* xvi 2.

13. Y MESUR o'r offrymmau hyn, pa ûn bynnag ai cyffredin megis ar achoſion beunyddiol, neu anghyffredin megis ar ddydd Cymmun, a adewir yn hollawl i bwyll, yſbryiaeth, ac haelioni'r addolwr. A chan ddarfod i DDUW, trwy ei gyfraith, drîn yr *Iſraeliaid*, fel y trina Tâd ei Blentyn; mewn oedran anghyfaddas i fod yn feiſtr arno ei hun, gan oſod i lawr iddynt y meſur, yr amſer, a'r modd o bob peth yr oeddynt iw wneuthur, neu iw roddi; fe ddarfu ein Jachawdwr, drwy'r Efengyl, ryddhau'r holl Griſtianogion oddiwrth yr Yſgol-feiſtrolaeth hon,

gan

gan eu gadael, megis dynion abl i roi cyfrif o honynt eu hunain, iw barn eu hunain, ac i hyfforddiad ei ſân Yſpryd. Ond os ydyw'r ffordd arall hon o'r Eſengyl yn rhyddhau Criſtianogion yn y dyddiau hyn oddiwrth y Caethiwed o wneuthur yn fanwl ac yn gyfrdo bob peth yr oedd hên *Iſrael* iw gadw, y mae'n ſicer ei fod yn eu rhwymo i wneuthur angwaneg, am y defnydd o hono, ac iw wneuthur mewn gwell ffordd. Ac na atto Duw, i'r Anrhydedd a'r Rhyddid yma, y mae efe yn ei deilyngu i ni uwchlaw yr hyn a wnaeth efe i'r *Iddewon* gael ei gymmeryd gennym, naill ai megis caniadhâd, neu achlyſur, i fod yn waeth. Gan hynny, fe ddarfu Duw gynt roi deddfau pennodol iw Bobl am bob peth yr oeddynt iw wnenthur, naill ai mewn perthynas o Dduwioldeb neu Gariad: o ba ûn cymmerwch yr Eſampl hon; yr oeddynt i roi'r degfed o ba beth bynnag a fedrant ei gaſglu allan o'u Meuſydd, eu Coed, a'u Praidd, heblaw degfed ran arall bob yn drydydd flwyddyn, hynny ydyw, y ddegfed ran ar hugain bob blwyddyn; a pha beth bynnag a dyfo o hono ei hun bob ſeithfed flwyddyn ſegur. Yr oeddynt yn rhwymedig, heblaw hyn, i amryw fath o Eluſenau eraill i gym-

morth

morth y tlawd; megis rhoi benthyg arian iddynt, heb gymmeryd na llôg na gwyſtl; ac i adael ar eu hôl, yn eu meuſydd a'u gwinllannoedd, cymmaint o'u hŷd a'u grawnwîn a allai dalu am lafur a diwyddrwydd llawer Cymmydog goneſt, y rhai, yn niwedd y flwyddyn, nid oedd ganddynt ddim cynhauaf arall ond hwnnw o loffa. Ac er mae Eluſen oedd hyn ei gyd, etto ef a alwyd ymyſg pobl *Iſrael* yn gyfiawnder, am fod y gyfraith wedi ei orchymmyn, a'u bod nhwythau mor rwymedig i dalu 'r Eluſenau hyn, ac hynny mor fanwl, ac un ddylêd arall. Ymma ynteu dâ y gwnae gwîr Griſtion goneſt ddal ſulw ac yſtyried i ba ſwm y dae'r holl draul yma, a pha ran oi holl olud ai feddiannau a ddygant, a pha rai y mae Duw yn ei fendithio ef; fel y gallai wrth hynny gyfrannu tu ac at y gweithredoedd o dduwioldeb neu gariad, nid yn unig cymmaint eithr mwy, ac os nad yn yr ûn rhyw, etto mewn cyſtadl rhyw, ac y darfu'r *Iddewon*: fel y gallai ragori arnynt hwy mewn Eluſeni, y rhai y mae 'r Efengyl yn gorchymmyn i ni ragori arnynt mewn pob rhinwedd dda arall, megis yr ydym yn rhagori arnynt mewn Bendithion.

14. NID

14. NID oes dim mwy tebyg wedi oſod ar amſer yr offrymmau hyn, nac ſydd ar y meſur o honynt. Fe ddarfu Sanct *Paul* ar y cyntaf ordeinio'r Dydd cyntaf o'r wythnos, hynny yw, Dydd yr Arglwydd, i gaſglu'r Cymmorthau hynny o Eluſeni; ac, megis y mae efe yn eu galw, *Aberthau cymmeradwy*, 1 Cor. xvi. 2. Phil. iv. 18. y rhai a anfonwyd i'r Brodyr tlodion yn *Jeruſalem*; am fod y diwrnod hwnnw, o'r amſer hynny allan, mewn modd mwy pennodol wedi ei gyſegru i'r gwaſanaeth o weddiau, Pregethau, a Chymmun. Yr awron, er darfod i'r enbydrwydd oi halogi, yr hyn yr oedd llai achos iw ofni y pryd hynny, wneuthur ymarfer y Sacrament hwn, yn ein dyddiau ni, yn an amlach ac yn fwy anghyffredin na phregethu a gweddio, etto gan fod Duw, yn y ddwy ddduwiolſwydd yma, yn ſiarad a ni, a ninnau ac yntef, fe ddylai hyn fod yn ddigon o rybudd i ni, na ryfygom ymddangos ger ei fron ef yn wag-law. Ac, fel y gallom yn hawsa gynnal i fynu'r draul o'r Aberth wythnoſol yma, a thanu'r Arogl peraidd o hono yn fwy hollawl trwy holl rannau o'n bywyd, hi a fyddai yn ddoethineb ſanctaidd i ofalu, ar i bob diwrnod gael rhyw gyfran o'r baich, a rhyw gyfran

hefyd

hefyd o'r Sancteiddrwydd: ac felly, wrth ddyfal ddilyn y gwaſanaeth yma bob dydd, y gallo'r goludog fod fyth yn ddiwyd i dolli rhai Cerdodau mwy allan oi helaethrwydd; i'r tlawd neilltuo rhyw faint allan oi angenrheidiau; ac i'r dyn digonol arbed yr hyn a allo allan oi ddigonedd. Ond yn enwedig pan fo haelionus Raglimiaeth Duw yn bwrw i'n dwylaw rhyw Elw rhagorol, yno bydded i'r hwn, a fynn ymgyfoethogi yn Nuw, edrych ar yr odfeudd amſerol hyn, megis adeg têg o gynhauaf, o ba un y mae'n rhaid iddo fod yn ſiccr i gadw Blaenffrwyth i Dduw; a bydded ganddo Lê yn ei Dŷ, ſef y Dryſor-fa yn y Deml, lle y gallo beunydd fwrw i mewn ei *Dalent*, neu ei *ffyrling*, neu ei *hatling*; yn ol y bo Duw beunydd yn ei fendithio ef; ac, allan o hwn, na fydded iddo gymeryd dim ond i ryw bwrpas duwiol a dà, megis pe Cymmerai ef oddiwrth Allor Duw.

15. Hyn, yn wir, ſydd ſiccr, fod, nid hwn yn unig, eithr hefyd pob peth arall a fo gennym gartref, wedi gyſſegru euſoes i Dduw, gan ein bod ni, ar ol i Dduw ei roi i ni, wedi ei roi yn ol i Dduw. Canys, pa bryd bynnag y rhoiſom ein hunain i fynu iddo ef, yr oedd

ein

ein holl olud yn cael eu cynnwys yn y Cyſſegriad cyffredinol hwn, ac, wrth hynny, oeddynt yn dyfod yn offrymmau ſanctaidd i'r Arglwydd. Ond megis yr oedd yr offrymmau ſanctaidd hyn, tan y Ddeddf, o ddau fath, rhyw ran o ba rai a allai'r Addolwr, ai wraig, ai blant, ei fwyta; a rhyw ran nid oedd gyfreithlon i neb ei fwyta; oddigerth i'r Offeiriadau yn unig; fy meddwl yw, y dylai'r Criſtion gwir-dduwiol gaſglu bob dydd, ac o feſur ychydig (er mwyn gwneuthur ei Ddefoſiwn yn fwy di-ormes, a thrwy ddyfal ddilyn y gwaith da yma, i fanc-teiddio yn well holl chwyl ei fuchedd) dryſor o bethau dâ o'r fath ddiwaethaf hon, yr hwn a aller ei dreiſio yn unig ar Dduw a gwaſanaeth ei Eglwys.

16. Ond yn yr ûn amſer ac y Cymmer yr Addolwr Criſtianogol y defnyddiau oi weithredoedd da allan o'r Dryſor yma, efe a ddylai ofalu i dynnu, tan ûn, allan o Dryſor dda ei galon, y *Tân* a'r *Thûs*, hynny yw, y Zêl a'r meddyliau ſanctaidd a allant bereiddio'r *gweithredoedd dâ*, a'u derchafu cyfuwch, ac i fod yn *Aberthau crefyddol*. Ac yn ddiammeu, megis, ar y cyntaf, yr oedd ei ofal ef i beidio a rhoi'r Blaen-ffrwyth hyn heibio, mewn cîlfach oi Dŷ, yn eſceulus, neu

neu yn ddibris, fel y teiſi rhai eu Heluſen i ddwylaw tlodion; neu megis y bwriodd *Judas* ei ddeg dryll ar hugain i'r Deml: felly ni ddylai fod mor anghofus o hono ei hun, ac iw cymmeryd oddiyno ai thoddi ar Gorph, neu aelodau CRIST, hynny yw, yr Eglwys ai Gymmydog, ond gyd a'r fath dduwiol-fryd o feddwl a chalon dderchafedig, ac a wedda'r Mawrhydi hwnnw y mae efe yn ei addoli, neu'r weithred ddaionus ſanctaidd, y mae efe yn ei arfaethu. Gwnaed ef, beth bynnag, ni waeth, ymha le, na pha bryd, naill ai wrth ei ddrws, neu ar y ffordd, neu yn y Deml; canys daeth yr awr ers talm, pryd na therfynir gweithredoedd ac addoliadau crefyddol, nac i'r *Mynydd hwn*, nac *i Jeruſalem*, Joan iv. 21. p'le bynnag y rhoddo Duw i ti'r cyfleuſdra a'r gallu i gyflawni ûn weithred ſanctaidd, yno y mae yn gwneuthur i ti Dir ſanctaidd; Dim ond, er mwyn i'r weithred hon fod yn ſanctaidd ac yn weddus i'r addolwr, rhaid iddi, beth bynnag a'r fo, gael ei gwneuthur *mewn Yſpryd a Gwirionedd*. Yr Yſpryd yma a ddyſg i ni'r peth na ddichon Cîg a Gwaed moi ddyſgu, ſef, i ganfod ac i yſtyried, nid Angel yn unig, fel y darfu'r *Patrieirch* yn aml, eithr CRIST ei hun, ynghyflwr

Eglwys gyſtuddiedig, neu gyfaill cyw
trallodus; ac yno, ar y fath achoſion
roi ein haelioni, gyd a'r un fath feddwl
chalon, ac y gwnae'r gwîr addolwr ro
ei offrymmau ar yr Allor, lle y gwyr
daw CRIST y hŷd iddo yn ſiccra dim,
dderbyn hefyd yn gymmeradwy. U
waith y derbynniodd efe yr *Aur*, y *Myr*
a'r *Thûs*, a roddaſai'r Doethion i *Joſeph*
efe a dderbynniodd hefyd y dâ a ddarf
Suſannah, a merched crefyddol eraill, e
rhoi yn nwylaw ei Ddiſgyblion: er y
amſer hwnnw, fe ddarfu CRIST ei hu
yn fwya pendifaddef, ſefydlu ei Eglwy
a'r holl Aelodau trallodus o honi yn lle
bobl ddedwydd yma. Ac, megis p
gwnaethpwyd hwynt i'r pwrpas yma y
Swyddogion a Chennadon parchedig
GRÎST, ynghylch yr amſer yr oedd efe
ddioddef, ac i adael ei anwyl Ddiſgyb
ion, efe a addawodd dderbyn yn gym
meradwy, a'u cyfrif megis pethau wed
rhoi iddo ei hun, yr ychydig offrymma
hyn, y rhai a fo i ni, er ei fwyn ef, e
hymddiried yn eu dwylaw hwynt, *Mat*
xxv. 40—45.

17. YR ûn Yſpryd yma, a'n gwait
ni yn trefnu ein heluſen fel hyn, ydyw
unig ffordd trwy ba un y gallwn dde
chafu ein gweithredoedd da, a'n gwneu
thu

thur yn wîr *Offrymmau-derchafael.* Heb y Derchafael yma, ſ'eill yr hyn a roddom ſod ynddo ei hun yn Weithred ddâ, i ninnau yn gôſt fawr, ac i ddynion eraill yn ryw leſhâad: ond i DDUW, nid yw ddim Aberth, neu y mae'n fath Aberth nad yw yn anfon dim arogl i fynu; eithr, naill ai yn ail i Aberth *Cain*, yn ſyrthio i lawr yn llwch a lludw; neu, yn ail i Eluſeni'r Phariſeaid, heb ddim bendith iw ganlyn, ond y cyfryw wâg-wobr a gaffom, ondodid, gan ddynion, *Gen.* x. *Matt.* vi.

18. Y MAE uchel-waſanaeth a ſanc-eiddrwydd y Cymmun bendigedig yn bywiogi, ac yn cynhyrfu llawer ar yr holl yſtyriaethau hyn, a duwiol amcanion yr enaid, y rhai, i'r Addolwr, ſydd raid cadw lle Dodrefn yr offeiriadaeth, ac i'r offrwm, ſod yn llê'r Tân a'r Thûs. Gwêl addo-lad yr hên *Iſraeliaid* yn *Deut.* xxvi.

Y

GWEDDIAU.

Ar ol darfod y Bregeth, a'r Cymmunwyr wedi eu cyflëu yn weddus i dderbyn y Sacrament bendigedig; tra bo'r Offeiriad yn parattoi'r Miniſtriad, goſtwng i lawr yn ufudd ar dy Liniau, ac yn ddiſtaw offrymma'r Weddi hon.

ARglwydd Jesu! yr hwn a ordeiniaiſt y Dirgelwch hwn i fod yn *Gymmun* o'th Gorph, yn ûn o foddion Grâs a Sancteiddrwydd; ac yn Wyſtl ſiccr o iechydwriaeth dragywyddol, yr hon a ddarfu i ti bwrcaſu trwy dy Gorph, a'r hon yr wyti yn parattoi dy Bobl iw derbyn trwy'r cynnydd hwn mewn ſancteiddrwydd: Oh Arglwydd! edrych yn awr arnafi yn dy drugaredd, Cymmorth fy Angrhediniaeth, angwanega fy ffydd, a threfna Enaid dy wâs ſydd yr awron i dderbyn y pethau Sancteiddiol hyn. Gan

mae tydi dy hun, o'r dechreuad, a'
rhoddaiſt (er nad yn ddigyfrwng a'th law
dy hun, ond trwy finiſtriad dy Ddiſgybl
ion (*Joan* iv. 1.) wrth eu rhoddi, bendithi
hwynt hefyd a bendithia hwynt, tra'r wy
yn eu derbyn, fel y byddant affeithiol i'r
ſefydlu yng-Nghymmun dy ddioddefaint
yr hwn y maent hwy yn ei bortreiadu a
yn ei ddangos; i'm porthi a'r *Bara byw*
iol hwnnw y maent yn ei *breſentio*, a
i'm ſancteiddio i'r dedwyddwch tragy
wyddol hwnnw y maent yn ei *addaw*.
Oh Arglwydd! ti a adwaenoſt burde
fy nghalon, ac nid yw fy ochenaid gudd
edig oddiwrthyt; edrych ar bechadu
truan wrth dy fwrdd, fel yr edrychai
arno ef, yr hwn a fu yng ngrhôg wrt
dy Groes di. Oh Arglwydd! fy Nuw
cofia fi yn awr a thitheu wedi myned
mewn i'th Deyrnas, (*Luc* xxiii. 42.
Amen.

Wrth roddi'r Eluſenau a'r Offrymmau

YR wy'n meiddio dyfod ger bron y
Arglwydd, gyd a'm holl bechoda
a'm cyſtuddiau; y mae'n gwbl adda
chyfiawn hefyd, i mi ymddangos gyd a
ychydig fendithion hyn y rhai ydyn
eiddo fi; eiddo fi ydynt trwy dy ſerc
a'

a'th ddawn di, a chan mae oddiar dy law di y derbynniais hwynt, yr wyf yn awr yn eu hoffrymmu i ti (1 *Cron.* xxix. 14.) yr wy'n attolwg i ti faddeu i mi fy mhechodau, gwared fi oddiwrth fy mlinderau a'm cyfluddiau, a derbyn yn gymmeradwy y fendith fechan hon. Derbyn yn gymmeradwy fy Aberth megis y darfu i ti hwnnw o'r eiddo *Abel*, *Abraham*, a *Noah*; neu yn hytrach edrych, er fy mwyn i, ar yr unig wîr Aberth hwnnw, yr hwn y mae'r Sacrament o hono yma; Aberth yr unig Oen difrycheulyd, Aberth dy Fab dy hun, dy unig anedig Fab, dy Fab yn deilliaw oddiwrthyt ti i farw trofofi. *Oh! bydded iddo ddyfod eilwaith oddiwrthyt ti attafi: deued yn awr, megis unig anedig y Tâd, yn llawn gras a gwirionedd, i'm bendithio.* Amen *ac* Amen.

Yn ebrwydd ar ol gweddi'r Cyffegriad.

AMEN, Jesu fy Arglwydd, a'm Duw! dyro i mi hyn oll yr wyti yn ei ddangos; a chaniadhâ hefyd i mi dderbyn yn ddefofionol, a chadw yn ffyddlawn, yr hyn yr wyti yn ei weled yn dda ei roi. Bendithia dy ordinhâd hwn, a gwnâ ef yn wîr *arwydd* ac yn

affeithiol *foddion* o'th râs; yna bendithi
a ſanctteiddia hefyd fy nghalon, a gwn
hi yn Deml addas i'th Drugareddau. Y
ſiccr ti a wnei a mi, yn dy ddirgelio
hyn, Oh Dduw'r Gwirionedd! Yn o
dy ffyddlondeb; ond trefna hefyd fy
nghalon felly tu ac at yr iawn arfer o
honynt, fel y gallwyf yn ddiogel ddei-
fyfu y gwneler i mi yn ol fy ffydd. Oh
Dâd, yr hwn wyt yn y nefoedd! yr wyfi
yma yn offrymmu i ti fy Enaid, a thi-
theu yn offrymmu i mi dy Fab. Y
offrwm yr wyfi yn ei roi, och finnau!
beth yw ond preſwylfa llygredigaeth ac
afiendid, i dderbyn *unig ſanct yr Iſrael*?
a Phabell wedi halogi gan wahan-glwyf,
yno i letteua, *Sanct* yr Arglwydd? er
hynny, tyred i mewn, tyred, tydi Arch-
offeiriad tragywyddol, ond golch a glanha
dy Dŷ wrth dy Ddyfodiad. Na fydded
i ddim drwg-ſawyr y bêdd, mwy na
hwnnw o'r eiddo *Lazarus*, dy gadw draw
oddiwrth y Bêdd, ac oddiwrth y Cyflwr
gwael yr wyf yn gorwedd ynddo, cyn bel-
led, na byddo i'th allu gyd a'th Lef, i'th
waed gyd a'th Sacrament, fy nghyr-
haeddyd i'm cyfodi: na fydded i ddim
o'r afiendid hwnnw, yr hwn, yn ol Cyf-
raith *Moſes*, a halogai y ſawl a ddeuant
yn rhŷ agos, gadw draw Sanct mawr yr
Arglwydd

Arglwydd rhag fy nghyffwrdd i, a'm iachau. Yſprydion aſlan a ddeuant i mewn weithiau i Dai wedi glanhau, iw dwyno ai gwrthuno (*Matt.* xii.) ond, oh tydi lân Yſpryd Duw, fydd yn ſanctaiddio! neſhâ at fy Enaid iw lanhau, yr hwn o hono ei hun fyd eiſoes yn aflan. Dyn truenus o bechadur ydwyf, ac, heb dy nawdd di, yn golledig; ond am dy Jechydwriaeth di yr ydwyf yn aros, ac yn diſgwil. Tyred i mewn, Oh Arglwydd! a'th Jechydwriaeth i ddyn ar dranccedigaeth, iw iachau oi holl leſgedd, at bechadur fydd rwym, law a throed, a gefynnau anwiredd, iw ryddhau; at ûn fydd oſtyngedig yn cyfaddef ei bechodau i roddi iddo ollyngdod a maddeuant. Yn ddiweddaf, tyred i mewn, fy Jachawdwr, megis y deuaiſt at y *Publican*, i'm gwellhau, ac i'm cwbl-iachau. Oh! deued Jechydwriaeth y dwthwn hwn i'r tŷ yma. *Amen.*

Tra bo eraill yn Cymmuno, arfera ûn o'r Gweddiau fy'n canlyn, neu angwaneg, yn ol y bo'r amſer yn Caniadhau.

OH! *fy Arglwydd a'm Duw!* yr wyf yn gweled yn y Bara hwn, a wnaeth-

pwyd o ddefnydd wedi ei dorri i lawr, ei guro, ei falu, ai ddryllio gan ddynion, yr holl gernodiau trymion, a'r plau, a'r dolurau a ddarfu i'm Jachawdwr eu dioddef oddiwrth ddwylaw ei Arteithwyr: yr wyf yn gweled, yn y bara hwn wedi ſychu, ei bobi, ai loſgi wrth Dân, y digofaint danllyd honno hefyd, a ddioddefodd efe oddiuchod troſoſi, ac oddiwrth law ei Dâd ei hun. Fy Nuw! fy Nuw! paham y gadewaiſt ef fel hyn? trais a gorthrymder dynion annuwiol ai gwnaeth ef, yn gyntaf, yn ferthyr, yna Tân o'r Nêf ai gwnaeth ef yn *boeth offrwm*: a than y ddau ddioddefaint yma, wele ef yn myned i mi yn *fara'r bywyd*.

Awn ninnau ynteu iw gymmeryd ac iw fwyta: canys er bod yr Arfau ai maluriodd ef, wedi eu torri yn chwilfriw, a'r fflammau erchyll ai lloſgaſant ef wedi eu diffodd yn llwyr, etto y mae'r Bara hwn, yr hwn yw Corph yr Arglwydd, yn parhau fyth yn newydd. Y mae'r gwaywffyn, a'r cleddyfau, ai lladdaſant ef, a'r lloſgfeydd a wnaethant yr Aberth yn gyflawn, wedi darfod am danynt ai gwaſgaru ers blynyddoedd lawer, ond y mae nerth ac Arogl yr offrwm etto fyth yn beraidd, y gwaed etto yn gynnes, a'r Archollion etto yn newydd, a'r Oen etto

yn

yn *ſeſyll megis wedi ei lâdd*, (Datc. v. 6.) Pob math arall o fara; wrth ei gadw, a lygra ac a ddefnydd, a phob Aberth arall a gyll ei rymm; ond tydi, Aberth tragywyddol, offrymmedig i Dduw trwy'r Yſpryd tragywyddol, gan offeiriad tragywyddol, a thrwy Urdd anghyfnewidiol, tydi, Meddaf, yr ûn ydwyt fyth; ac megis na phalla dy flynyddoedd fyth, ni chollant, ac ni leihânt fyth ddim o'th nerth iachuſol a'th Drugaredd; Cymmorth, oh Cymmorth fi hefyd, fel na leihânt ddim o'm ffydd; Cynnorthwya fi i ymofidio gan deimlad o'm pechodau i, ac o'th ddoluriau ditheu, fel y darfu'r Eneidiau dâ hynny, a'th welſant ti yn dioddef (*Luc* xxiii. 27.) Na fydded i'm calon loſgi a dim llai Zêl i'th ganlyn a'th waſanaethu di yr awron, pan dorrer y bara hwn wrth dy *Fwrdd*, nac y darfu calonnau dy Ddiſgyblion, pan dorraſt ti ef yn *Emmaus*, (Luc xxiv. 32.) Oh Graig *Iſrael*, Craig Jechydwriaeth, y Graig a darawyd ac a holltwyd erofi, bydded i'r ddwy ffrwd honno o *ddwfr* a *Gwaed*, y rhai a ddylifaſant unwaith allan o'th Yſtlys, (*Ioan* xix. 34.) ar ol i ſelltith y gyfraith, a gwialen *Moſes* ei egoryd, bydded iddynt, meddaf, ddwyn i lawr gyd a hwynt Jechydwriaeth a Sanctaidd

rwyd

rwydd i'm Henaid, er ymhell iawn oddiwrth y Mynydd, lle y derbynniaiſt y dyrnod marwol hwnnw: ac na fydded i'm henaid i ſychedu dim llai am danynt yr awron, na phe ſafaſwn ar fynydd *Horeb*, allan o'r hwn y tarddodd y *Dwfr yma*, ac yn agos i Hollt y *Graig* honno, a briwiau fy Jachawdwr, allan o ba rai y ffrydiodd y gwaed Cyſſegredig hwn. Er pelled yw'r Amſeroedd a'r Gwledydd ſydd rhwng *Adda* a mi, nid ydynt yn cadw ei bechod ef, neu ei Goſpedigaeth, ddim pellach rhag fy ngorddiwes i, na phe buaſwn wedi fy ngeni yn ei Dŷ ef ai Deulu: Ac er pelled ydym oddiwrtho yr ydym yn pechu ac yn marw yn ol ei *ddelw* ef, fel pe buaſem wedi'n cenhedlu yn ddi-gyfrwng oi lwynau ef. Tydi, oh ail *Adda*! yr *Adda* a ddaeth oddiuchod, bydded i'th Waed ti gyrhaeddyd cyn belled, a dyfod cyn rwydded i'm iachau, ac i'm Sancteiddio, ac y cyrhaeddodd gwaed fy Nhâd cyntaf, i'm halogi ac i'm difetha i. Jesu fendigedig! yr hwn wyt, trwy'r Sacrament hwn, yn bywhau 'r Goffadwriaeth o'th Aberth, bywhâ a nertha fy ffydd hefyd, paratôa fy meddwl, a threfna fy nghalon, ac yna bendithia dy Ordinhâd hwn: os cyf-

fyrddaf,

ſyrddaf, yn y modd y dylwyf, ond *ynmyl ei Wîſg* ef, Gwîſg ei Ddioddefaint ef, a Gwîſg ei Gyfiawnder ef, rhinwedd a'i allan oddiwrtho, ſe fydd i mi yn ol ſy ffydd, a'm henaid truan a iacheir. *Amen.*

AWDUR ſy Jechydwriaeth, a'r Dirgelion hyn ſy'n ei dangos hi! dyro i mi'r ddwy fendith yma, y rhai y mae'r Sacrament hwn yn eu dangos ynghŷd, Gràs am Ràs, Trugaredd, a nerth i gadw Trugaredd. Hoſannah, oh Fab *Dafydd!* achub, a chadw: achub fi, rhag i mi ſyrthio yn nwylaw'r Diniſtrydd; a chadw fi, fel ar ol yr Jechydwriaeth hon, na bo i mi fyth ſyrthio trwy fy nwylaw fy hun: ond cadw a 'chwanega ynof, er maint yw fy holl wendid, y gwaith o'th ffyddlawn Drugareddau. Caniadha na bo i mi angwanegu fy mhechod trwy gamarfer o honof yr hyn a roddaiſt. Fy achubydd, a'm Ceidwad, parha i roi bob amſer yr hyn a roddaiſt unwaith. Crea ynof galon newydd, eithr bendithia a chadw yr hyn a greaiſt, ac angwanega fwy-fwy yr hyn a blennaiſt. Oh Fab Duw, a phren y bywyd! portha a'th ſugn y gangen dyner hon, yr hon heboti

nid

nid all ond gwywo; a chadarnhâ ynot y Gorſen yſſig, yr hon heboti nid all ond Cwympo: Oh Dâd y trugareddau tragywyddol! na âd, yn y Diffaethwch, *Iſraeliad* egwan, yr hwn a ddygaiſt ychydig o ffordd allan o'r *Aipht*; ac na âd i'r Enaid truan hwn o'r eiddo fi, yr hwn a fendithiaiſt a rhai deiſyfiadau, ac a gynnorthwyaiſt ychydig yn ei ffordd tu ac at Jechydwriaeth tragywyddol, na âd iddo fyth ddiffygio, nâ chyfeiliorni oddiar yr iawn Lwybr. Fe allodd yr Angel, yn yr anialwch, yn ddiammeu dywallt cymmaint o'r *Manna*, ac a allodd yr wyn Paſg dywallt o waed: oh Jesu! tydi ſylwedd a gwirionedd y ddau, yr wyn a'r Angel, tydi wyt mor abl i'm perffeithio i a'th fendithion allan o'th Orſeddfaingc, ac oeddit abl im prynnu trwy dy Aberth ar y Groes. O Jesu! Awdur, Gwrthrych, a'r gwirionedd o'r hyn a orchymmynnaiſt, trwy dy Ordinhâd, i mi ei dderbyn, cyflawna ynoſi yr hyn yr wyt ti yn ei ddangos, bywyd tragywyddol trwy'r dioddefiadau hynny canys yma y mae'r Corph *dryllieidig* dyro hefyd nerth a macth i'r *ân bywyd* hwn, canys yma y mae'r *Bara* o'r *Nef* Amen.

OH Arglwydd, yr hwn ni weli ynoſi ddim ſydd wîr eiddo ſi, ond Llwch a Lludw, a'r peth ſydd waeth, Cîg a gwaed pechadurus; edrych ar yr hyn ſydd gennyf o honot ti, ryw ychydig weddill o'th Ddelw, ryw ychydig ddechreuad o'th râs, a rhyw ychydig wreichion o'th Yſpryd. Ond gan fod y rhain oll yn ddiffygiol, gwnâ hwynt yn ddigonol, o Arglwydd, a'th drugaredd, ac ag Aberth dy Fab. Nid i ni, O Arglwydd, nid i ni, ond i'th Enw di, ac i'th Enneiniog dyro fawl. Tro dy Olygon, oh Dad trugarog! at fodlondeb a chyfryngdod dy Fab, ſydd yn eiſtedd ar dy ddeheulaw, at *inſêl* dy Gyfammod ſydd yn gorwedd ger dy fron di ar y Bwrdd hwn, ac at yr holl anghenion âr cyſtuddiau a weli hefyd yn fy nghalon. O Dad! gogonedda dy Fab yr hwn a anfonaiſt i'r byd hwn; oh Fab! bendithia ditheu'r Sacrament hwn a ordeiniaiſt i'th Eglwys, a danfon gyd ac ef rhyw ddoniau o'r Yſpryd hwnnw, yr hwn a addewaiſt i bob cnawd; fel, trwy gymmorth y trugareddau hyn, y gallo'r Bŷd, yr Eglwys, ein cnawd a'n heneidiau dy ogoneddu Di, yr awron ac yn dragywydd, Oh Dâd, Mab, ac Yſpryd Glân! *Amen.*

Cyn

Cyn derbyn y Bara Cyſſegredig.

TYDI, Offeiriad tragywyddol, yr hwn a eſgynnaiſt i'r Uchelder, yno i dderbyn rhoddion i ddynion, yr wy'n attolwg i ti lenwi fyng nghalon allan o'th Eiſteddle Sanctaiddiol, megis yr wyt yr awron yn llenwi fy ngenau a phethau ſanctaidd dy Eglwys; ac felly trefna fi, trwy dy râs, i fwyta mewn Yſpryd a gwirionedd, gnawd yr Aberth hwnnw a offrymmaiſt ti o'r tû allan i'r porth, a'r hwn y mae'r Sacrament hwn yn ei oſod ger fy mron yn dy gynteddau, fel oddiyno i'm derbynnier i'r Cyſſegr Sanctaiddiolaf hwnnw a eggorodd dy Aberth di, ac i ba ûn y mae'r Sacrament hwn yn fy ngwahodd i. Hwn yw'r Bara, a arlwyodd yr Arglwydd iw Blant, a'r hwn y mae efe yn ei anfon i mi yn awr trwy law ûn oi Angylion. Oh! na bae i mi, yn nerth yr Ymborth yma, rodio, megis y darfu *Elias*, fy neugain niwrnod, neu, fel *Iſrael*, fy neugain mhlynedd, a dyfod o'r diwedd i'r Mynydd ſanctaidd hwnnw, lle y câf, heb gynnorthwy dim Bara, na gweinidogaeth ûn Angel, weled fy Nuw, Wyneb yn Wyneb. *Amen.*

Ar

Ar ol derbyn y Bara, dywaid,

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mab, ac i'r Yſpryd Glan;
Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon ac yn dragywydd. *Amen.*

Cyn derbyn y Gwppan ſendigedig.

O Dragywyddol ſendigedig Yſpryd Duw, yr hwn wyt yn bendithio, bendithia fi yn awr, a chynnorthwya fi i yfed yn deilwng o ffrwyth hwn o'r Winwydden, fel yr yfwyf yn newydd yn Nheyrnas fy Nhâd. *Amen.*

Ar ol derbyn y Gwppan, dywaid,

Yn enw'r Tâd, a'r Mab, a'r Yſpryd Glan, Bendith ac anrhydedd, Gogoniant a gallu a fyddo iddo ef yr hwn a fu, ac ſydd, ac ſydd i ddyfod. *Amen.*

Pan

Pan ddychwelech i'th Eiſtedd le, cyn y gwaſanaeth ſydd ar ol Miniſtriad y Cymmun, a thra bo eraill yn Cymmuno, dywaid,

WELE ſi yn dyfod, os yw'r Enaid a'r Corph hwn fuddiol i ddim, dymma hwynt eill dau yn barod *i wneuthur dy Ewyllys di, O Dduw!* (Heb. x. 5, 7.) Ac os dy ewyllys di yw rhag-llaw cymmeryd mewn Llaw, a dangos y gallu, a'r awdurdod hwnnw ſydd gennyt, megis Creawdwr, ar Lŵch a Lludw, ar Gig a Gwaed egwan, ar Leſtr breuol o Glai, ar waith dy Ddwylaw dy hun; Wele hwynt yma i ddioddef hefyd dy Ewyllys di. Yr wyf, yn awr, yn addaw y'm Duw, os gwêl yn dda fy nghyſtuddio i a dolur neu amharch, yr ymoſtyngaf fy hun tano, ac y byddaf *ufudd hyd Angeu, ïe Angeu'r Groes*, (Phil. ii. 8.) Pa beth bynnag a ddigwydd i mi, naill ai oddiwrth *Iddewon* neu Genhedloedd, oddiwrth Gymmydogion neu Ddieithriaid, gan mae fy Nuw ſydd yn eu goſod ar waith, er nas gwyddant, ac na thybiant hwy felly; oddigerth i Dduw, ar yr

yr ûn amſer, fy nghynorthwyo i tu ac at rhyw foddion cyfreithlon i ddiogelu fy hun rhag eu Camwri; o hyn allan ni egoraf mo'm genau ger bron yr Arglwydd, yr hwn ſydd yn fy nharo i, oddigerth i ganu'r Pſalm, ar ol i mi ſwyta rhai dail ſurion, a berthyn i'r Pâſg hwn, ac i fendithio yr Arglwydd, yr hwn ai rhoddes i mi, ac i weddïo arno tros y Annuwiol, y rhai yn faleiſgar, ondodid, a ymgaſglaſant i'm herbyn. O hyn allan, ni all neb ddwyn dim oddiarnaf, na bywyd, nac anrhydedd, na golud, gan fy mod yn barod o honof fy hun iw rhoi i lawr, cyn gynted ac y gallaf weled fod Duw yn eu gofyn ar fy nwylaw. Er hynny, oh Dâd! os ewyllyſi tynn oddiwrthyf y Cwppan hwn; etto, os rhaid i mi ei yfed, dy Ewyllys di a wneler, (*Luc* xxii. 42. *Matt.* xxvi. 42.) Pa ddioddefaint bynnag a ddichon o hyn allan ſlino fy ngnhawd, neu pa ofidion bynnag a allant, ondodid, ſlino'n doſtach fy Yſpryd, gan ddilyn Eſampl yr Arch-offeiriad hwn ynghanol ei chwerwaf boenau, *Oh Dâd, i'th law di* (Luc xxiii. 46.) y gorchymmynnaf fy einioes, a'r holl berthynaſau anwylaf o hono. Ac, os gweli yn dda i mi naill ai byw

etto

etto yn hwy neu beidio, myfi a ogwydda fy *mhen* gyd a'm Jachawdwr (*Joan* xix. 30, 46.) mi a'th addolaf tan fy maich, ac a ymoftyngaf fy hun tan dy law; ac a roddaf i fynu yr hyn oll a welych yn dda eu gofyn, golud, Llawenydd, &c. nes o'r diwedd y *rhoddaf i fynu fy Yſpryd*. Amen.

O H! Dad y Trugareddau, yr wy'n attolwg i ti trwy handdedigaethau dy Fab, yr hwn ſydd yn awron yn eiriol yn y Nef, a thrwy'r Aberth waedlyd honno a offrymmodd efe ar y Groes (y Sacrament o ba ûn a weli ar y bwrdd hwn) bydded gwiw gennyt heddyw fy nerbyn i Gymmundeb o'i ddioddefiadau ef, a rhagllaw i'r Cymmundeb oi Ogoniant of. Na ſyrw oddiwrthyt, mewn forriant, dderchafiad fy nwylaw hyn, y rhai a hoeliaſ iw groes ef, fel na wnânt ddim camwedd, a'r rhai yr wyf yr awron yn eu heſtyn attat, a gwîr ddeiſyfiadiddynt dy waſanaethu di rhagllaw. Ac na ddirmyga'r Aberth o Enaid truan, yr hwn a ddarfu ei Groes ef ei harcholli a theimlad oi thrueni; a thrwy'r briw hwn ſydd yn ei hegoryd i dywallt allan ei Gweddiau, ac i ymgyrrhaedd yn awyddus

at dy drugareddau. Oh DDUW a Thâd! tywallt arnaf y cyfryw feſur o'r Yſpryd hwnnw, trwy'r hwn y darfu i'th Fab offrymmu ei hun (*Heb.* ix. 14.) a'r allo tros fyth ſancteiddio'r Corph a'r Enaid hwn, y rhai yr wyfi yr awron yn eu hoffrymmu; ac hefyd fy nghynnorthwyo 'inneu i gyflawni'r gwaſanaeth yr wy 'n ei addaw: Yſpryd o Gyſtudd, fel y gallwyf ffieiddio yn ddigonol y pechodau hynny a druddodaſant fy Nuw i farwolaeth; ac yna *Yſpryd o Sancteiddrwydd*, fel na'm temptier ſiddynt ddim mwy nac a ddichon dyn croeſhoeliedig ei demptio. Oh! na fydded i'r Corph croeſhoeliedig yma, yr hwn yr wyf yn ei breſentio i ti megis ûn felly, fyth fod yn rhydd oddiwrth ei groes ef, i fyrthio i'r Angeredd honno, a wanodd ddwylaw fy Jachawdwr, neu i redeg i'r gwagedd hynny a goronodd ei ben ef a drain, neu i ddilyn y fath bleſerau drwg, a lanwodd ei Enaid ef a chyſtudd, ac a lanwodd ei ymyſgaroedd ef a buſtl. Ti, fraich a gwialen yr Arglwydd, yr hwn, yn dy ddigofaint, a ddïelaiſt yr holl bechodau hyn ar fy Jachawdwr, yn dy Drugaredd Coſpa a diniſtria hwynt hefyd ynoſi. Felly, oh fy Nuw! derbyn yn gymmeradwy galon

ſydd

fydd yn awr yn tywallt ei dagrau ger dy fron di, fell y tywalltodd yr Aberth truan ei waed; ac fydd yn derchafu attat ti ei holl ddeifyfiadau, ei Meddyliau, ai Zêl, fel y gwnâ'r poeth-offrwm ei fflammau. Yn ddiweddaf, gan na ddichon fy Aberth, ar ei ben ei hun, fod, nac yn ſanctaidd, nac yn gymmeradwy; etto derbyn ef, oh Dâd! megis y mae yn offrwm wedi gynnal gan yr Aberth hwnnw, yr hwn yn unig ſydd abl i ryngu bodd i ti: derbyn ef wedi ei wiſgo a chyfiawnder dy Fab, ai wneuthur yn gymmeradwy gyd a'r per-Arogl ſanctaidd hwnnw, a eſgynnodd oddiar ei Allor ef: a chaniadhâ iddo ef yr hwn ſy'n ſancteiddio, ac i'r rhai a ſancteiddir, fod wedi eu cyſſylltu ynghŷd mewn ûn dioddefaint, ac fel y gallont rhagllaw, gyd a thydi, fwynhau'r unrhyw Ogoniant.

Ein Tâd yr hwn wyt yn y Nefoedd, &c. *Amen.*

TERFYN.

Beiau'r Argraph-Waſg.

Tû dalen	Linell		
13	16	groeſthoelio	groeſthelio
15	2	gyntaf	gynta
—	8	yna	yn a
17	12	addaw	gaddaw
23	25	a bwrcaſodd	abwrcaſodd
24	25	fu	fa
27	18	Gyfiawnder	Gyfiawder
29	23	Defnyddiau	Defndyddiau
30	30	nac	nec
35	20	Munud	funud
37	6	gadael	gadel
43	17	gwerthfawr	gerthfawr nid
50	16	*dele* eu	
53	3	Harfer	arfer
—	14	ym mlaenllaw	ymmlaenllaw
—	22	gadael	gadel
72	29	ein	ei 'n
76	28	gweiniaid	gweiniad
86	13	ein	eu 'n
90	8	ein	eu 'n
101	3	gyngor	chwedl
133	15	fi	fl
142	2	fel	fell

BRITISH MUSEUM
12 47
JUL